

EIN HIAITH: EI DYFODOL

**Y PWYLLGOR DIWYLLIANT A'R PWYLLGOR ADDYSG A
DYSGU GYDOL OES**

ADOLYGIAD POLISI O'R IAITH GYMRAEG

MYNEGAI	Tudalen
Rhagair y Cadeiryddion	3
Cymru Ddwyeithog	5
Crynodeb o'r Argymhellion: Rhan I a Rhan II	6
RHAN I	16
Yr Adolygiad	17
Blaenoriaethau	
Cyflwyniad	18
Swyddogaethau a Strwythurau	20
Cynllunio leithyddol	26
Addysg a Dysgu Gydol Oes	29
Datblygu Economaidd a Chymunedau Cynaliadwy	30
Polisiai Tai a Chynllunio	35
Cyfieithu	38
Deddfwriaeth	40
RHAN II	42
Cyflwyniad	43
Prif Argymhellion	45
Cynllunio Strategol	46
Themâu Cyffredin	49
Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar / Cyn-ysgol	52
Addysg Statudol (5 i 16 oed)	55
Gyrfaoedd	65
Addysg a Hyfforddiant Ôl-16	67
Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)	74
Persbectifau Rhyngwladol	77
Atodiadau: Rhan I	79
I - Tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Diwylliant	80
II - Rhestr o'r Ymatebwyr i'r Ymgynghoriad	85
Atodiadau: Rhan II	90
III - Papur Sefyllfa: Yr Iaith Gymraeg mewn addysg yng Nghymru	91
IV - Rolau a Swyddogaethau	106
V - Yr Ymgynghoriad	111
VI - Tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes	114
VII - Tystiolaeth gan Ddisgyblion Ysgol	116

Geirfa	124

RHAGAIR Y CADEIRYDDION

Etifeddodd y Pwyllgor Diwylliant gais gan y Cynulliad i'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 gynnal adolygiad polisi cynhwysfawr ar yr iaith Gymraeg yn unol â chais y Cynulliad. Mabwysiadodd y pwyllgor gylch gorchwyl a oedd yn ceisio diffinio'n fwy manwl nod cydnabyddedig y Cynulliad o greu Cymru ddwyieithog a chynnig strategaeth gadarn i gyflawni hynny. Cytunodd y pwyllgor hefyd i ofyn i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ymgymryd ag arolwg o'r iaith Gymraeg mewn addysg.

Roedd yn amlwg o'r cychwyn cyntaf nad oedd sefyllfa lle'r oedd 18% yn unig o'r boblogaeth yn siarad y Gymraeg yn gynaliadwy. Cafwyd tystiolaeth bod cadarnleoedd gwledig traddodiadol y Gymraeg dan bwysau enfawr tra bod trefi a dinasoedd ledled Cymru, yn arbennig yn y De-ddwyrain, yn wynebu galwadau sylweddol am addysg cyfrwng Gymraeg. Nodwyd mai addysg blynnyddoedd cynnar oedd y prif faes ar gyfer buddsoddi er mwyn creu continwmm addysgol a fyddai'n cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

Yn dilyn sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999, roedd disgwyliad y byddai Llywodraeth Cymru yn derbyn y cyfrifoldeb o hyrwyddo dwyieithrwydd trwy feithrin twf yr iaith Gymraeg. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a rhan gyntaf yr ugeinfed ganrif y capeli oedd ceidwaid y Gymraeg, a dilynodd dirywiad yr iaith yr un patrwm â dirywiad yr enwadau anghydfurfiol. Chwistrellodd addysg a darlledu cyfrwng Gymraeg, yn eu tro, ryw gymaint o fywiogrwydd i'r iaith ond nid oedd hynny yn ddo'i hunan yn ddigon i gynnal twf tymor hir. Wedi sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol mae'n anochel bod y cyfrifoldeb am ddyfodol y Gymraeg bellach ar ysgwyddau llywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag ystod o gyrff ac asiantaethau.

Roedd gan nifer o fudiadau a gyflwynodd dystiolaeth farn bendant, a oedd yn aml yn gwrthdaro, ynglyn â'r math o weithredu oedd ei angen er mwyn cynnal y Gymraeg a chymunedau dwyieithog. Tra'n wynebu'r materion a godwyd yn y cyflwyniadau hyn penderfynodd y pwyllgorau weithio tuag at strategaeth gyfannol wedi ei seilio ar gynllunio ieithyddol.

Mae'r strategaeth a esblygodd yn gwneud yr iaith yn bwnc trawsbynciol ar gyfer pob maes polisi o fewn y Cynulliad ac yn sefydlu uned polisi er mwyn cydlynu cynlluniau gweithredu. Bydd y Fforwm Iaith yn gweithredu fel hwylusydd i ddwyn ynghyd yr holl gyrff, mudiadau ac asiantaethau amrywiol sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac i hyrwyddo cynllunio ieithyddol cyfannol. Ceir hefyd ystod o fesurau sy'n mynd i'r afael â'r problemau economaidd-gymdeithasol sy'n wynebu ardaloedd gwledig, wedi eu seilio ar yr angen i greu cymunedau cynaliadwy.

Rydym ddiolchgar i aelodau'r pwyllgorau am y modd cydwybodol ac adeiladol y bu iddynt ymgymryd â'u cyfrifoldebau. Credaf fod Rhan 1 a Rhan 2 o'r adroddiad yn cynnig strategaethau a fydd yn hyrwyddo twf ieithyddol ac yn y pen draw yn arwain at Gymru wirioneddol ddwyieithog.

Mater i lywodraeth yw penderfyniadau polisi a bydd angen i Lywodraeth Cymru dderbyn y sialens o greu Cymru ddwyieithog gyda chefnogaeth ewyllys da pobl Cymru.

(Llofnod Rhodri Glyn Thomas)

Rhodri Glyn Thomas A.C
Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant

(Llofnod Gareth Jones)

Gareth Jones A.C
Cadeirydd, Pwyllgor Addysg
a Dysgu Gydol Oes

CYMRU DDWYIEITHOG

“Mewn Cymru wirioneddol ddwyieithog fe fydd y Gymraeg a’r Saesneg yn ffynnu ac yn cael eu trin yn gyfartal. Ystyr Cymru ddwyieithog yw gwlad lle mae pobl yn gallu dewis byw eu bywydau trwy gyfrwng un neu’r ddwy iaith; gwlad lle mae presenoldeb dwy iaith genedlaethol, ac ieithoedd a diwylliannau amrywiol eraill yn ffynhonnell balchder a nerth”. (Y Pwyllgor Diwylliant a’r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes – Mawrth 2002)

CRYNODEB O'R ARGYMHELLION - RHAN I

Swyddogaethau a Strwythurau

- Dylai'r Cynulliad gynnig arweiniad strategol ar ddatblygu Cymru ddwyieithog. (Cabinet)
- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu uned strategol drawsbynciol ar lefel uchel o fewn y Cynulliad er mwyn datblygu strategaeth ar yr iaith Gymraeg, a goruchwyllo'r modd y caiff ei rhoi ar waith ymhob maes polisi. (Cabinet)
- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod y Gymraeg yn dod yn thema drawsbynciol yn y Cynulliad drwyddo draw, ac yng ngwaith y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Dylai llythyrau cylch gorchwyl y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad nodi'n benodol yn y dyfodol bod disgwyl iddynt gefnogi'r iaith Gymraeg. (Cabinet)
- Dylid rhoi cyllid digonol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg iddo allu cyflawni ei swyddogaethau statudol, fel y brif asiantaeth sy'n ceisio cyflawni'r targedau a osodwyd o gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg a hyrwyddo a marchnata gwerth dwyieithrwydd. (Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)
- Dylai'r Mentrau Iaith gael eu hariannu ar sail cylch tair blynedd yn unol â pholisi'r Llywodraeth er mwyn iddynt allu cynllunio a datblygu yn well. (Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)
- Y Mentrau Iaith ddylai arwain cynlluniau ar lefel leol o dan gyfarwyddiaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg. (Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)
- Dylid darparu adnoddau i alluogi'r Mentrau Iaith i sefydlu fframwaith cydlynu cenedlaethol. Byddai hyn yn galluogi'r Mentrau i gydlyn eu gweithgareddau ar draws Cymru, i rannu arferion da a mynd i'r afael â meysydd lle mae angen mwy o ddatblygiad neu hyfforddiant. (Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)
- Dylid sefydlu Fforwm Iaith a fyddai'n dwyn ynghyd yr holl gyrff a'r sefydliadau sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg. Byddai'n cyfarfod unwaith bob tri mis er mwyn rhannu syniadau, cydlynu dulliau gweithredu a chyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisiau. Dylai'r Gweinidog dros Ddiwylliant gadeirio'r Fforwm Iaith, a dylai uned iaith Gymraeg drawsbynciol y Cynulliad ddarparu cymorth gweinyddol. (Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)
- Dylid annog awdurdodau lleol i ymateb i bolisi arfaethedig y Cynulliad trwy gynhyrchu eu cynlluniau lleol eu hunain. (Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau)

Cynllunio Ieithyddol

- Blaenoriaethau'r Pwyllgor gyda golwg ar gynllunio ieithyddol yw:
 - cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg
 - cryfhau'r iaith o fewn cymunedau

**- cryfhau'r defnydd o'r iaith o fewn teuluoedd
(Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)**

- Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo gwerth cynllunio ieithyddol cyfannol ac yn credu mai gweithredu cynllunio ieithyddol cyfannol yw un o'r prif ffactorau a fydd yn diogelu'r Gymraeg, a gwella'i rhagolygon. (Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)
- Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai trosglwyddo iaith o fewn teuluoedd, defnyddio'r iaith mewn cymunedau a sicrhau mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol fod yn feysydd blaenoriaeth ar gyfer mwy o adnoddau. (Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)
- Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymhell bod uned drawsbynciol arfaethedig y Cynulliad, ar y cyd â Bwrdd yr Iaith, yn llunio ymgyrch farchnata a fydd yn hybu ac yn pwysleisio manteision trosglwyddo iaith a defnyddio'r iaith. (Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)
- Mae angen gwell data ynghylch y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg a'r agweddau tuag ati, fel y gellir seilio polisiau arnynt. (Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)

Addysg a Dysgu Gydol Oes

- Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad ddarparu cyfarwyddyd newydd er mwyn sicrhau gwell cydlyniant rhwng y Cynlluniau Trefniadaeth Ysgolion, y Cynlluniau Strategol Addysg a'r Cynlluniau Addysg Gymraeg. Dylai'r cyfarwyddyd hwn ganolbwyntio ar gael gwell dealltwriaeth ynghylch atebolrwydd a chyfrifoldebau, a mwy o gydweithio rhwng ysgolion, AALlau, Bwrdd yr Iaith a Llywodraeth Cynulliad Cymru. (Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes)
- Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad, ynghyd â'r awdurdodau addysg lleol a Bwrdd yr Iaith, baratoi fframwaith strategol cenedlaethol i sicrhau bod trefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer cydlynu'r gwaith o gynllunio, gwerthuso a datblygu addysg cyfrwng Gymraeg a dwyieithog. (Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes)
- Mae'r Pwyllgor yn cydnabod rôl hanfodol dysgu Cymraeg trwy drochi yn ystod y Blynyddoedd Cynnar, ac yn argymhell bod y ddarpariaeth hon yn cael ei hehangu a bod rôl allweddol y Mudiad Ysgolion Meithrin yn cael ei chydabod. (Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes)
- Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad gomisiynu ACCAC, Estyn a Bwrdd yr Iaith i sefydlu cyfres gytunedig o feini prawf er mwyn asesu'r parhad presennol. Dylid gwneud dadansoddiad manwl o'r rhesymau dros y diffyg parhad ymddangosiadol, a dylid cymryd y camau priodol. (Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes)
- Dylid gwneud ymchwil drylwyr i ymarferoldeb mesur hyfedredd disgyblion mewn Cymraeg ar hyd continwrm ieithyddol. (Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes)

- Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r fframwaith strategol cenedlaethol gynnwys ymrwymiad penodol i sicrhau bod hawl disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig i gael defnyddio'r ddarpariaeth sy'n diwallu eu hanghenion yn eu dewis iaith ar sail cydraddoldeb ledled Cymru yn cael ei chydabod ac y gweithredir arni. (Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes)

Mae'r Pwyllgor Diwylliant yn cymeradwyo'r argymhellion allweddol uchod gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Mae hefyd yn argymhell y canlynol:

- Dylai Uned Iaith Strategol arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad, ar y cyd â'r Fforwm Iaith arfaethedig, ganfod ffyrdd o hybu'r ddarpariaeth Addysgofal cyfrwng Cymraeg. (Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes)
- Dylid cynorthwyo'r Mudiad Ysgolion Meithrin, mewn cydweithrediad â'r Mentrau Iaith, i ddatblygu prosiectau mewn cymunedau i roi cyfle i rieni ddysgu Cymraeg ar y cyd â'u plant. (Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes)
- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i gwrdd ag unrhyw alw ychwanegol am addysg cyfrwng Cymraeg, yn ogystal ag addysg nad yw drwy gyfrwng y Gymraeg, ar gyfer plant teirblwydd oed. (Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)

Datblygu Economaidd A Chymunedau Cynaliadwy

- Cred y Pwyllgor fod datblygu cymunedau cynaliadwy yn un o'r prif flaenoriaethau. Nid ddylai hyn gael ei gyfyngu i'r cadarnleoedd neu'r ardaloedd Cymraeg eu hiaith, er y byddai'n sicr o effeithio ar yr iaith yn yr ardaloedd hynny. (Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd)
- Er mwyn cynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith, mae'n bwysig bod digon o gyfleoedd ar gyfer swyddi ar gael o fewn pellter teithio dyddiol rhesymol i'r cymunedau hynny. (Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd)
- Dylid cryfhau swyddogaethau Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru mewn perthynas â chefnogi'r iaith Gymraeg trwy weithgaredd economaidd. I'r perwyl hwn, gofynnir i'r asiantaethau ystyried sut y gellid gwneud hyn o fewn y strwythurau presennol, a chan gydwethio gyda sefydliadau eraill sy'n gweithio ar lefel leol. (Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd)
- Dylid newid llythyrau cylch gorchwyl Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru er mwyn cynnwys cefnogaeth i'r iaith Gymraeg. (Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd)
- Dylai'r strategaethau llwyddiannus a ddatblygwyd gan Menter a Busnes a sefydliadau lleol eraill fwydo i mewn i waith cynllunio economaidd yr asiantaethau arweiniol yn y dyfodol. (Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd)
- Dylid gofyn i adrannau'r Llywodraeth, y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a chyrrff nad ydynt yn atebol i'r Cynulliad, megis S4C a'r BBC, ystyried datganoli i'r rhanbarthau wrth wneud eu penderfyniadau rheolaethol a strategol. (Cabinet)

- Mae diffygion yn y seilwaith trafniadaeth yn effeithio ar sawl ardal yng Nghymru, nid yr ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn unig. Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru fynd ati i unioni'r broblem hon trwy Gymru gyfan gan gydnabod ei bod o arwyddocâd arbennig i gymunedau gwledig gan gynnwys cadarnleoedd y Gymraeg. (Gweinidog dros yr Amgylchedd)
- Mae'r Pwyllgor yn cefnogi sefydlu cronfa gymunedol i helpu busnesau cymunedol fel siopau pentref, tafarnau a swyddfeydd post. Dylai'r gronfa fod ar gael i bawb ond byddai o fudd arbennig i ardaloedd gwledig. Dylai'r Awdurdod Datblygu ac ELWa edrych ar ymarferoldeb sefydlu cronfa o'r fath. (Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd)
- Dylai'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir ar gyfer yr henoed, pobl sâl a phlant ifanc, a'r gwasanaethau preifat a gomisiynir gan y sector cyhoeddus ar eu cyfer, fod ar gael i bobl yn eu dewis iaith. (Cabinet)
- Credai'r Pwyllgor y dylid ategu pwysigrwydd dwyieithrwydd i'r diwydiant ymwelwyr ac y dylai Bwrdd Croeso Cymru annog mwy o siaradwyr Cymraeg i sefydlu busnesau twristiaeth, ac annog busnesau twristiaeth ym mhob rhan o Gymru i wneud mwy o ddefnydd o ddiwylliant brodorol eu bröydd. (Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd)

Tai a Chynllunio

- Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn haws cael mynediad i'r farchnad dai a'r farchnad waith er mwyn sicrhau bod cymunedau yn gynaliadwy, yn enwedig yng nghadarnleoedd y Gymraeg. (Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau)
- Dylid gofyn i'r Gweinidog ganfod ffyrdd o gryfhau'r Cynllun Cymorth Prynu Cartrefi, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Ymhlith pethau eraill, dylid ystyried codi cryn dipyn ar y terfyn ar gyfer pris tai y mae'r cynllun hwn yn berthnasol iddynt a rhyddhau mwy o arian ar gyfer y cynllun. (Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau)
- Er bod y Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod data ystadegol yn cael ei gasglu ynghylch y stoc dai, dymuna bwysleisio bod data o'r fath yn arbennig o angenrheidiol mewn ardaloedd lle teimlir bod prinder tai rhesymol eu pris. (Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau)
- Bod y Pwyllgor yn cefnogi cyflwyno 'Pecynnau Croeso' i bobl sy'n ystyried symud i Gymru, ond ei fod yn gofyn bod Bwrdd yr Iaith yn archwilio pecynnau o'r fath yn drylwyr cyn iddynt gael eu dosbarthu'n eang gan amrywiaeth o gyrff gan gynnwys awdurdodau lleol, cyfreithwyr ac ysgolion. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru geisio sefydlu cytundeb gyda chymdeithasau sy'n cynrychioli Gwerthwyr Tai er mwyn hwyluso'r gwaith o ddsbarthu pecynnau o'r fath. (Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau)
- Dylid annog Awdurdodau Lleol i ddefnyddio'r holl bwerau sydd ar gael iddynt, gan gynnwys pwerau tai a chynllunio, er mwyn galluogi pobl leol i gael cartrefi, trwy brynu neu rentu, yn eu cymunedau eu hunain; ond ni ddylid gwahaniaethu ar sail iaith wrth ymarfer y pwerau hyn. (Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau)

- Er mwyn helpu awdurdodau lleol i ymgymryd â chyfrifoldebau o'r fath, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r term "angen lleol" er mwyn ei ddefnyddio yng nghynlluniau datblygu unedol awdurdodau lleol. (Gweinidog dros yr Amgylchedd).
- Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r egwyddor sydd yn 'Polisi Cynllunio Cymru' bod yn rhaid ystyried yr iaith Gymraeg, a'r bygythiad i gymunedau lle siaredir Cymraeg yn bennaf, wrth ystyried datblygiadau a cheisiadau cynllunio. Mae'r Pwyllgor yn credu bod hwn yn gam cadarnhaol ymlaen o ran diogelu 'cadarnleoedd' y Gymraeg. Mae'n croesawu'r ymrwymiad a wnaed gan y Gweinidog dros Drafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd i adolygu effeithiolrwydd y polisi o fewn y flwyddyn nesaf. Mae hefyd yn credu y dylai ystyriaethau sy'n ymwneud â'r iaith fod yn ffactor pwysig wrth lunio Cynlluniau Datblygu Unedol. (Gweinidog dros yr Amgylchedd)

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai fod yn ofynnol cael caniatâd cynllunio cyn newid annedd barhaol yn dŷ haf mewn ardaloedd lle mae nifer y tai haf yn fwy na chyfran penodol o'r stoc dai bresennol. Dylai'r Gweinidog dros yr Amgylchedd ystyried yr argymhelliad hwn ochr yn ochr â mesurau eraill i sicrhau y ceir stoc ddigonol o dai ar gyfer pobl o fewn eu cymunedau. (Gweinidog dros yr Amgylchedd)

Cyfieithu

- Y nod yw cyhoeddi dogfennau Cymraeg a Saesneg yr un pryd, ac eithrio dogfennau technegol cymhleth. Fodd bynnag, dylid rhoi blaenoriaeth i ofynion cyfieithu, gyda dogfennau y mae angen seilio penderfyniadau arnynt yn cael blaenoriaeth dros bapurau cefndir. (Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)
- Prif flaenoriaeth y Pwyllgor yn y maes hwn yw annog mwy o weinyddiaeth ddwyieithog o ddydd i ddydd gan symud oddi wrth ddibyniaeth ar gyfieithu. I'r perwyl hwn, mae'n gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru hybu gweithio'n ddwyieithog o ddydd i ddydd a rhannu arferion da gyda chyrrff cyhoeddus eraill. (Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)
- Dylai Bwrdd yr Iaith, ar y cyd â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru, ddatblygu strategaeth gyfieithu genedlaethol. Dylai'r strategaeth ymdrin â materion megis safonau a rheoleiddio, hyfforddiant a chymwysterau, llwybrau gyrfaol a datblygiadau mewn Technoleg Gwybodaeth, a chwilio am ffyrdd o gynyddu nifer y cyfieithwyr. (Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)
- Yn ogystal â mwy o reoleiddio, dylai fod yn ofynnol i bob cyfieithydd ennill cymhwyster proffesiynol a bod yn aelod o gorff proffesiynol. (Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)
- Dylid cynhyrchu cyfeirlyfr blynyddol yn rhestru cyfieithwyr achrededig. (Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)
- Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r trafodaethau rhwng Prifysgol Cymru ac ELWa ynghylch datblygu cwrs hyfforddi cenedlaethol ar gyfer cyfieithwyr proffesiynol, ac yn edrych ymlaen i weld ffrwyth y trafodaethau hynny. (Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg a'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes)

Deddfwriaeth

- Dylid gwneud defnydd mor llawn ag y mae'r pwerau'n ei ganiatáu o Ddeddf 1993, fel bod y pwerau hynny'n cael eu defnyddio i'r eithaf cyn gofyn am unrhyw ddeddfwriaeth newydd gynhwysfawr. (Cabinet)
- Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymhell, gyda golwg ar ddeddfwriaeth newydd bosibl, y dylai Comisiwn Richard edrych ar y posibilrwydd o roi pwerau galluogi i'r Cynulliad a fyddai'n caniatáu iddo ddiwygio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 drwy orchymyn. (Cabinet)

CRYNODEB O'R ARGYMHELLION - RHAN II

(Dylid nodi bod pob cyfeiriad at 'Weinidog y Cynulliad' yn ymwneud â'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes)

- **Mae'r Pwyllgor yn Argymhell y dylai Bwrdd yr Iaith gael digon o adnoddau i gyflawni ei gyfrifoldeb statudol o sicrhau y caiff y cynlluniau a gymeradwyir ganddo eu gweithredu.**
- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad ddarparu cyfarwyddyd newydd er mwyn sicrhau gwell cydlyniant rhwng y Cynlluniau Trefniadaeth Ysgolion, y Cynlluniau Strategol Addysg a'r Cynlluniau Addysg Gymraeg. Dylai'r cyfarwyddyd hwn ganolbwyntio ar gael gwell dealltwriaeth ynghylch atebolrwydd a chyfrifoldebau, a mwy o gydweithio rhwng ysgolion, AALlau, Bwrdd yr Iaith a Llywodraeth Cynulliad Cymru.**
- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad, ynghyd â'r awdurdodau addysg lleol a Bwrdd yr Iaith, baratoi fframwaith strategol cenedlaethol i sicrhau bod trefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer cydlynu'r gwaith o gynllunio, gwerthuso a datblygu addysg cyfrwng Gymraeg a dwyieithog.**
- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Uned Strategol arfaethedig, mewn cydweithrediad â'r Fforwm Iaith arfaethedig, chwarae rhan ganolog yn y gwaith o wella cydlyniant mewn cynllunio strategol. Dylai'r Uned ystyried strategaethau a chynlluniau'r sefydliadau y cyfeiriwyd atynt uchod a chydweithio'n agos ag Adran Hyfforddiant ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau bod amcanion y fframwaith strategol cenedlaethol yn cael eu cyflawni.**
- **Mae'r Pwyllgor yn cydnabod rôl hanfodol dysgu Gymraeg trwy drochi yn ystod y Blynyddoedd Cynnar, ac yn argymhell bod y ddarpariaeth hon yn cael ei hehangu a bod rôl allweddol y Mudiad Ysgolion Meithrin yn cael ei chydabod.**
- **Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Gweinidog y Cynulliad wedi comisiynu archwiliad o'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, ac yn argymhell bod canfyddiadau'r archwiliad hwn yn dod yn sail ar gyfer datblygu polisi yn y dyfodol.**
- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar hefyd olygu cynnydd yn y ddarpariaeth ddwyieithog, gyda rhyw gymaint o addysg drochi, yn unol â dymuniadau'r rhieni.**
- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad roi blaenoriaeth i ddiffinio darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion. Bydd y gwaith manwl sydd wedi ei wneud yn barod gan grwp o arbenigwyr, dan gadeiryddiaeth Bwrdd yr Iaith, er mwyn egluro sut y mae trochi ieithyddol ac addysg ddwyieithog yn cael eu categorio yn ffurfio sylfaen ar gyfer yr ystyriaeth hon.**
- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad gomisiynu ACCAC, Estyn a Bwrdd yr Iaith i sefydlu cyfres gytunedig o feini prawf er mwyn asesu'r parhad presennol. Dylid gwneud dadansoddiad manwl o'r rhesymau dros y diffyg parhad ymddangosiadol, a dylid cymryd y camau priodol.**

- Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai ysgolion gydymffurfio â rheolau cofrestru CBAC a chofrestru disgyblion ar gyfer yr arholiad iaith TGAU sydd fwyaf addas ar eu cyfer.
- Yn ystod yr adolygiad o gwricwlwm ysgolion a threfniadau asesu a fydd yn cael ei wneud, ac yng ngoleuni'r adolygiad arfaethedig o addysg 14 i 19 oed, dylai ACCAC gynnwys adolygiad trylwyr o'r Gymraeg mewn addysg, yng nghyswllt rhaglenni astudio a lefelau cyrhaeddiad mewn Cymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith, er mwyn canfod a yw'r trefniadau presennol yn rhai priodol er mwyn helpu pobl ifanc i ddysgu'r iaith.
- Dylai AALLau ac ysgolion ystyried ffyrdd o wella safonau mewn Cymraeg ail iaith, gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu canllawiau clir.
- Dylid cael ymrwymiad i leihau nifer y disgyblion nad ydynt yn sefyll unrhyw arholiad mewn Cymraeg fel ail iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.
- Dylai ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg ddatblygu polisïau ar gyfer gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu mewn pynciau priodol, gan ystyried cyfarwyddyd priodol, dymuniadau rhieni, a'r staff gyda hyfforddiant addas sydd ar gael.
- Dylid datblygu llythrennedd deul a nodweddion eraill dulliau dysgu dwyieithog a gwneud mwy o ddefnydd ohonynt yn y sector cynradd ac uwchradd, yn dilyn ymgynghoriad llawn. Dylai hyn gynnwys cyfarwyddyd perthnasol a hyfforddiant mewn swydd ar gyfer staff dysgu.
- Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid gwneud ymchwil drylwyr i ymarferoldeb mesur hyfedredd disgyblion mewn Cymraeg ar hyd continwrm ieithyddol.
- Dylid sefydlu ac ariannu prosiectau peilot sy'n cyflwyno'r Gymraeg am gyfnodau dwys a chynyddu nifer y pwyntiau mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg. Dylai'r gwaith ymchwil manwl i ymarferoldeb cyrsiau sy'n seiliedig ar y model Ffrangeg Creiddiol Dwys, a wnaethpwyd gan grwp o arbenigwyr o dan gadeiryddiaeth Bwrdd yr Iaith, ddarparu cyfarwyddyd defnyddiol.
- Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad gomisiynu Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i wneud archwiliad cynhwysfawr o nifer yr athrawon Cymraeg a chyfrwng Cymraeg sydd ar gael ar hyn o bryd a pha fath o hyfforddiant sydd ei angen er mwyn cwrdd â'r galw disgwylidig.
- Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad ystyried ariannu, yng nghydestun cylchoedd cynllunio'r gyllideb yn y dyfodol, cyflwyno cynlluniau peilot ar gyfer cyfnodau sabothol i ddysgu iaith ym mhob sector, er mwyn cynyddu nifer yr ymarferwyr sydd ar gael i ddysgu Cymraeg ac i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru gynnwys DPP cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i ddatblygu fframwaith DPP cenedlaethol.

- Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai ACCAC wneud adolygiad ar lefel genedlaethol o'r broses o ddarganfod ac ymateb i'r angen am ddeunyddiau dysgu ac addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
- Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Panel Ymgynghorol TGCh, a sefydlwyd gan Weinidog y Cynulliad mewn ymateb i adolygiad polisi'r Pwyllgor o TGCh mewn addysg, chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau bod TGCh (gan gynnwys fideogynadleda ac e-ddysgu) yn cael ei ddefnyddio er mwyn ymestyn y pynciau academaidd a galwedigaethol sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r bartneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru lunio strategaeth glir a chydlynol ar gyfer casglu a rhannu gwybodaeth am yrfaeoddd lle mae angen sgiliau dwyieithog.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Cyngor Cenedlaethol - ELWa:

- Sicrhau bod addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael eu datblygu o fewn fframwaith strategol, sy'n ystyried pwysigrwydd:
 - Partneriaethau lleol wrth ymateb i angen lleol;
 - Gwneud darparwyr yn ymwybodol o ofynion y Cyngor Cenedlaethol - ELWa a gofynion cyflogwyr; a
 - Chynyddu ymwybyddiaeth o fanteision sgiliau dwyieithog ymhlith dysgwyr.
- Sicrhau bod y gwaith a gomisiynwyd gan FENTO i addasu safonau dysgu mewn Addysg Bellach ar gyfer y sector dwyieithog yn cael sylw helaeth ac yn cael ei fabwysiadu gan sefydliadau;
- Mabwysiadu dull gweithredu strategol, sy'n seiliedig ar ddata dibynadwy, ar gyfer recriwtio, hyfforddi ac ailhyfforddi staff i ddysgu'n ddwyieithog a thrwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector Addysg Bellach;
- Datblygu'r potensial a gynigir gan TGCh i sefydlu dulliau effeithiol o:
 - Alluogi dysgwyr i gael cymaint o fudd ag sy'n bosib o'r adnoddau sydd ar gael;
 - Lledaenu enghreifftiau o arferion da;
 - Darganfod yr angen am siaradwyr Cymraeg yn y gweithle; a
 - Marchnata darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg.
- Mae'r Pwyllgor yn cefnogi cynigion diwygiedig y Bwrdd mewn egwyddor, yn enwedig gyda golwg ar gynyddu nifer y Cymrodoriaethau a'r Doethuriaethau, er mwyn sicrhau twf sylweddol mewn dysgu cyfrwng Cymraeg. O ran rhoi'r cynigion hyn ar waith, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid comisiynu HEFCW i ystyried y cynigion hyn yn fwy manwl; i edrych ar gost ac ymarferoldeb y cynigion; ac adrodd i Weinidog y Cynulliad.
- Dylai'r adolygiad o'r strwythur cyllido, sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y Cyngor Cenedlaethol – ELWa, ystyried yr angen i ddatblygu sgiliau proffesiynol ymarferwyr a hybu strwythur gyfaol clir.

- **Dylai'r Cyngor Cenedlaethol - ELWa geisio mabwysiadu dull gweithredu cydlynol ar gyfer Cymraeg i Oedolion.**
- **Dylid sefydlu Canolfan Rithwir, gan ddibynnu faint o arian sydd ar gael, gyda'r bwriad o ddatblygu Cymraeg i Oedolion o fewn y sector ôl-16 ehangach.**
- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r fframwaith strategol cenedlaethol gynnwys ymrwymiad penodol i sicrhau bod hawl disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig i gael defnyddio'r ddarpariaeth sy'n diwallu eu hanghenion yn eu dewis iaith ar sail cydraddoldeb ledled Cymru yn cael ei chydabod ac y gweithredir arni.**
- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad gomisiynu archwiliad o'r ddarpariaeth AAA sydd ar gael ar hyn o bryd trwy gyfrwng y Gymraeg.**
- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid annog AALlau i sefydlu trefniadau ar gyfer rhannu adnoddau a lledaenu arferion da ar lefel ranbarthol. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru basio'r is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen er mwyn hwyluso'r cydweithrediad hwn.**
- **Mae'r Pwyllgor yn cydnabod gwerth gosod darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn cyd-destun rhyngwladol, ac yn credu'n gryf bod llawer i'w ennill trwy gydweithio. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid cadw a chryfhau'r cysylltiadau sydd wedi eu sefydlu'n barod gan Weinidog y Cynulliad gyda phartneriaid yng Nghanada ac yng Nghymuned Hunanlywodraethol Gwlad y Basg, ac y dylid edrych ar gyfleoedd eraill i rannu enghreifftiau o arferion da gyda chymunedau eraill.**

RHAN I

Pwyllgor Diwylliant

YR ADOLYGIAD

1.1 Mewn dadl ar y Gymraeg a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2000, mabwysiadodd y Cynulliad Cenedlaethol y penderfyniad isod:

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol:

- Yn nodi'r ymrwymiad yn nogfen 'Gwell Cymru' i feithrin manteision dwyieithrwydd.
- Yn cydnabod cyfraniad sefydlu S4C a Bwrdd yr Iaith Gymraeg i Gymru, ac yn croesawu'r camau cadarnhaol eraill a ddeilliodd o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- Yn croesawu'r cynnydd pellach a wnaethpwyd o ran yr iaith Gymraeg ym mlwyddyn gyntaf datganoli, sydd wedi cynnwys:
 - gweithredu'n llawn ofynion y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer Cymraeg yng nghyfnod allweddol 4 mewn ysgolion di-Gymraeg;
 - Llywodraeth y DU yn llofnodi'r Siarter Ewropeaidd dros leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol;
 - cynyddu adnoddau Bwrdd yr Iaith Gymraeg yng nghylch cyllideb 1999-2000.
- Yn cadarnhau'r penderfyniad a wnaethpwyd yn y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 ar 16 Chwefror.
- Yn galw ar y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 oed i neilltuo amser yn ei flaen-raglen waith cyn gynted ag y bo modd i gynnal adolygiad cynhwysfawr o bolisi'r iaith Gymraeg er mwyn llunio strategaeth ar gyfer y dyfodol; ac
- Yn croesawu'r cyfle a gynigir gan yr adolygiad arfaethedig, a gynhelir bob pum mlynedd, i ystyried yn fanwl weithgareddau Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'i ddull o weithredu.
- Yn ymrwmo i fabwysiadu polisiau a fydd yn cynnal cymunedau Cymru ac yn sicrhau ffyniant yr iaith Gymraeg o fewn y cymunedau hynny.
- Yn cadarnhau ei gred bod yr iaith Gymraeg yn eiddo i bawb yng Nghymru, boed yn siaradwyr Cymraeg neu'n ddi-Gymraeg, ac yn ymrwmo i gydweithredu â chyrrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i greu cymaint â phosibl o gyfleoedd i bobl ymhob rhan o Gymru gymryd rhan yn niwylliant a bywyd cyhoeddus dwyieithog Cymru.

1.2 Ym mis Tachwedd 2000, yn dilyn newidiadau yng Nghabinet y Cynulliad, cafodd swyddogaethau'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 oed ynghyd â rhai'r Pwyllgor Addysg Cyn-16 oed eu rhannu rhwng dau Bwyllgor newydd – y Pwyllgor Diwylliant a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Etifeddodd y Pwyllgor Diwylliant yr ymrwymiad i gynnal adolygiad polisi o'r iaith Gymraeg ac ar 7 Chwefror 2001 mabwysiadodd y cylch gorchwyl canlynol:-

“I geisio diffinio'n fwy manwl nod sefydledig y Cynulliad Cenedlaethol o ' greu Cymru ddwyieithog'. Nod y Pwyllgor fydd awgrymu strategaeth bendant o gamau tuag at gyflawni'r nod honno.

Bydd yr adolygiad yn talu sylw arbennig i'r themâu canlynol:

- **galluogi pobl i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall neu'r ddwy ymhob agwedd o fywyd cenedlaethol ac yn eu cymunedau;**
- **cefnogi'r Gymraeg fel iaith y teulu a'r gymuned;**
- **darparu cyfleoedd i bobl ddysgu Cymraeg, a'i defnyddio;**
- **hyrwyddo parch cyfartal tuag at y Gymraeg a'r Saesneg, a chynnal y consensws a'r ewyllys da cenedlaethol at ddwyieithrwydd.**

Bydd y Pwyllgor yn edrych ar waith Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a bydd hefyd yn edrych ar swyddogaethau a chyfraniad amrywiaeth o sefydliadau eraill. Bydd y rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cyfrannu at ddatblygiad economaidd, yn ymdrin ag eithrio cymdeithasol, yn gwella dysgu, ac yn gwella ansawdd bywyd”.

1.3 **Dechreuodd yr adolygiad** ar 2 Mai 2001 gyda chyflwyniad gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Cynhaliwyd 10 sesiwn derbyn tystiolaeth arall; yr olaf ar 6 Chwefror 2002. Cyflwynodd 58 o sefydliadau ac unigolion eu tystiolaeth i'r Pwyllgor yn uniongyrchol a derbyniwyd 127 cyflwyniad ysgrifenedig arall. Mewn ymdrech i gyrraedd cymaint o bobl â phosibl, cynhaliwyd 6 o gyfarfodydd y Pwyllgor mewn gwahanol rannau o Gymru. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau derbyn tystiolaeth yn Aberystwyth, Dinbych, Abertawe, Casnewydd, Pontypridd a Phontyberem. Ceir rhestr o'r holl ymatebwyr yn Atodiad II.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif bryderon a godwyd yn ystod yr adolygiad yn ogystal â'r egwyddor sylfaenol bod angen i Lywodraeth y Cynulliad ystyried dyfodol y Gymraeg mewn modd cyfannol, gan ystyried yr iaith ym mhob maes y mae'n gyfrifol amdano. Dechreuodd yr adolygiad ei hun y broses hon drwy gynnwys yr holl bwyllgorau pwnc, y pwyllgorau rhanbarth a'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

BLAENORIAETHAU

2.1 Yn ystod yr adolygiad, daeth yn amlwg i'r Pwyllgor na fyddai'n bosibl creu Cymru ddwyieithog trwy'r dulliau traddodiadol o gefnogi'r iaith yn unig - sef polisïau diwylliannol ac addysgol. Mae cylch gorchwyl yr adolygiad wedi ysgogi pobl i edrych yn ehangach na hynny, ac wedi clywed y dystiolaeth daeth y Pwyllgor i'r casgliad y byddai'n rhaid i unrhyw bolisi arwyddocaol edrych ar y darlun cyfan. Mae'n credu y dylai cynaliadwyedd y Gymraeg gael ei ystyried wrth lunio pob un o bolisïau'r Cynulliad, ac wrth eu rhoi ar waith.

2.2 Isod, nodir sut y gellid cyflawni hynny o fewn y meysydd blaenoriaeth hyn:-

- Swyddogaethau a Strwythurau
- Cynllunio leithyddol
- Addysg a Dysgu Gydol Oes
- Datblygu Economaidd a Chymunedau Cynaliadwy
- Polisïau Tai a Chynllunio
- Cyfieithu
- Deddfwriaeth

SWYDDOGAETHAU A STRWYTHURAU

Y Dystiolaeth

3.1 Roedd y berthynas rhwng y Cynulliad a Bwrdd yr Iaith a swyddogaethau'r ddau gorff ymhlith y prif bynciau trafod yn yr adolygiad hwn. Mynegodd y rhan fwyaf o'r cyfranwyr farn ynghylch swyddogaethau'r Cynulliad, Bwrdd yr Iaith a chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru o ran diogelu dyfodol y Gymraeg.

3.2 Cafwyd safbwyntiau gwahanol ynghylch y trefniadau a'r strwythurau a fyddai'n angenrheidiol er mwyn gwneud gwahaniaeth. Roedd llawer o'r sylwadau'n ymwneud â swyddogaeth y Cynulliad ei hun, gan gynnwys ei Gynllun Iaith mewnol; roedd eraill yn ymwneud â swyddogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Llywodraeth Leol, y Mentrau Iaith a chyrrff eraill.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

3.3 Roedd mwyafrif y cyfranwyr yn credu bod swyddogaeth y Cynulliad yn un allweddol. Roeddent o'r farn bod angen i'r Cynulliad roi arweiniad, o ran gosod y fframwaith polisi a hyrwyddo gwerth dwyieithrwydd; a sicrhau bod y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a chyrrff eraill yn gwneud yr iaith yn rhan ganolog o'u cynlluniau strategol a'u cynlluniau gweithredu. Galwodd sawl un hefyd ar y Cynulliad i drin yr iaith fel thema drawsbynciol yn ei holl bolisiau. Er mwyn cyflawni hyn, awgrymodd llawer o bobl y dylid cael:

- Uned bolisi drawsbynciol ar lefel uchel o fewn y Cynulliad a fydd yn datblygu polisiau ar yr iaith ac yn goruchwyllo'r modd y cânt eu rhoi ar waith;
- Pwyllgor sefydlog ar yr iaith Gymraeg.

3.4 O ran y Pwyllgor, tynnwyd cymhariaeth â'r modd yr ymdrinnir a materion cyfle cyfartal a theimlwyd na ddylai'r iaith dderbyn dim llai o sylw.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

3.5 Dechreuwyd ar yr adolygiad hwn ychydig cyn cyhoeddi argymhellion yr adolygiad pum mlynedd o Fwrdd yr Iaith Gymraeg (a gynhaliwyd gan Newidiam). Ceir 26 o argymhellion i gyd – mae'r rhestr lawn ym mhapur pwyllgor CC-13-01(p.4) – ond rhestrir rhai o'r argymhellion pwysicaf isod:

- Bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn adolygu ei strategaeth yng ngoleuni adolygiad presennol y Cynulliad Cenedlaethol o'i strategaeth ei hun ar gyfer y Gymraeg ac yn cynhyrchu dogfen gynllunio ddiwygiedig sy'n nodi targedau penodol dros gyfnod o bum mlynedd ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn sectorau a chymunedau arbennig.
- Bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gwahodd cyfraniad gan y bobl tuag at bolisi a strategaeth drwy gynnwys sefydliadau partner a chynrychiolwyr sectorau allweddol yn y broses o'u datblygu.
- Bod Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol, yn ystod yr adolygiad polisi cyfredol, yn manteisio ar y cyfle hwn i ystyried datblygu strategaeth gynhwysol ar gyfer yr iaith Gymraeg sy'n ystyried effeithiau cyrrff cyhoeddus eraill ar yr iaith, sy'n amlinellu ffyrdd o gydlynu gweithgareddau

sy'n hybu'r iaith ac sy'n nodi mecanweithiau i ddod â'r iaith i brif ffrwd gweinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

- Y dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg drafod â'r Cynulliad Cenedlaethol i ba raddau y gall barhau i fonitro cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol cyrff cyhoeddus, a dechrau gweithio ar rai newydd, ac edrych ar ffyrdd o ddirprwyo agweddau ar y broses fonitro hon i gyrrff archwilio priodol eraill.
- Y dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Cynulliad gydweithio'n agos i ddatblygu diwylliant o gefnogaeth i'r Gymraeg ym mhob agwedd ar weinyddiaeth gyhoeddus a datblygiadau cyhoeddus.

3.6 Yn ystod cyfnod yr adolygiad, mae Bwrdd yr Iaith wedi rhoi'r argymhellion hyn ar waith, gan ailstrwythuro ei drefniadau rheoli a gweithredu. Mae wedi cyflwyno tystiolaeth o'i waith i'r pwyllgor hwn, a phwyllgorau eraill. Cyflwynodd ei ddatganiad, "Cenhadaeth a Gweledigaeth", i'r Gweinidog ac i'r Pwyllgor hwn er mwyn cefnogi ei dystiolaeth. Cymeradwywyd "Cenhadaeth a Gweledigaeth" yn y Cyfarfod Llawn cyn hynny, ym mis Tachwedd 2000.

3.7 Roedd Newidiem hefyd yn argymhell y dylai Bwrdd yr Iaith ystyried sut i gryfhau ei bresenoldeb rhanbarthol yng Nghymru. O'r ymatebwyr a gyfeiriodd yn uniongyrchol at Fwrdd yr Iaith, roedd sawl un yn cytuno bod presenoldeb o'r fath yn hanfodol er mwyn i'r Bwrdd allu chwarae rhan fwy blaenllaw yn y broses o paratoi cynlluniau datblygu a strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

3.8 Roedd datblygu a chryfhau partneriaethau hefyd yn un o'r meysydd allweddol ar gyfer Bwrdd yr Iaith. Dywedodd un o'r ymatebwyr "na all Bwrdd yr Iaith sicrhau ar ei ben ei hun bod modd cynnal yr iaith. Rhaid i'r Bwrdd annog ei bartneriaid yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol a sicrhau y caiff yr arian sydd ar gael ei flaenoriaethu a'i dargedu yn y ffordd fwyaf effeithiol i ddyfodol yr iaith". Cafwyd cryn dipyn o sylwadau ynghylch ariannu Bwrdd yr Iaith, ac roedd sawl un o'r ymatebwyr o'r farn bod angen rhoi mwy o arian ac adnoddau i'r Bwrdd er mwyn iddo allu bod yn gwbl effeithiol.

3.9 Cafwyd sylwadau hefyd ar gwmpas pwerau Bwrdd yr Iaith ac ar y diffiniad ohonynt. Dywedodd un ymatebydd fod yn "rhaid diffinio pwerau a chyfrifoldebau'r Bwrdd er mwyn iddo allu rhoi mwy o gymorth i gyrrff wrth iddynt baratoi eu Cynlluniau Iaith".

3.10 O ran swyddogaeth uniongyrchol Bwrdd yr Iaith, dywedodd rhai y dylai ganolbwyntio yn bennaf ar gynllunio ieithyddol a sicrhau y cydymffurfir â Deddf 1993.

3.11 Prin oedd yr ymatebwyr a alwodd am ddiddymu neu ad-drefnu'r Bwrdd, er i un alw am "awdurdod dros ddiwylliant Cymreig a'r Gymraeg" yn ei le.

Awdurdodau Lleol

3.12 Ni chafwyd rhyw lawer o sylwadau penodol am swyddogaethau llywodraeth leol o ran cefnogi'r Gymraeg, er i'r Pwyllgor dderbyn tystiolaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig oddi wrth sawl awdurdod lleol. Cafodd rhai awdurdodau lleol eu canmol am eu hymdrechion i hyrwyddo'r iaith yn fewnol ac am geisio darparu gwasanaethau dwyieithog. Gofynnodd eraill am arweiniad gan y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn cyflawni amcanion eu Cynlluniau Datblygu.

3.13 Yn fwy cyffredinol, dywedodd rhai y dylai'r awdurdodau lleol fabwysiadu nod y Cynulliad o greu Cymru ddwyieithog a chynnwys manylion am hyn yn eu strategaethau cymunedol.

Y Mentrau Iaith

3.14 Wrth werthuso Menter Cwm Gwendraeth, daeth yr Athro Colin Williams a Dr Jeremy Evas i'r casgliad ei bod "braidd yn gynnar i asesu effaith lawn y mentrau iaith wrth geisio adfywio'r Gymraeg yn eu hardaloedd, ond bod cryn botensial iddynt. Hyd yma, hon yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gychwyn a chynnal strategaeth adfywio ar y lefel leol. Mae'r Mentrau yn debygol o fod yn allweddol yng Nghymru i sefydlogi darnio ieithyddol mewn ardaloedd lle mae cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg".

3.15 Yr oedd llawer o'r rheini a gyfeiriodd at y Mentrau Iaith yn ystod yr adolygiad yn cytuno y gallant gael effaith bositif ar ddatblygu'r iaith yn y gymuned. Dywedodd un ymatebydd "nad oedd amheuaeth bod y Mentrau wedi cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned ac wedi llunio casgliad o arferion da dros y blynyddoedd". Pwysleiswyd bod y Mentrau yn rhoi mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith ar lefel gymunedol, a'u bod yn codi proffil yr iaith. Gwelai Mentrau Iaith Cymru y dyfodol fel cyfnod o "gryfhau ei rôl a'i statws fel corff cydlynu cenedlaethol i'w alluogi i weithredu fel corff ymbarél sy'n rhoi cymorth, arweiniad a chynghor ar bob lefel. Gallai hefyd ddatblygu partneriaethau a gweithredu'n strategol ar lefel genedlaethol".

3.16 Roedd yr Adolygiad o'r Mentrau Iaith a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith yn 2001 yn ategu'r casgliad bod "y Mentrau Iaith wedi cael effaith gadarnhaol ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg ar lefel gymunedol. Ar y cyfan, mae llawer o enghreifftiau o ymarfer da ...". Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn dweud bod "llawer o waith y Mentrau braidd yn dameidiog a digyfeiriad a bod angen rhannu a datblygu enghreifftiau o ymarfer da".

3.17 Roedd yr adolygiad a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith yn cyflwyno 70 o argymhellion ynghylch y ffordd ymlaen ar gyfer y Mentrau, o ran eu perthynas â'r Bwrdd ei hun a chyrrff eraill a'r angen iddynt ehangu perchenogaeth o fentrau cynllunio ieithyddol yn lleol.

Cyrrff Newydd

3.18 Galwodd llawer o'r rhai a ymatebodd am sefydlu cyrrff newydd i gefnogi'r Gymraeg.

3.19 Galwodd sawl un ar y Cynulliad i sefydlu comisiwn annibynnol i edrych ar yr argyfwng yn y cadarnleoedd Cymraeg ac awgrymu atebion. Awgrymodd un grwp y dylid sefydlu Awdurdod Datblygu Economaidd ar gyfer y cymunedau Cymraeg yn benodol – ac ategwyd hynny gan gyrrff eraill sy'n gweithio ym maes yr economi.

3.20 Awgrymwyd bod angen gweithgor iaith cenedlaethol, a fyddai'n cynnwys mudiadau cenedlaethol sy'n gweithio ym maes iaith. Awgrymwyd mai Bwrdd yr Iaith ddylai gadeirio'r gweithgor ac mai'r Cynulliad ddylai ei ariannu. Roedd un cyfrannwr am weld y Cynulliad yn buddsoddi mewn nifer o sefydliadau newydd a fyddai'n cefnogi'r iaith, yn eu plith Ganolfan Safoni Termau Genedlaethol, Canolfan Cynllunio Ieithyddol, Canolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg a Bwrdd Ymgynghorol ar Ddwieithrwydd – i astudio effaith newidiadau cymdeithasol-economaidd gan gynnwys cynllunio rhanbarthol, yr economi, trafndiaeth, cyfathrebu, y cyfryngau a datblygiadau rhyngwladol - a Chanolfan Adnoddau Dwyieithog i baratoi meddalwedd ar gyfer byd busnes.

3.21 Awgrymodd Mentrau Iaith Cymru y dylid sefydlu 'Pwerdy' – Corff Cenedlaethol dros yr iaith a Datblygu Economaidd – i hybu'r economi, addysg a hyfforddiant, datblygu cymunedol a'r Gymraeg. Byddai corff o'r fath yn "datblygu syniadau, yn hybu ymchwil ac asesiadau o angen, yn ariannu

cynlluniau blaengar, yn annog mentergarwch, yn rhoi cyngor a chefnogaeth i fusnesau lleol, ac yn monitro a gwerthuso effeithiolrwydd polisïau datblygu economaidd a defnydd tir ar y Gymraeg”.

Ystyriaeth y Pwyllgor

Y Cynulliad Cenedlaethol

3.22 Roedd y Pwyllgor yn gytûn mai'r Cynulliad ddylai roi arweiniad ar bolisi ym maes y Gymraeg, ac y dylai wneud hynny mewn modd amlwg. Roedd y Pwyllgor o'r farn hefyd bod angen sefydlu uned drawsbynciol ar lefel uchel er mwyn datblygu polisïau ar yr iaith a goruchwyllo'r modd y cânt eu rhoi ar waith ym mhob un o feysydd cyfrifoldeb y Cynulliad. Yr uned hon, felly, fyddai'n sbarduno'r agwedd gyfannol at yr iaith yr oedd y Pwyllgor yn dymuno'i gweld o fewn y Cynulliad.

3.23 O ran cael pwyllgor sefydlog ar y Gymraeg, roedd rhai Aelodau yn credu i ddechrau y byddai cael Pwyllgor o'r fath yn darparu'r ffocws angenrheidiol ar gyfer polisïau, ac ar gyfer yr uned bolisi arfaethedig. Wedi ystyried, fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn teimlo na fyddai hynny'n cyfrannu at yr agwedd gyfannol at yr iaith gan y byddai'n cyfyngu polisïau ar yr iaith i un pwyllgor. Yn hytrach, teimlai'r Pwyllgor y dylai pob Pwyllgor fod yn gyfrifol am y Gymraeg, gyda'r Pwyllgor Diwylliant yn gyfrifol am gydlyn, ac am y polisi cyffredinol. Byddai angen creu gweithdrefn, felly, i'r uned drawsbynciol adrodd i'r Pwyllgor Diwylliant, ac ar gyfer cysylltu â'r pwyllgorau eraill ar faterion yn ymwneud â'r iaith.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

3.24 Roedd y Pwyllgor eisoes wedi derbyn canfyddiadau'r Adolygiad Pum Mlynedd o'r Bwrdd Iaith. Mynegwyd peth pryder, fodd bynnag, ynghylch y ffaith bod gan y Bwrdd gyfrifoldeb deublyg - am gynllunio ieithyddol ac am reoleiddio - ond gwrthododd aelodau'r Pwyllgor y farn hon. Penderfynodd y Pwyllgor y dylai'r Bwrdd gadw'i gyfrifoldeb fel y corff arweiniol ym maes cynllunio ieithyddol, ac y dylid cryfhau'r agwedd honno. Roedd y Pwyllgor yn gweld hefyd y gallai'r Bwrdd Iaith helpu i ddatblygu partneriaethau newydd rhwng y Mentrau Iaith a grwpiau a sefydliadau lleol eraill.

Awdurdodau Lleol

3.25 Roedd y Pwyllgor o'r farn y gallai awdurdodau lleol chwarae rhan fwy blaenllaw yn y gwaith o hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd rhai eisoes wedi datblygu strategaethau ar gyfer eu hardaloedd hwy yn ogystal â'u cynlluniau iaith statudol. Roedd y rhain yn argymhell mwy o gydweithio rhwng asiantaethau perthnasol, rhywbeth sy'n bwysig ar bob lefel ym marn y Pwyllgor.

Y Mentrau Iaith

3.26 Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod gan y Mentrau Iaith ran bwysig i'w chwarae yn ysgogi a chydlynu gweithgareddau ar lefel leol. Er mwyn rhoi sail gadarnach i'r Mentrau, ac er mwyn caniatáu iddynt ddatblygu eu prosiectau yn well, dylid eu hariannu ar sail cylch tair blynedd, yn hytrach nag ar gyfer blwyddyn, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylid darparu adnoddau i sefydlu fframwaith cydlynu cenedlaethol ar gyfer y Mentrau Iaith. Byddai hynny'n galluogi'r Mentrau i gydlyn eu gweithgareddau, i rannu arferion da a mynd i'r afael â meysydd lle mae angen mwy o ddatblygiad neu hyfforddiant.

Cyrff Newydd

3.27 Gwrthododd yr Aelodau yr awgrymiadau ynghylch cyrff newydd a gyflwynwyd yn ystod yr adolygiad. Roeddent yn credu, er hynny, y byddai o fudd mawr pe bai yna fwy o gydweithio a chydlynu rhwng yr holl gyrff sydd â diddordeb mewn cynllunio ieithyddol a darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Roedd y Pwyllgor yn derbyn bod angen cydlynu gweithgareddau'r gwahanol gyrff a sefydliadau sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg. Roedd y Pwyllgor hefyd o'r farn bod angen creu gweithdrefn ffurfiol er mwyn galluogi sefydliadau a grwpiau cymunedol i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisïau'r Cynulliad yn y dyfodol.

3.28 Penderfynodd y Pwyllgor y dylid sefydlu Fforwm Iaith, a fyddai'n dwyn ynghyd yr holl gyrff a'r sefydliadau sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg. Byddai'n cyfarfod unwaith bob tri mis er mwyn rhannu syniadau, cydlynu dulliau gweithredu a chyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisïau. Byddai strwythur y Fforwm Iaith yn dilyn yr un patrwm â "Cymru'n Creu", a sefydlwyd er mwyn mynd i'r afael ag anghenion tebyg yn y sector diwylliant. Byddai Gweinidog yn cadeirio'r Fforwm Iaith, a byddai uned iaith Gymraeg drawsbynciol y Cynulliad yn darparu cymorth gweinyddol.

Argymhellion

- **Dylai'r Cynulliad gynnig arweiniad strategol ar ddatblygu Cymru ddwyieithog.**
- **Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu uned strategol drawsbynciol ar lefel uchel o fewn y Cynulliad er mwyn datblygu strategaeth ar yr iaith Gymraeg, a goruchwyllo'r modd y caiff ei rhoi ar waith ymhob maes polisi.**
- **Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod y Gymraeg yn dod yn thema drawsbynciol yn y Cynulliad drwyddo draw, ac yng ngwaith y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Dylai llythyrau cylch gorchwyl y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad nodi'n benodol yn y dyfodol bod disgwyl iddynt gefnogi'r iaith Gymraeg.**
- **Dylid rhoi cyllid digonol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg iddo allu cyflawni ei swyddogaethau statudol, fel y brif asiantaeth sy'n ceisio cyflawni'r targedau a osodwyd o gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg a hyrwyddo a marchnata gwerth ddwyieithrwydd.**
- **Dylai'r Mentrau Iaith gael eu hariannu ar sail cylch tair blynedd yn unol â pholisi'r Llywodraeth er mwyn iddynt allu cynllunio a datblygu yn well.**
- **Y Mentrau Iaith ddylai arwain cynlluniau ar lefel leol o dan gyfarwyddiaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.**
- **Dylid darparu adnoddau i alluogi'r Mentrau Iaith i sefydlu fframwaith cydlynu cenedlaethol. Byddai hyn yn galluogi'r Mentrau i gydlynu eu gweithgareddau ar draws Cymru, i rannu arferion da a mynd i'r afael â meysydd lle mae angen mwy o ddatblygiad neu hyfforddiant.**
- **Dylid sefydlu Fforwm Iaith a fyddai'n dwyn ynghyd yr holl gyrff a'r sefydliadau sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg. Byddai'n cyfarfod unwaith bob tri mis er mwyn rhannu syniadau, cydlynu dulliau gweithredu a chyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisïau. Dylai Gweinidog gadeirio'r Fforwm Iaith, a dylai uned iaith Gymraeg drawsbynciol y Cynulliad ddarparu cymorth gweinyddol.**

- **Dylid annog awdurdodau lleol i ymateb i bolisi arfaethedig y Cynulliad trwy gynhyrchu eu cynlluniau lleol eu hunain.**

CYNLLUNIO IEITHYDDOL

Y Dystiolaeth

4.1 Y ddogfen bwysicaf a gyflwynwyd i'r Pwyllgor oedd dogfen Bwrdd yr Iaith Gymraeg, "Cenhadaeth a Gweledigaeth", a gymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn fis Tachwedd 2000. Mae'r ddogfen yn nodi pedwar math o gynllunio ieithyddol sy'n angenrheidiol er mwyn i iaith oroesi:

- Cynllunio caffaeliad
- Cynllunio defnyddio
- Cynllunio statws
- Cynllunio corpws

4.2 Ni wnaeth y Pwyllgor drafod cynllunio ieithyddol yn fanwl ei hun ond mae yn cefnogi egwyddorion "Cenhadaeth a Gweledigaeth".

4.3 Fe wnaeth y Pwyllgor dderbyn tystiolaeth bwysig ychwanegol ar hyn, fodd bynnag, a nodir canfyddiadau'r Pwyllgor isod.

Cynllunio Caffaeliad Iaith

4.4 Derbyniodd y Pwyllgor gryn dipyn o dystiolaeth ynghylch pwysigrwydd trosglwyddo iaith rhwng cenedlaethau. Roedd cefnogaeth i'r safbwynt na all iaith weithredu ar lefel gymunedol os nad yw rhieni yn ei throsglwyddo i'w plant. Teimlai rhai cyrff bod y sefyllfa yn debygol o waethygu mewn blynyddoedd i ddod. Nododd un, "Y mae'r bwch rhwng y cenedlaethau yn ehangu fel y mae'r nifer o enedigaethau i rieni 20-29 mlwydd oed yn gostwng a nifer y babanod a enir i famau dros 35 oed yn cynyddu. Y mae hynny'n arafu'r broses o drosglwyddo rhwng y cenedlaethau. Serch hynny, y mae'n rhoi mwy o amser i feithrin cymhelliant ac i hyrwyddo caffaeliad iaith ymhlith pobl yn eu hugeiniau". Galwodd yr un corff am fwy o fuddsoddi i wella sgiliau iaith rhieni a darpar rieni, er mwyn gwella sgiliau iaith plant ifanc.

4.5 Canmolodd un academydd fentrau blaengar Bwrdd yr Iaith i roi gwybodaeth am becynnau Bounty i famau newydd ac i hyfforddi Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd i annog rhieni newydd i ystyried iaith y cartref. Aeth yn ei flaen i bwysleisio pa mor bwysig yw cyfraniad Mudiad Ysgolion Meithrin at addysg Gymraeg.

4.6 Cafwyd llawer o awgrymiadau ynghylch sut y gallai'r Cynulliad wella trosglwyddo iaith. Yn eu plith, awgrymwyd y dylid sefydlu Ardaloedd Datblygu Ieithyddol Arbennig a fyddai'n adlewyrchu gwahanol agweddau at yr iaith a'r gwahaniaeth yn statws yr iaith mewn siroedd megis Gwynedd a Sir Fynwy.

4.7 Cynigiwyd marchnata gwell fel ateb hefyd. Teimlai un corff y dylid lansio ymgyrch gyhoeddusrwydd genedlaethol i bwysleisio pwysigrwydd trosglwyddo iaith yn y cartref. Roedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Mentrau Iaith am i'r Cynulliad gynnal ymgyrch helaeth i farchnata dwyieithrwydd o fewn Cymru.

4.8 Clywyd galwadau hefyd am sefydlu Canolfan ar gyfer Cynllunio Ieithyddol a fyddai'n bartneriaeth rhwng y Cynulliad Cenedlaethol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, awdurdodau lleol a'r byd academaidd.

Cynllunio Defnyddio

4.9 Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad fod cynnydd cadarnhaol yn y defnydd cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol o'r iaith. Mae datblygiad y Mentrau Iaith, gwaith cymdeithas y dysgwyr Cymraeg, CYD, a gwaith nifer o sefydliadau lleol wedi darparu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn bywyd bob dydd. Mae gwaith yr Urdd a'r Clybiau Ffermwyr Ifanc hefyd wedi rhoi cyfle i bobl ifanc ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r dosbarth. Galwodd rhai, er hynny, am i'r Mentrau Iaith gael eu "cefnogi a'u cyllido'n well". Galwodd un sefydliad am ddatblygu cynllun i gyflogi symbylwyr iaith a fyddai'n cynnig arbenigedd ar gynllunio ieithyddol dwys o fewn cymunedau.

4.10 Nid oedd y darlun bob tro'n galonogol. Rhoddodd un awdurdod lleol fanylion am y diffyg cyfleoedd i fwyafrif llethol y disgyblion ddod i gysylltiad â'r Gymraeg y tu allan i oriau ysgol, er bod galw clir amdano ymysg siaradwyr Cymraeg. Nododd ymatebwyr eraill fod nifer o oedolion ifanc yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn 5-10 mlynedd i adael yr ysgol.

4.11 O ran defnydd offerynnol o'r iaith, cymysg oedd y darlun. Roedd nifer o gyrff o'r sector cyhoeddus megis awdurdodau lleol yn ymwybodol o fanteision dwyieithrwydd i'w staff ac roeddynt yn darparu cymhellion i'w staff i ddysgu'r iaith, ac yn neilltuo amser ar gyfer hynny. Roedd tystiolaeth hefyd bod cyflogwyr yn rhoi mwy o werth ar sgiliau dwyieithog, ffaith a nodwyd gan ELWa a oedd o'r farn mai un o'i dasgau pwysicaf oedd cynyddu'r galw o du myfyrwyr a hyfforddeion er mwyn cwrdd â'r angen.

4.12 Roedd llawer o'r rhai a ymatebodd yn teimlo y dylid gwneud mwy i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector preifat. Adlewyrchwyd y diffyg defnydd o'r iaith yn y sector preifat yng nghanlyniadau arolwg gan Ffederasiwn y Busnesau Bach ym 1999. Dim ond 8% o'r aelodau a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r iaith o ddydd i ddydd.

4.13 Roedd nifer o'r rhai a ymatebodd yn credu bod amcanion a gwaith Menter a Busnes yn haeddu cefnogaeth, yn wir nodwyd bod y corff yn chwarae rôl strategol allweddol wrth godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd economaidd sy'n gysylltiedig â defnyddio'r iaith.

Cynllunio Statws

4.14 Roedd mwyafrif yr ymatebion ar statws yr iaith yn ymwneud â'r angen i'r Gymraeg gael mwy o gydnabyddiaeth, swyddogaethau a chapasiti. Er ei bod yn ymddangos bod Deddf 1993 wedi codi statws yr iaith, galwodd nifer o'r ymatebwyr am i'r iaith Gymraeg gael statws "swyddogol" fel ag sydd gan y Fasgeg a'r Gatalaneg. Dywedodd Bwrdd yr Iaith ei hun mai'r peth pwysicaf y gallai'r Cynulliad ei wneud i godi statws yr iaith fyddai mabwysiadu strategaeth y Bwrdd, "Cenhadaeth a Gweledigaeth". Hefyd, gwelwyd y defnydd o'r Gymraeg o fewn y Cynulliad fel ffactor a fyddai'n codi ei statws ac yn cyfleu negeseuon cadarnhaol i'r rheini sy'n gwneud dewisiadau ynghylch defnyddio iaith.

4.15 Roedd tystiolaeth anecdotaidd hefyd bod statws yr iaith yn isel ymhlith pobl ifanc. Dywedodd disgyblion ysgolion uwchradd wrth sesiwn adolygu Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth nad oedd yr iaith yn cael ei hystyried yn 'cŵl' ymysg eu cyfoedion.

Ystyriaeth y Pwyllgor

4.16 Awgrymwyd y dylai cynllunio ieithyddol fod yn un o flaenoriaethau'r Pwyllgor, ac y dylid rhoi blaenoriaeth i drosglwyddo iaith o fewn teuluoedd a defnyddio'r iaith mewn cymunedau wrth ddyrannu

adnoddau. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â hynny. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cytuno mai'r prif amcanion y dylid canolbwyntio arnynt yw gwneud y Gymraeg yn iaith gymunedol fyw a chynyddu'r niferoedd sy'n gallu ei deall a'i siarad ac sy'n dewis ei defnyddio.

Argymhellion

- **Blaenoriaethau'r Pwyllgor gyda golwg ar gynllunio ieithyddol yw:**
 - cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg
 - cryfhau'r iaith o fewn cymunedau
 - cryfhau'r defnydd o'r iaith o fewn teuluoedd
- **Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo gwerth cynllunio ieithyddol cyfannol ac yn credu mai gweithredu cynllunio ieithyddol cyfannol yw un o'r prif ffactorau a fydd yn diogelu'r Gymraeg, a gwella'i rhagolygon.**
- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai trosglwyddo iaith o fewn teuluoedd, defnyddio'r iaith mewn cymunedau a sicrhau mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol fod yn feysydd blaenoriaeth ar gyfer mwy o adnoddau.**
- **Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymhell bod uned drawsbynciol arfaethedig y Cynulliad, ar y cyd â Bwrdd yr Iaith, yn llunio ymgyrch farchnata a fydd yn hybu ac yn pwysleisio manteision trosglwyddo iaith a defnyddio'r iaith.**
- **Mae angen gwell data ynghylch y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg a'r agweddau tuag ati, fel y gellir seilio polisiau arnynt.**

ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

Cyflwyniad

Yn Rhan II o'r adroddiad hwn crynhoir y dystiolaeth a ystyriwyd gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, ynghyd â'i argymhellion. Rhestrir isod chwech o argymhellion allweddol a nodwyd gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Argymhellion Allweddol

- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad ddarparu cyfarwyddyd newydd er mwyn sicrhau gwell cydlyniant rhwng y Cynlluniau Trefniadaeth Ysgolion, y Cynlluniau Strategol Addysg a'r Cynlluniau Addysg Gymraeg. Dylai'r cyfarwyddyd hwn ganolbwyntio ar gael gwell dealltwriaeth ynghylch atebolrwydd a chyfrifoldebau, a mwy o gydweithio rhwng ysgolion, AALlau, Bwrdd yr Iaith a Llywodraeth Cynulliad Cymru.**
- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad, ynghyd â'r awdurdodau addysg lleol a Bwrdd yr Iaith, baratoi fframwaith strategol cenedlaethol i sicrhau bod trefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer cydlynu'r gwaith o gynllunio, gwerthuso a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.**
- **Mae'r Pwyllgor yn cydnabod rôl hanfodol dysgu Cymraeg trwy drochi yn ystod y Blynnyddoedd Cynnar, ac yn argymhell bod y ddarpariaeth hon yn cael ei hehangu a bod rôl allweddol y Mudiad Ysgolion Meithrin yn cael ei chydabod.**
- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad gomisiynu ACCAC, Estyn a Bwrdd yr Iaith i sefydlu cyfres gytunedig o feini prawf er mwyn asesu'r parhad presennol. Dylid gwneud dadansoddiad manwl o'r rhesymau dros y diffyg parhad ymddangosiadol, a dylid cymryd y camau priodol.**
- **Dylid gwneud ymchwil drylwyr i ymarferoldeb mesur hyfedredd disgyblion mewn Cymraeg ar hyd continwmm ieithyddol.**
- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r fframwaith strategol cenedlaethol gynnwys ymrwymiad penodol i sicrhau bod hawl disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig i gael defnyddio'r ddarpariaeth sy'n diwallu eu hanghenion yn eu dewis iaith ar sail cydraddoldeb ledled Cymru yn cael ei chydabod ac y gweithredir arni.**

Mae'r Pwyllgor Diwylliant yn cymeradwyo'r argymhellion hyn. Mae hefyd yn argymhell y canlynol:

- **Dylai Uned Iaith Strategol arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad, ar y cyd â'r Fforwm Iaith arfaethedig, ganfod ffyrdd o hybu'r ddarpariaeth Addysgofal cyfrwng Cymraeg.**
- **Dylid cynorthwyo'r Mudiad Ysgolion Meithrin, mewn cydweithrediad â'r Mentrau Iaith, i ddatblygu prosiectau mewn cymunedau i roi cyfle i rieni ddysgu Cymraeg ar y cyd â'u plant.**
- **Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i gwrdd ag unrhyw alw ychwanegol am addysg cyfrwng Cymraeg, yn ogystal ag addysg nad yw drwy gyfrwng y Gymraeg, ar gyfer plant teirblwydd oed.**

DATBLYGU ECONOMAIDD A CHYMUNEDAU CYNALIADWY

Y Dystiolaeth

6.1 Mae'r Pwyllgor wedi derbyn llawer iawn o dystiolaeth ynghylch dylanwad datblygu economaidd ar yr iaith a chymunedau lleol, yn enwedig yn yr ardaloedd lle siaredir Cymraeg yn bennaf. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi derbyn bod perthynas uniongyrchol rhwng mewnfudo ac allfudo a chyflwr yr iaith; derbynnir hefyd mai materion economaidd yw un o'r prif ffactorau sy'n arwain at y newid demograffig hwnnw.

6.2 Cyflwynwyd dystiolaeth am y berthynas rhwng cyflwr yr iaith a datblygu economaidd a chymunedol gan drawsoriad eang o sefydliadau: llywodraeth leol, academyddion a grwpiau iaith yn ogystal â'r sector busnes a'r sector cymunedol. Cytunai pob un bod yr economi'n cael effaith sylweddol ar y Gymraeg ac, yn arbennig, ar y cymunedau gwledig a threfol hynny lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad fel iaith gymunedol.

6.3 Dywedwyd yn nifer o'r cyflwyniadau bod llawer o'r cymunedau Cymraeg eu hiaith yn ddifreintiedig o safbwynt economaidd a'u bod wedi eu lleoli mewn ardaloedd Amcan 1. Nid oedd unrhyw amheuaeth bod hyn yn peri i bobl ifanc yn bennaf droi eu cefnau arnynt. Un o'r rhai a dynnodd sylw at ddiffyg cyfleoedd i gael gwaith addas, neu unrhyw waith o gwbl, oedd y Pwyllgor Datblygu Economaidd. Teimlai'r Pwyllgor hwnnw hefyd fod yr iaith Gymraeg yn adnodd gwerthfawr ar gyfer datblygu economaidd. Awgrymodd fod yr iaith Gymraeg yn cynnig ystod eang o gyfleoedd uniongyrchol ac anuniongyrchol i fusnesau ac y gellid defnyddio'r Gymraeg i greu delwedd gadarnhaol a bywiog ar gyfer Cymru.

6.4 Teimlai rhai o'r cyfranwyr nad oedd y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol yn mynd i'r afael â'r prinder darpariaeth i helpu'r Gymraeg i barhau fel iaith gymunedol. Dywedwyd bod yr un feirniadaeth yn berthnasol i'r Dogfennau Rhaglennu Sengl ar arian Amcan 1. Ychydig iawn o gyfeiriadau oedd yn y naill na'r llall at yr iaith Gymraeg nac at ddarparu cyflogaeth neu hyfforddiant lle gellir defnyddio'r sgiliau hynny. Er mwyn cynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith, mae'n bwysig bod digon o swyddi ar gael o fewn pellter teithio dyddiol rhesymol i'r cymunedau hynny.

Datblygu Economaidd

6.5 Awgrymwyd y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol hyrwyddo cadarnleoedd y Gymraeg fel lleoedd atyniadol i bobl sefydlu a datblygu busnesau ynddynt. Dywedwyd y byddai angen gweithredu ar draws holl feysydd polisi'r Cynulliad er mwyn gwneud hynny, a bod angen herio'r agweddau presennol o bosibl.

6.6 Awgrymwyd hefyd y gall dwyieithrwydd fod yn fantais yn hytrach nag yn rhwystr i fasnach lwyddiannus. Dylai gwahanol haenau llywodraeth geisio cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a phwysleisio manteision cael gweithlu sy'n gallu darparu gwasanaethau yn y ddwy iaith.

6.7 Efen berthnasol iawn yn y cyd-destun hwn oedd datblygu **twristiaeth ddiwylliannol**. Dywed y Bwrdd Croeso mai hanfodion cynnyrch twristiaeth ddiwylliannol Cymru yw "Y celfyddydau perfformio, gweledol a llenyddol, amgueddfeydd, etifeddiaeth adeiledig a chymdeithasol, tirweddau a gerddi hanesyddol, crefftau, pensaernïaeth, dylunio, ffilm, crefydd, darlledu, bwyd a chwaraeon. Yn gynwysedig yn y rhain y mae'r iaith Gymraeg a'r Saesneg, ffurfiau o fynegiant diwylliannol sy'n draddodiadol, yn gyfoes ac yn datblygu'r proffesiynol ac amatur".

6.8 Mae'r Gymraeg a diwylliant dwyieithog Cymru yn ffactorau pwysig wrth geisio dangos bod Cymru yn ardal wahanol ac unigryw o fewn y Deyrnas Unedig. Yn ei dystiolaeth i'r adolygiad hwn tanlinellodd y Pwyllgor Datblygu Economaidd y ffaith fod y Gymraeg yn ffactor allweddol "y mae cyrff megis Bwrdd Croeso Cymru yn eu hintegreiddio i'w strategaethau marchnata er mwyn cryfhau'r ddelwedd y maent yn ceisio ei hyrwyddo".

6.9 Roedd tystiolaeth y Bwrdd Croeso i'r Pwyllgor yn cydnabod y ffaith hon, "dro ar ôl tro y mae'r Gymraeg wedi bod yn erfyn marchnata unigryw ar gyfer Cymru, erfyn sy'n arwain at agweddau diwylliannol a chymdeithasol eraill sy'n gwneud ein cynnyrch twristaidd yng Nghymru mor unigryw".

6.10 Cafodd rôl y Bwrdd Croeso o ran hyrwyddo Cymru fel cenedl ddwyieithog ei chanmol ar y cyfan yn ystod yr ymgynghoriad, er nad oedd rhai o'r bobl a ymatebodd yn teimlo bod digon yn cael ei wneud yn hyn o beth. Canmolodd un o'r rhai a ymatebodd ddogfen "Cyflawni Ein Potensial" y Bwrdd Croeso fel dogfen "yn frith o gyfeiriadau adeiladol at arwyddocâd yr iaith, diwylliant, hunaniaeth a'r ddelwedd genedlaethol i lwyddiant twristiaeth Cymru" a dywedodd fod y ddogfen "yn cynnig cyfle a sylfaen i weithredu amrywiaeth o brosiectau sy'n defnyddio'r diwylliant Cymraeg mewn modd creadigol a diffuant".

6.11 Ar ddechrau'r adolygiad, clywodd y Pwyllgor am effeithiau negyddol posibl y diwydiant ymwelwyr ar y Gymraeg. Canfu adroddiad fod "y diwydiant croeso a'i sgil-effeithiau wedi cyfrannu at enciliad yr iaith ac yn parhau i fygwth ei pharhad fel iaith gymunedol hyfyw [a bod] cryn anfodlonrwydd yn bodoli o hyd o fewn ein cymunedau derbyn fod y diwydiant croeso yng Nghymru mor Seisnig ei naws a'i iaith". Gwelid datblygu twristiaeth ddiwylliannol gyda neges glir bod Cymru'n wlad ddwyieithog fel ffordd o oresgyn y bygythiad hwn. Cafwyd tystiolaeth y ceir prinder siaradwyr Cymraeg yn y diwydiant ymwelwyr yng Nghymru ac, o ganlyniad, ychydig iawn o fusnesau sy'n defnyddio'r diwylliant brodorol yn greadigol.

6.12 Yr oedd un darn pwysig o dystiolaeth yn galw am "'newid-naid' yn ein hymdrechion i Gymreigio twristiaeth os yw i gael unrhyw ganlyniadau cadarnhaol". Un o'r camau a gynigiwyd er mwyn gwella'r sefyllfa oedd y dylid rhoi lle mwy canolog a ffocws penodol i dwristiaeth ddiwylliannol yng ngweithgareddau'r Bwrdd Croeso, efallai trwy sefydlu uned benodol y tu allan i Gaerdydd mewn ardal lle siaredir Cymraeg yn bennaf. Teimlid y gallai'r Cynlluniau Datblygu Unedol helpu i sicrhau sylfaen economaidd a allai gynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith trwy:

- amcangyfrif faint o dir diwydiannol fyddai ei angen yn ystod cyfnod y cynllun yna dosbarthu'r cyflenwad hwn yn unol â fframwaith Datblygu Strategol y Cynllun Datblygu Unedol a nodi safleoedd priodol;
- llunio polisiâu a fyddai'n hybu creu economi gynaliadwy ond a fyddai hefyd yn gwarchod buddiannau amgylcheddol a chymdeithasol;
- Datblygu amcanion swyddi lleol o fewn strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru gyfan.

6.13 Cynigiwyd y dylid creu corff gyda phwerau statudol er mwyn hybu'r economi, addysg a hyfforddiant, datblygu cymunedol a'r iaith. Awgrymwyd y dylai corff o'r fath ddefnyddio arbenigedd Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa, y Bwrdd Croeso, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Menter a Busnes ac Antur Teifi.

6.14 Nid oedd y Pwyllgor Datblygu Economaidd, fodd bynnag, yn teimlo bod angen cyrff newydd i oruchwylio na hybu'r gwaith o ystyried y Gymraeg ym maes datblygu economaidd. Teimlai'r Pwyllgor

y gallai'r cyrff sy'n bodoli'n barod, fel yr Awdurdod Datblygu a'r Bwrdd Croeso, addasu eu polisiau i gwrdd ag unrhyw ofynion lleol.

6.15 Cynigiodd eraill y dylid cael mecanwaith a fyddai'n dod â'r Mentrau Iaith, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yr Awdurdod Datblygu a'r Bwrdd Croeso at ei gilydd, er mwyn darparu'r ffocws ychwanegol ar gyfer datblygu economaidd ym maes yr iaith Gymraeg. Byddai'n cefnogi menter ac yn cynorthwyo i hyfforddi pobl sydd am sefydlu Busnesau Bach a Chanolig ac yn sicrhau bod mentrau llwyddiannus, a fyddai wedi eu cefnogi gan gynllunio ieithyddol, yn cael eu prif-ffrydio yn y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol. Credai'r Pwyllgor hefyd y dylai'r strategaethau a ddatblygwyd gan Menter a Busnes ei hun a sefydliadau tebyg eraill fwydo i mewn i waith cynllunio economaidd yr asiantaethau arweiniol hynny yn y dyfodol.

Cymunedau Cynaliadwy

6.16 Yn ystod y drafodaeth, credai'r Pwyllgor fod datblygu cymunedau cynaliadwy yn un o'r prif flaenoriaethau. Nid oedd hyn wedi ei gyfyngu i'r cadarnleoedd neu'r ardaloedd Cymraeg eu hiaith, er y byddai'n sicr o effeithio ar yr iaith yn yr ardaloedd hynny.

6.17 Teimlai'r Pwyllgor fod gwaith y Mentrau Iaith o greu rhwydweithiau o fewn cymunedau wedi bod yn drefniant effeithiol, ynghyd â swyddogaeth Menter a Busnes o hybu busnesau cynhenid a chynorthwyo i'w sefydlu. Dylai'r ddau gorff ysgwyddo cyfrifoldeb newydd o ddatblygu modelau effeithiol o fewn cymunedau a chydweithio â'i gilydd ac â phartneriaid eraill megis awdurdodau lleol er mwyn creu gweithgarwch economaidd. Cytunai'r Pwyllgor fod cefnogi a galluogi cymunedau i helpu eu hunain yn rhan bwysig iawn o'r broses a fyddai'n caniatáu i'r iaith Gymraeg ffynnu.

6.18 Teimlai rhai sefydliadau y dylid symud y Cynulliad a'r Cyrff Cyhoeddus perthnasol a Noddir gan y Cynulliad o Gaerdydd i gadarnleoedd yr iaith Gymraeg. Dylai hyn roi mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ddilyn gyrfaedd proffesiynol ac atyniadol. Cynigiwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, y Bwrdd Croeso, Cyngor Celfyddydau Cymru, S4C, rhai o Adrannau'r Cynulliad a sefydliadau addysgol fel cyrff posibl.

6.19 Gofynnodd y Pwyllgor i S4C gyflwyno mwy o dystiolaeth ynghylch ymarferoldeb adleoli. Ar ôl ystyried yn ofalus, roedd S4C o'r farn na fyddai'r manteision yn cyfiawnhau cost adleoli. Dylai mater datganoli swyddfeydd y Cynulliad Cenedlaethol, a'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, fod yn rhan o agenda'r Cynulliad Cenedlaethol a dylai Gweinidogion roi blaenoriaeth i'r mater hwn pryd bynnag yr ystyrir creu strwythurau llywodraethol newydd.

6.20 Cyfeiriodd nifer o sefydliadau at gyflwr gwael **seilwaith trafndiaeth** Cymru. Awgrymodd un ei fod yn annerbyniol a'i fod yn un o'r prif resymau pam na ellir denu cyflogwyr mawr i'r Gymru wledig.

6.21 Awgrymodd Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain mai byd busnes all wneud y cyfraniad mwyaf i barhad a datblygiad yr iaith a hynny trwy ddarparu gwaith mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Er hynny, roedd y Cyd-ffederasiwn yn teimlo bod Cymru yn farchnad rhy fach i ganiatáu datblygiad busnesau lleol yn unig.

6.22 Ond awgrymwyd na all busnes greu mwy o swyddi oni bai fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn creu'r amgylchedd busnes cywir trwy:-

- rhoi sylw i ddiffygion mewn polisiau cludiant a chynllunio
- cymell pobl i ddefnyddio'r iaith yn hytrach na chosbi pobl nad ydynt yn ei defnyddio.

- sefydlu Cronfa Gymunedol ar gyfer cymunedau gwledig er mwyn sefydlu cwmnïau cydweithredol i ddiogelu gwasanaethau lleol fel siopau pentref, tafarnau, swyddfeydd post a gorsafoedd petrol. Awgrymwyd creu Banc Datblygu Cymunedol ar gyfer busnesau cynhenid hefyd.

6.23 Teimlid y dylai'r iaith Gymraeg gael ei hystyried yn sgil ym myd busnes fel ag ym myd addysg h.y. mae athrawon yn derbyn lwfans neu grant i ddysgu pwnc fel y Gymraeg lle mae prinder athrawon. Byddai cefnogi cyflogwyr fel hyn yn codi statws yr iaith ac yn annog pobl i'w defnyddio.

6.24 Awgrymodd Ffederasiwn y Busnesau Bach mai un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o hybu'r economi leol fyddai cynyddu'r pwyslais a roddir ar fusnesau bach, y cyfleoedd a gynigir iddynt, a'u pwysigrwydd. Byddai hynny'n galw am bolisïau penodol gan y Cynulliad o ran cyngor, cymorth ac arian. Byddai hefyd yn galw am newid chwyldroadol mewn agwedd tuag at addysg, hyfforddiant, gweithgareddau trafod ac entrepreneuriaeth. Roeddent yn teimlo bod hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith lle cafwyd, yn draddodiadol, tueddiad i ddilyn gyrfa yn y sector cyhoeddus, a gorbwyslais ar hynny.

6.25 Teimlai'r Pwyllgor Datblygu Economaidd fod yr iaith yn rhan bwysig o'r sector diwylliannol sydd, yn ei farn ef, yn bwysig iawn i ddatblygiad economi Cymru. Fe'i gwelent fel cyfrwng gwerthfawr i ddiogelu a datblygu cymunedau gwledig.

6.26 Yn olaf, mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal a'r Pwyllgor hwn yn derbyn y dylid gosod yr iaith yng nghyd-destun cyfle cyfartal. Cytunai'r Pwyllgor hwn hefyd y dylai gwasanaeth cyhoeddus fod ar gael ym mha bynnag iaith y mae pobl yn dymuno ei gael. Credai'r Pwyllgor fod hyn yn bwysig iawn i'r henoed, pobl sâl a phlant ifanc a allai ei chael yn anodd neu'n amhosibl defnyddio'u hail iaith.

Argymhellion

- **Cred y Pwyllgor fod datblygu cymunedau cynaliadwy yn un o'r prif flaenoriaethau. Nid ddylai hyn gael ei gyfyngu i'r cadarnleoedd neu'r ardaloedd Cymraeg eu hiaith, er y byddai'n sicr o effeithio ar yr iaith yn yr ardaloedd hynny.**
- **Er mwyn cynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith, mae'n bwysig bod digon o gyfleoedd ar gyfer swyddi ar gael o fewn pellter teithio dyddiol rhesymol i'r cymunedau hynny.**
- **Dylid cryfhau swyddogaethau Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru mewn perthynas â chefnogi'r iaith Gymraeg trwy weithgaredd economaidd. I'r perwyl hwn, gofynnir i'r asiantaethau ystyried sut y gellid gwneud hyn o fewn y strwythurau presennol, a chan gydwethio gyda sefydliadau eraill sy'n gweithio ar lefel leol.**
- **Dylid newid llythyrau cylch gorchwyl Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru er mwyn cynnwys cefnogaeth i'r iaith Gymraeg.**
- **Dylai'r strategaethau llwyddiannus a ddatblygwyd gan Menter a Busnes a sefydliadau lleol eraill fwydo i mewn i waith cynllunio economaidd yr asiantaethau arweiniol yn y dyfodol.**
- **Dylid gofyn i adrannau'r Llywodraeth, y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a chyrrff nad ydynt yn atebol i'r Cynulliad, megis S4C a'r BBC, ystyried datganoli i'r rhanbarthau wrth wneud eu penderfyniadau rheolaethol a strategol.**

- Mae diffygion yn y seilwaith trafnidiaeth yn effeithio ar sawl ardal yng Nghymru, nid yr ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn unig. Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru fynd ati i unioni'r broblem hon trwy Gymru gyfan gan gydnabod ei bod o arwyddocâd arbennig i gymunedau gwledig gan gynnwys cadarnleoedd y Gymraeg.
- Mae'r Pwyllgor yn cefnogi sefydlu cronfa gymunedol i helpu busnesau cymunedol fel siopau pentref, tafarnau a swyddfeydd post. Dylai'r gronfa fod ar gael i bawb ond byddai o fudd arbennig i ardaloedd gwledig. Dylai'r Awdurdod Datblygu ac ELWa edrych ar ymarferoldeb sefydlu cronfa o'r fath.
- Dylai'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir ar gyfer yr henoed, pobl sâl a phlant ifanc, a'r gwasanaethau preifat a gomisiynir gan y sector cyhoeddus ar eu cyfer, fod ar gael i bobl yn eu dewis iaith.
- Credai'r Pwyllgor y dylid ategu pwysigrwydd dwyieithrwydd i'r diwydiant ymwelwyr ac y dylai Bwrdd Croeso Cymru annog mwy o siaradwyr Cymraeg i sefydlu busnesau twristiaeth, ac annog busnesau twristiaeth ym mhob rhan o Gymru i wneud mwy o ddefnydd o ddiwylliant brodorol eu bröydd.

POLISIÂU TAI A CHYNLLUNIO

Y Dystiolaeth

7.1 Dangosodd ymchwil gan Brifysgol Cymru, Aberystwyth fod 279 o gymunedau ledled Cymru (allan o gyfanswm o 993) wedi cofnodi yn 1961 bod o leiaf 80% o'u trigolion yn gallu siarad Cymraeg; ardal a oedd yn gorchuddio dros 37% o arwynebedd Cymru. Erbyn 1991, dim ond 32 o'r cymunedau hynny oedd ar ôl. Mae'r ganran hon o 80% yn bwysig iawn o ran y rhagolygon ar gyfer dyfodol yr iaith Gymraeg gan mai dyma'r lefel sydd ei angen ar unrhyw iaith er mwyn dal ei thir fel iaith gymunedol fyw. Mae'r academyddion hefyd wedi cyfeirio at y ffaith bod hyn yn rhan o batrwm rhyngwladol o symud a lleihad mewn poblogaeth.

7.2 Er bod nifer o ffactorau wedi cyfrannu at y lleihad yn y nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg, dadleuwyd mai dau o'r ffactorau mwyaf dylanwadol sydd wedi prysuro'r lleihad hwn, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, yw pobl ddi-Gymraeg yn symud i mewn i ardaloedd a phobl leol yn symud oddi yno gan nad oes gwaith ar gael a chan fod prisiau tai allan o'u cyrraedd.

7.3 O ystyried y gyfraith Ewropeaidd ar hawl pobl, nwyddau a chyfalaf i symud yn ddirwystr, nid oedd y Pwyllgor yn teimlo bod ceisio cyfyngu ar hawliau pobl i symud i Gymru neu o fewn Cymru yn ddewis ymarferol (hyd yn oed pe bai'n ddymunol). Credai'r Pwyllgor, fodd bynnag, y dylid canolbwyntio ar y ffactorau sy'n arwain at allfudo. Cytunai mai'r prif feysydd yr oedd angen edrych arnynt oedd polisiau tai a chynllunio yng nghyd-destun cymunedau cynaliadwy.

Ystyriaeth y Pwyllgor

Tai

7.4 Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi cynorthwyo'r Pwyllgor i ystyried y materion hyn. Dywedodd y Pwyllgor hwnnw fod y Cynulliad wedi dangos ymrwymiad cyson i sicrhau bod pobl leol yn cael y cyfle i aros yn eu cymunedau eu hunain. Teimlent, fodd bynnag, na fyddai'n dderbyniol nac yn ymarferol gosod cyfyngiadau er mwyn mynd i'r afael â phroblemau tai yn y Gymru wledig.

7.5 Er hynny, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod darpariaeth yn bodoli'n barod er mwyn rhoi blaenoriaeth i bobl leol (beth bynnag fo'u hiaith) wrth ddyrannu tai ar rent; ac ar gyfer cyfyngu ar bwy all brynu tai mewn rhai ardaloedd (gan gynnwys Ardal y Llynnoedd).

7.6 Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai pobl gael yr hawl i fyw yn eu cymunedau eu hunain, beth bynnag eu hiaith; a bod hawl o'r fath yr un mor berthnasol mewn cymunedau Saesneg eu hiaith. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi ymdrechion awdurdodau lleol a llywodraeth ganolog i barchu'r hawliau hynny, a gweithredu ar eu sail. Mae hefyd yn cydnabod bod galluogi Cymry Cymraeg i gael tai yn eu cymunedau Cymraeg eu hunain yn bwysig er mwyn sicrhau dyfodol yr iaith.

7.7 Camau penodol eraill a drafodwyd gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a chan y Pwyllgor hwn oedd sut y gallai'r Grant Tai Cymdeithasol (GTC) a'r Cynlluniau Cymorth Prynu Cartrefi helpu pobl i brynu eu cartrefi eu hunain. Camau eraill a drafodwyd oedd yr angen i gael caniatâd cynllunio cyn newid anheddau parhaol yn dai haf a chyflwyno 'Pecynnau Croeso' i bobl sy'n symud i gadarnleoedd y Gymraeg.

Cynllunio

7.8 Yn ystod yr adolygiad, clywyd llawer o alw am gryfhau Nodyn Cyngor Technegol 20, sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae 'Polisi Cynllunio Cymru', a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn nodi egwyddor glir a ategir gan Nodyn Cyngor Technegol 20 sef bod yn rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru ystyried yr iaith Gymraeg a'r bygythiad i gymunedau lle siaredir Cymraeg yn bennaf wrth ystyried datblygiadau a cheisiadau cynllunio. Croesawodd y Pwyllgor y datblygiad hwn ac ymrwymiad y Gweinidog dros yr Amgylchedd i adolygu pa mor effeithiol yw'r polisiau hyn yn 2003. Byddai'r Pwyllgor ei hun yn cadw'r mater hwn o dan ystyriaeth hefyd.

7.9 Wrth gyflwyno ei argymhellion mae'r Pwyllgor hwn yn cydnabod mai cyfrifoldeb Gweinidogion a Phwyllgorau eraill yw edrych ar sut y gellir gweithredu'r argymhellion hyn yn ymarferol.

Argymhellion

- **Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn haws cael mynediad i'r farchnad dai a'r farchnad waith er mwyn sicrhau bod cymunedau yn gynaliadwy, yn enwedig yng nghadarnleoedd y Gymraeg.**
- **Dylid gofyn i'r Gweinidog ganfod ffyrdd o gryfhau'r Cynllun Cymorth Prynu Cartrefi, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Ymhlith pethau eraill, dylid ystyried codi cryn dipyn ar y terfyn ar gyfer pris tai y mae'r cynllun hwn yn berthnasol iddynt a rhyddhau mwy o arian ar gyfer y cynllun.**
- **Er bod y Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod data ystadegol yn cael ei gasglu ynghylch y stoc dai, dymuna bwysleisio bod data o'r fath yn arbennig o angenrheidiol mewn ardaloedd lle teimlir bod prinder tai rhesymol eu pris.**
- **Bod y Pwyllgor yn cefnogi cyflwyno 'Pecynnau Croeso' i bobl sy'n ystyried symud i Gymru, ond ei fod yn gofyn bod Bwrdd yr Iaith yn archwilio pecynnau o'r fath yn drylwyr cyn iddynt gael eu dosbarthu'n eang gan amrywiaeth o gyrff gan gynnwys awdurdodau lleol, cyfreithwyr ac ysgolion. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru geisio sefydlu cytundeb gyda chymdeithasau sy'n cynrychioli Gwerthwyr Tai er mwyn hwyluso'r gwaith o ddosbarthu pecynnau o'r fath.**
- **Dylid annog Awdurdodau Lleol i ddefnyddio'r holl bwerau sydd ar gael iddynt, gan gynnwys pwerau tai a chynllunio, er mwyn galluogi pobl lleol i gael cartrefi, trwy brynu neu rentu, yn eu cymunedau eu hunain; ond ni ddylid gwahaniaethu ar sail iaith wrth ymarfer y pwerau hyn.**
- **Er mwyn helpu awdurdodau lleol i ymgymryd â chyfrifoldebau o'r fath, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r term "angen lleol" er mwyn ei ddefnyddio yng nghynlluniau datblygu unedol awdurdodau lleol.**
- **Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r egwyddor sydd yn 'Polisi Cynllunio Cymru' bod yn rhaid ystyried yr iaith Gymraeg, a'r bygythiad i gymunedau lle siaredir Cymraeg yn bennaf, wrth ystyried datblygiadau a cheisiadau cynllunio. Mae'r Pwyllgor yn credu bod hwn yn gam cadarnhaol ymlaen o ran diogelu 'cadarnleoedd' y Gymraeg. Mae'n croesawu'r ymrwymiad**

a wnaed gan y Gweinidog dros Drafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd i adolygu effeithiolrwydd y polisi o fewn y flwyddyn nesaf. Mae hefyd yn credu y dylai ystyriaethau sy'n ymwneud â'r iaith fod yn ffactor pwysig wrth lunio Cynlluniau Datblygu Unedol.

- Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai fod yn ofynnol cael caniatâd cynllunio cyn newid annedd barhaol yn dŷ haf mewn ardaloedd lle mae nifer y tai haf yn fwy na chyfran penodol o'r stoc dai bresennol. Dylai'r Gweinidog dros yr Amgylchedd ystyried yr argymhelliad hwn ochr yn ochr â mesurau eraill i sicrhau y ceir stoc ddigonol o dai ar gyfer pobl o fewn eu cymunedau.

CYFIEITHU

Y Dystiolaeth

8.1 Un o amcanion gwreiddiol yr adolygiad oedd 'normaleiddio' yr iaith: ei gwneud yn hawdd defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae hyn yn sicr wedi digwydd yn y Cynulliad ei hun, a hynny i raddau helaeth o ganlyniad i'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd sydd ar gael. Dadleuodd rhai, fodd bynnag, fod angen llai o gyfieithu a mwy o weinyddiaeth ddwyieithog naturiol ac y dylid rhoi mwy o anogaeth i ddwyieithrwydd er mwyn galluogi pobl sy'n siarad Cymraeg i siarad yr iaith yn y gweithle.

8.2 Yn ystod yr adolygiad cafwyd trafodaeth ar wasanaethau cyfieithu o fewn y Cynulliad ac oddi allan iddo. Galwodd nifer am flaenoriaethu a thargedu adnoddau cyfieithu prin yn well. Teimlai eraill y byddai unrhyw wyriad oddi wrth yr egwyddor o ddwyieithrwydd lwyr yn rhoi'r esgus i sefydliadau bod cynhyrchu fersiynau Cymraeg o ddogfennau yn rhy ddrud. Fel rhan o'r darlun ehangach, galwyd am ddatblygu strategaeth gyfieithu ar gyfer Cymru gyfan a mynegwyd cryn bryder ynghylch y diffyg rheolaeth neu reoleiddio yn y diwydiant cyfieithu a'r ffaith nad oedd rhaglen hyfforddi benodol ar gyfer cyfieithwyr. Dywedwyd wrth y Pwyllgor hefyd bod y diwydiant cyfieithu wedi tyfu'n aruthrol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond ei fod yn dal i fethu â chwrdd â'r galw. Teimlid bod hwn yn gyfle economaidd sylweddol nad oeddem yn manteisio arno yng Nghymru. Awgrymwyd mai un ffordd o fynd i'r afael â'r angen am fwy o gyfieithwyr yn y dyfodol fyddai cynnwys cyfieithu yn y cwricwlwm.

Ystyriaeth y Pwyllgor

8.3 Cododd yr Aelodau fater yr oedi cyn derbyn fersiynau Cymraeg o bapurau Pwyllgorau, a gofynnwyd a oedd y system yn gwastraffu adnoddau trwy gyfieithu dogfennau nad oedd neb yn eu darllen, ac a oedd yn casglu llwch. Arweiniodd hyn at drafodaeth ynghylch a ddylid cyfieithu pob dogfen neu a ddylid datblygu rhyw fath o drefn flaenoriaethu. Y farn gyffredinol oedd y dylid blaenoriaethu. Dylid sefydlu'r rhagdybiaeth na fyddai pob dogfen yn cael ei chyfieithu ac awgrymodd rhai Aelodau y dylid rhoi blaenoriaeth yn gyntaf i bapurau yr oedd angen seilio penderfyniadau arnynt, ac yna i bapurau cefndir. Yr oedd amheuaeth ymhlith yr Aelodau a oedd cyfieithu pob dogfen yn ffordd effeithiol o hybu dwyieithrwydd; gallai fod yn fwy buddiol neilltuo'r adnoddau ar gyfer mwy o gyfieithu ar y pryd, neu ffyrdd eraill o gefnogi'r iaith.

8.4 Manteisiodd yr Aelodau ar y cyfle i gydnabod y gwaith rhagorol a wneid gan Wasanaeth Cyfieithu'r Cynulliad a safon uchel y cyfieithu ar y pryd.

8.5 Yr oedd safon y Gymraeg yn rhai o ddogfennau'r Cynulliad yn bwnc pwysig arall a oedd yn peri pryder i'r Aelodau. Dywedodd swyddogion Gwasanaeth Cyfieithu'r Cynulliad eu bod yn ceisio sicrhau'r safonau uchaf posibl a'u bod hefyd yn ceisio sicrhau bod pob dogfen yn cael ei golygu cyn ei chyhoeddi. Roedd teimlad cryf bod angen trefniadau cadarnach ar gyfer rheoleiddio'r diwydiant cyfieithu.

8.6 Roedd Bwrdd yr Iaith, ar y cyd â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru, wrthi'n llunio strategaeth gyfieithu ac, ar gais y Pwyllgor, cytunodd i lunio prosiect wedi ei gostio a fyddai'n cynnwys ffyrdd o ddatblygu'r Gymdeithas iddi allu gweithredu fel rheoleiddiwr ar ran y Bwrdd. Awgrymwyd y dylid cyhoeddi cyfeirlyfr blynyddol a fyddai'n rhestru cyfieithwyr achrededig ac yn nodi meysydd cyfieithu arbenigol.

8.7 Trafododd yr Aelodau hefyd y prinder cyrsiau hyfforddi addas ar gyfer cyfieithwyr proffesiynol. Teimlent y dylai cyrsiau hyfforddi cenedlaethol fod ar gael ledled Gymru. Awgrymwyd y dylid codi hyn

yn y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ac y dylid annog ELWa i ddechrau trafodaethau gyda Phrifysgol Cymru ynghylch datblygu cyrsiau, a hynny trwy greu uned arbenigol o bosibl.

8.8 Hefyd, trafododd yr aelodau yr angen i safoni'r termau a ddefnyddir gan gyfieithwyr (ac eraill) a'r angen hefyd i ddatblygu Cymraeg clir sy'n ddealladwy i bawb. Awgrymwyd y gallai Bwrdd yr Iaith a Chanolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Cymru, Bangor, ystyried y mater hwn ymhellach ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Argymhellion

O Fewn y Cynulliad

- **Y nod yw cyhoeddi dogfennau Cymraeg a Saesneg yr un pryd, ac eithrio dogfennau technegol cymhleth. Fodd bynnag, dylid rhoi blaenoriaeth i ofynion cyfieithu, gyda dogfennau y mae angen seilio penderfyniadau arnynt yn cael blaenoriaeth dros bapurau cefndir.**
- **Prif flaenoriaeth y Pwyllgor yn y maes hwn yw annog mwy o weinyddiaeth ddwyieithog o ddydd i ddydd gan symud oddi wrth ddibyniaeth ar gyfieithu. I'r perwyl hwn, mae'n gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru hybu gweithio'n ddwyieithog o ddydd i ddydd a rhannu arferion da gyda chyrrff cyhoeddus eraill.**

Oddi Allan i'r Cynulliad

- **Dylai Bwrdd yr Iaith, ar y cyd â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru, ddatblygu strategaeth gyfieithu genedlaethol. Dylai'r strategaeth ymdrin â materion megis safonau a rheoleiddio, hyfforddiant a chymwysterau, llwybrau gyrfaol a datblygiadau mewn Technoleg Gwybodaeth, a chwilio am ffyrdd o gynyddu nifer y cyfieithwyr.**
- **Yn ogystal â mwy o reoleiddio, dylai fod yn ofynnol i bob cyfieithydd ennill cymhwyster proffesiynol a bod yn aelod o gorff proffesiynol.**
- **Dylid cynhyrchu cyfeirlyfr blynyddol yn rhestru cyfieithwyr achrededig.**
- **Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r trafodaethau rhwng Prifysgol Cymru ac ELWa ynghylch datblygu cwrs hyfforddi cenedlaethol ar gyfer cyfieithwyr proffesiynol, ac yn edrych ymlaen i weld ffrwyth y trafodaethau hynny.**

DEDDFWRIAETH

Y Dystiolaeth

9.1 Yn gynnar yn yr adolygiad, gofynnodd y Pwyllgor am farn Cwnsler Cyffredinol Cymru ynghylch:

- Beth y gellid ei gyflawni ar gyfer yr iaith Gymraeg trwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998
- Beth oedd perthynas Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 â Deddf Llywodraeth Cymru 1998
- A allai'r Cynulliad, yn ei farn ef, greu Cymru ddwyieithog heb fwy o ddeddfwriaeth sylfaenol.

9.2 Teimlai'r Cwnsler Cyffredinol mai'r man cychwyn ar gyfer ateb y cwestiynau hyn, gyda golwg ar ddeddfwriaeth, oedd geiriau agoriadol Deddf 1993 sy'n nodi "wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru... dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal". Roedd effaith y geiriau hyn yn bellgyrhaeddol ac, ynghyd ag Adrannau 32, 33, 47 a 102 o Ddeddf 1998, roeddent yn ffurfio casgliad o bwerau eang iawn.

9.3 Cytunai'r Cwnsler Cyffredinol â chynnig Bwrdd yr Iaith fod cwmpas Adran 32 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn eang iawn, ond fe wnaeth atgoffa'r Pwyllgor nad oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru unrhyw bwerau i lunio deddfwriaeth sylfaenol a bod y pwerau hynny sydd ganddo i wneud is-ddeddfwriaethau wedi eu cyfyngu gan y Gorchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau. Er hyn, teimlai'r Cwnsler Cyffredinol fod Deddf 1993 a Deddfau eraill yn "gyfryngau ar gyfer newid ac o'u defnyddio'n briodol yn y sector cyhoeddus ... y gallent helpu i greu cymdeithas ddwyieithog..."

9.4 I gloi, nid oedd y Cwnsler Cyffredinol yn teimlo bod angen brys am Ddeddf Iaith newydd ar hyn o bryd, ond cyn cynnig barn fwy pendant, dylid rhoi prawf ar bosibiliadau'r ddeddfwriaeth bresennol.

9.5 Yn ystod yr ymgynghoriad, cydnabuwyd dylanwad cadarnhaol Deddf 1993 ac awgrymwyd ei bod, drwy gyfreithloni defnyddio'r Gymraeg ar draws y sector cyhoeddus yn arbennig, wedi codi statws a phroffil yr iaith. Teimlai lleiafrif o sefydliadau, fodd bynnag, fod angen Deddf Iaith newydd, a hynny am resymau amrywiol:

- datgan mai'r Gymraeg yw iaith genedlaethol/frodorol Cymru
- sicrhau bod y Gymraeg yn goroesi fel iaith gymunedol fyw
- gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru (h.y. yn gydradd â'r Saesneg)
- ymestyn y ddarpariaeth i'r sector preifat (ac yn arbennig y corfforaethau cyhoeddus a breifateiddiwyd) a'r sector gwirfoddol
- rhoi lle i'r iaith yn y chwyldro technolegol
- peri bod modd dewis rheithwyr sy'n deall Cymraeg
- rhoi'r hawl i bobl siarad Cymraeg yn y gweithle
- cydnabod amrywiaethau rhanbarthol.

9.6 Ochr yn ochr â'r galw am ddeddfwriaeth newydd, galwodd llawer o'r ymatebwyr am i'r Gymraeg gael ei chynabod fel iaith swyddogol fel y mae Basgeg a Chatalaneg yn cael eu cydnabod yn eu gwledydd hwy. Dadleuodd yr ymatebwyr y byddai rhoi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yn gam symbolaidd a fyddai'n dangos y gwerth a roddir ar yr iaith yng Nghymru. Fodd bynnag, derbyniodd y Pwyllgor gyngor cyfreithiol a oedd yn awgrymu bod gan y Gymraeg statws 'swyddogol' ar hyn o bryd, mewn gwirionedd, yn rhinwedd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, gan fod y Gymraeg a'r

Saesneg i fod i gael eu hystyried yn gyfartal wrth drin materion cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

9.7 Nid oedd pawb o'r un farn. Dywedodd un cyfrannwr na fyddai rhagor o ddeddfau yn golygu o reidrwydd y byddai mwy o bobl yn gallu siarad Cymraeg, ac y gallai arwain at rwyg yn y gymdeithas yng Nghymru. Teimlai'r sector busnes hefyd y byddai unrhyw ymdrech i'w orfodi i ddefnyddio'r iaith yn wrthgynhyrchiol. Credai ei bod yn bwysicach datblygu consensws ac ewyllys da, ymhlith busnesau bach yn arbennig, ac yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith leiafrifol. Dywedodd y Pwyllgor Datblygu Economaidd y byddai angen ymgynghori â'r sector preifat eto pe rhoddid ystyriaeth i'r syniad o roi rhwymedigaethau statudol arno.

Ystyriaeth y Pwyllgor

9.8 Arweiniodd pwnc deddfwriaeth newydd at rai o ddadleuon mwyaf llosg y Pwyllgor gydag Aelodau'n mynegi safbwyntiau amrywiol ynghylch y ffordd ymlaen ac ynghylch y math o bethau y gallai deddfwriaeth newydd bosibl ymwneud â hwy. Trafododd y Pwyllgor yn fwyaf arbennig a fyddai'n bosibl, o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, i gyrff eraill ddod yn rhan o gwmpas y Ddeddf honno. Dywedodd Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol wrth y Pwyllgor fod rhai o'r sefydliadau a oedd wedi eu henwi yn y Ddeddf yn dal heb baratoi cynlluniau ac nad oedd y Bwrdd ychwaith wedi gofyn iddynt wneud hynny, ond bod rhai ohonynt wedi paratoi cynlluniau iaith gwirfoddol yn barod. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor hefyd y byddai'n gofyn am farn gyfreithiol ynghylch y posibilrwydd o ymestyn Adran 6 o Ddeddf 1993 i gynnwys cyfleustodau a Chymdeithasau Tai.

Argymhellion

- **Dylid gwneud defnydd mor llawn ag y mae'r pwerau'n ei ganiatáu o Ddeddf 1993, fel bod y pwerau hynny'n cael eu defnyddio i'r eithaf cyn gofyn am unrhyw ddeddfwriaeth newydd gynhwysfawr.**
- **Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymhell, gyda golwg ar ddeddfwriaeth newydd bosibl, y dylai Comisiwn Richard edrych ar y posibilrwydd o roi pwerau galluogi i'r Cynulliad a fyddai'n caniatáu iddo ddiwygio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 drwy orchymyn.**

RHAN II

Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

CYFLWYNIAD

10.1 Mae'r Pwyllgor yn falch ei fod wedi cael cyfle i fod yn rhan o'r adolygiad polisi hwn. Dechreuodd y Pwyllgor dderbyn tystiolaeth yn Ionawr 2002 a chwblhaodd ei drafodaethau ym mis Mehefin 2002.

Yn y prif gyflwyniad i'r adroddiad hwn, cyfeirir at y penderfyniad a wnaethpwyd yn y cyfarfod llawn ar 4 Gorffennaf 2000. Roedd hwn yn cynnwys cymeradwyaeth i'r penderfyniad isod a wnaethpwyd gan y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 ar 16 Chwefror y flwyddyn honno:

"Mae'r Pwyllgor yn croesawu dogfen Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 'Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gweledigaeth 2000–05' fel cyfraniad pwysig i'r dasg o lunio strategaeth er mwyn sicrhau adfywiad yr iaith Gymraeg a chreu Cymru ddwyieithog. Cytuna'r Pwyllgor mai'r pedair prif her yw'r rheini a nodwyd yn y "Crynodeb o Safbwynt Bwrdd yr Iaith Gymraeg" a chefnoga'n gryf y pwyslais ar addysg drwy gyfrwng y Gymraeg fel sylfaen twf.

Noda'r Pwyllgor y bydd gwireddu tasg mor uchelgeisiol â chreu Cymru gyfan gwbl ddwyieithog yn golygu llunio strategaeth gydlynol, yn seiliedig ar dargedau, o'r math a ddisgrifiwyd yn nogfen y Bwrdd.

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'n daer y nod o greu Cymru ddwyieithog fel nod cenedlaethol cyraeddadwy, a dymuna weld gweithredu strategaeth effeithiol er mwyn sicrhau y gwireddir y nod hwn.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod y Weithrediaeth yn derbyn dogfen y Bwrdd fel cyfraniad pwysig ac yn ganllaw i benderfynu ar flaenoriaethau gwaith y Bwrdd yn y dyfodol o fewn yr adnoddau a bleidleisiodd iddo gan y Cynulliad."

10.2 Yn ystod yr adolygiad polisi, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Fwrdd yr Iaith, a osodwyd yng nghyd-destun y ddogfen 'Cenhadaeth a Gweledigaeth'.

Cylch Gorchwyl

Ar ddechrau'r adolygiad, cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl canlynol:

" Ceisio diffinio'n fanylach sut i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a manteision dwyieithrwydd mewn addysg a dysgu gydol oes wrth wireddu gweledigaeth y Cynulliad Cenedlaethol o feithrin hunaniaeth unigryw ac amrywiol Cymru. Nod y Pwyllgor fydd awgrymu strategaeth ar gyfer gweithredu ym maes addysg a hyfforddiant er mwyn helpu i wireddu'r weledigaeth hon.

Bydd yr adolygiad polisi hwn yn ategu'r un sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan y Pwyllgor Diwylliant, sy'n delio â phynciau eraill sy'n berthnasol i'r defnydd o'r iaith Gymraeg a'i statws.

Bydd yr adolygiad polisi hwn yn canolbwyntio ar addysg a hyfforddiant statudol o'r blynyddoedd cynnar hyd at addysg gydol oes a bydd yn rhoi sylw penodol i'r themâu canlynol:

- ***Darparu cyfleoedd i bobl o bob oed ddysgu Gymraeg;***
- ***Gwella'r cyfleoedd i astudio Gymraeg fel ail iaith;***

- **Datblygu addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ar draws ystod eang o bynciau ar bob lefel; a**
- **Hyrwyddo parch cyfartal tuag at y Gymraeg a'r Saesneg"**

Ein dull o weithredu

- Penododd y Pwyllgor Catrin Redknap fel ymgynghorydd arbenigol, i gynnig cyfarwyddyd a chymorth wrth asesu'r dystiolaeth;
- Comisiynodd y Pwyllgor ddatganiad yn egluro'r sefyllfa (Atodiad III) gan yr Adran Hyfforddiant ac Addysg, a oedd yn cynnig gorolwg gyffredinol o'r Gymraeg ym myd addysg;
- Ymgynghorwyd yn helaeth ag awdurdodau addysg lleol, ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, cyrff proffesiynol, undebau athrawon a sefydliadau ac unigolion eraill sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant. Ceir disgrifiad o rolau a swyddogaethau'r sefydliadau addysg perthnasol yn Atodiad IV a cheir crynodeb o'r broses ymgynghori yn Atodiad V;
- Cyflwynwyd dystiolaeth i'r Pwyllgor gan sefydliadau addysgol ar wahân i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, gan gynnwys Estyn, ACCAC, ELWa, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, undebau athrawon, ysgolion ac eraill. Rhestrir a nodir cyfeirnod pob papur a gyflwynwyd yn llafar i'r Pwyllgor yn Atodiad VI. Gellir gweld y rhain ar dudalennau'r Pwyllgor ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol www.cymru.gov.uk. Mae'r dystiolaeth hon yn ategu'r dystiolaeth ysgrifenedig a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori;
- Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd gan ddisgyblion ysgol yn cynrychioli amrediad llawn y ddarpariaeth Gymraeg. Cyflwynodd deuddeg disgybl eu profiadau'n uniongyrchol i'r Pwyllgor, ac ymddangosodd eraill gerbron Pwyllgor Rhanbarth y De-orllewin. Yn ychwanegol at hyn, ymwelodd Catrin Redknap â nifer o ysgolion a chlywodd farn disgyblion am eu profiad o ddysgu Cymraeg. Nodir y dystiolaeth hon yn Atodiad VII;
- Yn olaf, gwerthusodd y Pwyllgor y dystiolaeth mewn sesiwn agored.

10.3 Dylid nodi bod pob cyfeiriad at 'Y Pwyllgor' yn Rhan 2 yn ymwneud â'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a bod pob cyfeiriad at 'Weinidog y Cynulliad' yn ymwneud â'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, oni nodir yn wahanol.

Ein Gweledigaeth

10.4 Cymeradwyodd y Pwyllgor y weledigaeth a ganlyn ar gyfer datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog:

"Mae'r Pwyllgor yn dymuno gweld cynnydd cyson a sylweddol yn y ddarpariaeth dros y deng mlynedd nesaf, mewn ymateb i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Dylai addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o ansawdd da fod ar gael yn rhwydd ym mhob rhan o Gymru. Dylid rhoi mwy o gyfle i bobl ddatblygu a defnyddio'r sgiliau ieithyddol hyn yn eu bywydau bob dydd. Mae dwyieithrwydd yn gyfle y dylid ei feithrin a'i werthfawrogi."

ARGYMHELLION ALLWEDDOL

11.1 Amlinellir argymhellion y Pwyllgor yn adrannau perthnasol Rhan 2 a cheir crynodeb ohonynt ar ddechrau'r adroddiad. Mae'r Pwyllgor yn ystyried yr argymhellion canlynol fel y rhai pwysicaf:

Argymhellion Allweddol

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad ddarparu cyfarwyddyd newydd er mwyn sicrhau gwell cydlyniant rhwng y Cynlluniau Trefniadaeth Ysgolion, y Cynlluniau Strategol Addysg a'r Cynlluniau Addysg Gymraeg. Dylai'r cyfarwyddyd hwn ganolbwyntio ar gael gwell dealltwriaeth ynghylch atebolrwydd a chyfrifoldebau, a mwy o gydweithio rhwng ysgolion, AALlau, Bwrdd yr Iaith a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad, ynghyd â'r awdurdodau addysg lleol a Bwrdd yr Iaith, baratoi fframwaith strategol cenedlaethol i sicrhau bod trefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer cydlynu'r gwaith o gynllunio, gwerthuso a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod rôl hanfodol dysgu Cymraeg trwy drochi yn ystod y Blynyddoedd Cynnar, ac yn argymhell bod y ddarpariaeth hon yn cael ei hehangu a bod rôl allweddol y Mudiad Ysgolion Meithrin yn cael ei chydabod.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad gomisiynu ACCAC, Estyn a Bwrdd yr Iaith i sefydlu cyfres gytunedig o feini prawf er mwyn asesu'r parhad presennol. Dylid gwneud dadansoddiad manwl o'r rhesymau dros y diffyg parhad ymddangosiadol, a dylid cymryd y camau priodol.

Dylid gwneud ymchwil drylwyr i ymarferoldeb mesur hyfedredd disgyblion mewn Cymraeg ar hyd continwrm ieithyddol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r fframwaith strategol cenedlaethol gynnwys ymrwymiad penodol i sicrhau bod hawl disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig i gael defnyddio'r ddarpariaeth sy'n diwallu eu hanghenion yn eu dewis iaith ar sail cydraddoldeb ledled Cymru yn cael ei chydabod ac y gweithredir arni.

CYNLLUNIO STRATEGOL

12.1 Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod cryfder yr iaith Gymraeg yn amrywio'n fawr o'r naill le i'r llall yng Nghymru. Er hyn, mae'r Gymraeg yn perthyn i bob un ohonom, a dylai cyfleoedd i ddatblygu sgiliau dwyieithog ac i'w defnyddio fod ar gael i'r genedl gyfan. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod llawer o waith da wedi'i wneud ym maes addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Ond mae twf, mewn llawer achos, wedi digwydd mewn ffordd ad hoc ar y cyfan, a phrin iawn fu'r cynllunio strategol.

12.2 Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf y dylai addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog gael ei chynnal a'i datblygu fel rhan o fframwaith cenedlaethol. Dylai'r fframwaith hwn sicrhau bod trefniadau cadarn yn bodoli er mwyn cydlynu'r gwaith o gynllunio, gwerthuso a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Ond dylai'r fframwaith hwn hefyd ymateb i natur ieithyddol amrywiol Cymru a chydabod bod gan wahanol awdurdodau addysg lleol (AALLau) wahanol flaenoriaethau. Dylai'r fframwaith hwn allu ystyried y cyflenwad presennol, y galw a ddisgwylir a gwybodaeth ynghylch beth sy'n gweithio, o ran staff wedi eu hyfforddi'n briodol, dulliau dysgu a deunyddiau dysgu. Wrth sefydlu'r fframwaith cenedlaethol hwn dylid cydnabod swyddogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg o ran cadw golwg strategol ar addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yng Nghymru.

12.3 Mae rhai AALLau wedi gwneud cyfraniad sylweddol i addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae'r AALLau hyn, dros nifer o flynyddoedd, wedi datblygu a gweithredu polisïau sydd wedi llwyddo i hybu'r iaith Gymraeg. Cred y Pwyllgor y dylid datblygu polisïau llwyddiannus a'u cyflwyno i awdurdodau eraill. Dylai gydnabod:

- Y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu cyfarwyddyd cyffredinol priodol a fframwaith strategol;
- Mai'r AALI yw'r awdurdod mwyaf priodol i ffurfio a gweithredu polisi ar lefel leol a bod ganddo'r awdurdod statudol perthnasol; ac
- Y bydd AALLau yn mabwysiadu'r weledigaeth sydd yn y fframwaith strategol cenedlaethol yn llawn.

12.4 Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu ei bod yn bwysig bod swyddogaethau a chyfrifoldebau statudol y gwahanol sefydliadau addysgol a grybwyllir yn y bennod hon yn cael eu parchu.

12.5 Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn hanfodol, fel cam cyntaf, bod Gweinidog y Cynulliad yn rhoi cyfarwyddyd newydd er mwyn cael gwell cydlyniant rhwng y gwahanol gynlluniau datblygu strategol sy'n bodoli'n barod. Dylai hyn ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer cynllunio drwy bartneriaeth a chydweithredu parhaus. Dyma'r tri chynllun perthnasol:

Cynlluniau Trefniadaeth Ysgolion

12.6 O dan Adran 26 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, mae'n ofynnol i bob AALI baratoi Cynllun Trefniadaeth Ysgolion (CTY) ar gyfer ei ardal, gan edrych ymlaen dros gyfnod o bum mlynedd a'i adolygu'n flynyddol. Mae Adran Hyfforddiant ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi canllawiau ar baratoi'r cynlluniau hyn. Mae CTYau yn ymdrin â chynllunio pob lle mewn ysgol, gan gynnwys lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r CTY yn ceisio sicrhau bod AALLau yn meddwl yn systematig am ddefnyddio adnoddau'n effeithiol, mewn ymgynghoriad ag ysgolion. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu monitro a'u gwerthuso gan swyddogion yr Adran Hyfforddiant ac Addysg.

Cynlluniau Strategol Addysg

12.7 Mae'n ofynnol i AALLau yng Nghymru baratoi Cynlluniau Strategol Addysg yn unol ag amodau Adran 6 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Mae'r cynlluniau hyn yn rhan hanfodol o bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella cyrhaeddiad addysgol. Dylai Cynlluniau Strategol Addysg ddisgrifio'r gweithgareddau y mae'r AALLau yn bwriadu eu cynnig er mwyn gwella ysgolion yn eu hardaloedd hwy a'r rhesymau sydd y tu cefn iddynt. Dylent ganolbwyntio'n bennaf ar y gweithgareddau hynny y mae'r awdurdod yn credu y byddant yn cael yr effaith fwyaf ar godi safonau mewn ysgolion. Maent yn cynnwys y nodau a'r targedau addysgol eang y mae AALLau wedi cytuno arnynt gydag ysgolion a hefyd yn disgrifio'r polisïau a ddefnyddir er mwyn eu cyrraedd. Mae'r Cynlluniau Strategol Addysg, fel y Cynlluniau Trefniadaeth Ysgolion, yn cael eu monitro a'u gwerthuso gan swyddogion yr Adran Hyfforddiant ac Addysg.

Cynlluniau Addysg Gymraeg

12.8 O dan Adran 5 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n ofynnol i bob AALI baratoi Cynllun Iaith Gymraeg sy'n ymdrin yn benodol ag addysg. Mae'r cynlluniau hyn yn rhan o'r prif Gynlluniau Iaith Gymraeg, lle mae awdurdodau lleol yn nodi sut y byddant yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn eu hymwneud â'r cyhoedd. Mae'n rhaid i Fwrdd yr Iaith gymeradwyo'r Cynlluniau Addysg Gymraeg, o dan Adran 14(1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am fonitro'r modd y caiff y cynlluniau hyn eu gweithredu, mewn ymgynghoriad â'r AALLau. Dywedwyd wrth y Pwyllgor, fodd bynnag, bod angen mwy o adnoddau arno er mwyn gallu ymgymryd â'r rôl fonitro hon yn fwy effeithiol.

12.9 Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod pob un o'r rhain yn arf cynllunio defnyddiol. Cred y Pwyllgor, fodd bynnag, y gellid gwella'r cydlyniant rhyngddynt gyda golwg ar addysg cyfrwng Gymraeg a dwyieithog.

- **Mae'r Pwyllgor yn Argymhell y dylai Bwrdd yr Iaith gael digon o adnoddau i gyflawni ei gyfrifoldeb statudol o sicrhau y caiff y cynlluniau a gymeradwyir ganddo eu gweithredu.**
- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad ddarparu cyfarwyddyd newydd er mwyn sicrhau gwell cydlyniant rhwng y Cynlluniau Trefniadaeth Ysgolion, y Cynlluniau Strategol Addysg a'r Cynlluniau Addysg Gymraeg. Dylai'r cyfarwyddyd hwn ganolbwyntio ar gael gwell dealltwriaeth ynghylch atebolrwydd a chyfrifoldebau, a mwy o gydweithio rhwng ysgolion, AALLau, Bwrdd yr Iaith a Llywodraeth Cynulliad Cymru.**

12.10 Er mwyn i gynllunio strategol effeithiol fod yn llwyddiannus, dylid canolbwyntio ar ddau brif faes:

- Data cywir a dibynadwy; a
- Dealltwriaeth glir gan bob ochr o gynnwys ac amcanion y ddarpariaeth sydd ar gael i ddisgyblion a'u rhieni.

12.11 Dylid cael ymrwymiad i gomisiynu ymchwil er mwyn asesu'r galw am addysg cyfrwng Gymraeg, yn enwedig gyda golwg ar ddarpariaeth y Blynnyddoedd Cynnar a saith mlynedd gyntaf addysg statudol. Byddai asesiad o'r galw cyfredol a'r twf a ddisgwylir yn cael effaith uniongyrchol ar ddau brif faes:

- Lleoliad daearyddol darpariaeth cyfrwng Gymraeg a dwyieithog; a

- Recriwtio, hyfforddi ac ailhyfforddi staff dysgu.

12.12 Yn ychwanegol at hyn, mae angen mabwysiadu cyfres bendant a chytunedig o ddiffiniadau a chategorïau ar gyfer y gwahanol fathau o ddarpariaethau ieithyddol sydd ar gael yng Nghymru.

12.13 Rhoddir sylw i'r ddau fater hyn yn ddiweddarach yn y bennod hon.

- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad, ynghyd â'r awdurdodau addysg lleol a Bwrdd yr Iaith, baratoi fframwaith strategol cenedlaethol i sicrhau bod trefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer cydlynu'r gwaith o gynllunio, gwerthuso a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.**
- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Uned Strategol arfaethedig, mewn cydweithrediad â'r Fforwm Iaith arfaethedig, chwarae rhan ganolog yn y gwaith o wella cydlyniant mewn cynllunio strategol. Dylai'r Uned ystyried strategaethau a chynlluniau'r sefydliadau y cyfeiriwyd atynt uchod a chydweithio'n agos ag Adran Hyfforddiant ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau bod amcanion y fframwaith strategol cenedlaethol yn cael eu cyflawni.**

THEMÂU CYFFREDIN

Parhad a Dilyniant

13.1 Mae mesur hyfedredd unigolyn mewn unrhyw iaith yn amlwg yn dasg gymhleth. Mae gallu pob siaradwr yn y pedair prif sgil (gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu) yn amrywio ac mae nifer o wahanol ffactorau yn dylanwadu ar y cynnydd a wneir yn y sgiliau hyn. Pan fo siaradwyr yn delio gyda dwy iaith (neu fwy), mae'r darlun yn amrywio llawer mwy. Mae hyfedredd siaradwyr yn eu hieithoedd yn amrywio fel arfer; er enghraifft, gall sgiliau llafar siaradwr fod yn llawer iawn gwell mewn un iaith nag mewn un arall, tra bo'u sgiliau darllen yn ddigon tebyg yn y ddwy iaith. Hyd yn oed yng nghategori cyffredinol sgiliau llafar, gall siaradwr ddangos cryn feistrolaeth ar ddefnyddio idiomau ac arddull lafar mewn un iaith, ond bod hyfedredd mewn agweddau mwy ffurfiol yn amlycach yn yr iaith arall. Mae'r amrywiadau a'r proffiliau unigol sy'n bosib felly'n ddiderfyn. Dylid nodi hefyd nad yw'r sgiliau bob amser yn cael eu dysgu yn yr un drefn gyda'r ddwy iaith.

13.2 Gellid dweud bod pob siaradwr sydd â rhywfaint o gyswllt â dwy iaith wedi cyrraedd rhyw bwynt ar gontinwmm ieithyddol, a bod y gyfatebiaeth rhwng eu gallu yn y ddwy iaith yn amrywio. Mae'r syniad o barhad yn berthnasol iawn wrth ystyried sut y mae sgiliau iaith yn cael eu dysgu a'u hasesu. Yn y dystiolaeth a dderbyniwyd, cyfeiriwyd at gyfyngiadau edrych ar hyfedredd yng ngoleuni'r gwahaniaeth sefydledig rhwng 'Cymraeg fel iaith gyntaf' a 'Chymraeg fel ail iaith', a chyflwynwyd y posibilrwydd o asesu hyfedredd siaradwr ar hyd un continwmm.

13.3 Yn yr un modd, cyflwynwyd dewisiadau eraill yn lle'r gwrthgyferbyniad arferol rhwng dysgu Cymraeg fel iaith a defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer dysgu pynciau eraill. Y pwnc trafod mwyaf arwyddocaol yn y maes hwn oedd y potensial ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg fel cyfrwng dysgu gyda disgyblion y mae eu cyswllt â'r Gymraeg wedi ei gyfyngu yn draddodiadol i ddosbarthiadau ail iaith.

13.4 Mae'n rhaid i'r gwaith o hybu cynnydd siaradwyr ar hyd continwmm ieithyddol hefyd gynnwys ystyriaeth o'r modd y mae'r symud o un cyfnod addysgol i'r nesaf yn sicrhau parhad yn y ddarpariaeth. Clywodd y Pwyllgor am rôl y Mudiad Ysgolion Meithrin, a'r ffordd y mae'n cynnig cyfleoedd i blant ifanc, ynghyd â'u rhieni, gymryd y camau cyntaf ar hyd y continwmm hwn. Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw adeiladu ar y sylfeini hyn wrth i blant symud i addysg statudol. Clywodd y Pwyllgor hefyd fod y tueddiadau cyfredol yn dangos erydiad amlwg wrth i ddisgyblion a myfyrwyr fynd yn eu blaenau trwy'r sectorau. Canfu gwaith ymchwil a wnaethpwyd gan Fwrdd yr Iaith (*Dilyniant mewn Addysg Gymraeg* 1998) fod 20.9% o ddisgyblion oed cynradd yn mynychu ysgolion lle defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer rhai pynciau o leiaf, ond bod y gyfran yn disgyn i 12.9% mewn ysgolion uwchradd. Mewn sefydliadau Addysg Bellach, cafodd 2.31% o'r myfyrwyr eu hasesu'n ffurfiol trwy gyfrwng y Gymraeg yn 1996/97. Roedd cyfran y myfyrwyr a oedd yn dilyn rhai neu bob un o'u cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn Addysg Uwch bryd hynny'n 1.6%.

Mynediad a Chyfle Cyfartal

13.5 Thema a gododd dro ar ôl tro yn y dystiolaeth a dderbyniwyd oedd y pryder y dylai addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fod ar gael i bob disgybl a myfyriwr yng Nghymru. Roedd pryder nad oedd darpariaeth a oedd ar gael yn dechnegol o fewn cyrraedd bob amser oherwydd ystyriaethau ymarferol yn ymwneud â phellter a dewisiadau cludiant. Pwysleisiwyd bod sicrhau bod

darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael yn y gymuned leol, o fewn pellter teithio rhesymol, yn un o'r prif flaenoriaethau ar gyfer sector y blynyddoedd cynnar. Ond daeth yr un ystyriaethau i'r amlwg yng nghyd-destun y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion 5 i 16 oed.

13.6 Elfen ganolog i'r egwyddor o fynediad oedd gallu disgyblion (a'u rhieni) a myfyrwyr i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth fanwl a phosibiliadau gwirioneddol. Cydnabuwyd bod hyn, yn ei dro, yn dibynnu'n gyfan gwbl ar lefelau staffio a chyllido digonol.

13.7 Tynnwyd sylw at gyfle cyfartal fel thema ganolog ym maes Anghenion Addysgol Arbennig cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mynegwyd pryder ynghylch yr amrywiadau sylweddol yn y ddarpariaeth sydd ar gael mewn gwahanol rannau o Gymru. Clywodd y Pwyllgor, fodd bynnag, fod yr un diffygion yn effeithio i ryw raddau ar bob rhan o'r wlad. Roedd llawer o'r rhain yn deillio o'r prinder arbenigwyr ac ymarferwyr a allai weithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y prosesau o wneud diagnosis ac asesu anghenion arbennig yn dioddef yn enbyd.

Data, Gwerthuso ac Ymchwil

13.8 Roedd y prinder cymharol o wybodaeth ynghylch y ddarpariaeth bresennol yn thema a gododd dro ar ôl tro wrth inni gasglu tystiolaeth. Mae hyn i'w weld ym mhob agwedd ar addysg a hyfforddiant, o addysg feithrin i'r brifysgol. Roedd yr angen i gasglu mwy o wybodaeth ac i'w dadansoddi'n well yn berthnasol i ddau faes yn fwyaf arbennig:

- *Deall lefelau cyfredol a disgwylidig y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*

Fel y nodwyd yn gynharach, rhaid cael data cywir a dibynadwy cyn gallu cynllunio'n strategol yn effeithiol. Dylai asesu twf disgwylidig fod yn ganolog i bob penderfyniad sy'n ymwneud â lleoliad darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, yn enwedig wrth recriwtio a hyfforddi staff.

- *Gwerthuso effeithiolrwydd gwahanol fodolau a methodolegau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog*

13.9 Clywodd y Pwyllgor na chafwyd unrhyw adolygiad systematig o ddatblygiad addysg ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg yng Nghymru. Er bod rhaglenni addysg trwy drochi yn y Gymraeg a dulliau dysgu dwyieithog amrywiol wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus, ni chafwyd gwerthusiad manwl a chynhwysfawr o'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd. Galwyd am gomisiynu ymchwil addysgol o ansawdd da i fodolau o arfer da, er mwyn i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog barhau i esblygu. Teimlid hefyd bod hyn yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o feithrin diwylliant o ysgolheictod ym maes ymchwil addysgol yng Nghymru.

Adnoddau: Staff, Deunyddiau Dysgu ac Addysgu

13.10 Mae'n amlwg na ellir cwrdd â'r galw presennol a disgwylidig am ddarpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg heb sicrhau bod digon o staff wedi eu hyfforddi'n briodol ar gael. Crybwyllir uchod yr angen sylfaenol am werthusiad cynhwysfawr o anghenion staffio. Roedd yr anhawster i recriwtio a chadw digon o athrawon i ddysgu Cymraeg (yn enwedig Cymraeg fel ail iaith) ac i ddysgu pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn nodwedd amlwg yn y dystiolaeth a gasglwyd.

13.11 Clywodd y Pwyllgor ei bod yn bwysig sicrhau bod deunyddiau dysgu ac addysgu Cymraeg a dwyieithog ar gael, a'u bod o'r un safon ac ansawdd â'r rheini sydd ar gael yn Saesneg. Mynegwyd yr angen am fwy o gydlynw wrth gynhyrchu deunyddiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, a galwyd am

strategaeth i ddarganfod yr anghenion yn ystod pob cyfnod o'r broses addysgol ar lefel genedlaethol, ac ymateb iddynt.

Y tu hwnt i'r Ystafell Ddosbarth

13.12 Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf bod gan addysg a hyfforddiant ran bwysig i'w chwarae yn y gwaith o greu Cymru ddwyieithog. Ond mae'r Pwyllgor yn cydnabod hefyd nad trwy addysg ffurfiol yn unig y mae sicrhau caffaeliad iaith. Yn ychwanegol at hyn, dim ond pan ddefnyddir yr iaith mewn sefyllfaoedd bob dydd y mae hyfedredd ieithyddol yn golygu rhywbeth o ddifrif. O ganlyniad, dylid gosod y camau i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng nghyd-destun ehangach datblygu siaradwyr dwyieithog mewn cymunedau. Ni ellir ystyried hybu dwyieithrwydd mewn sefydliadau ar ei ben ei hun. Dylid ei osod, yn hytrach, yng nghyd-destun y ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad ieithyddol mewn sefyllfaoedd domestig, cymdeithasol ac anffurfiol, gan gynnwys trosglwyddo rhwng cenedlaethau.

13.13 Mae hyn yn golygu ei bod yn bwysig cofio bod canfyddiadau'r rhan hon o'r adolygiad yn rhan o fframwaith llawer ehangach yr adolygiad cyffredinol. Mae disgyblion, myfyrwyr a'u rhieni, a'r staff dysgu hefyd, yn perthyn i gymunedau, ac mae'r Pwyllgor yn ymwybodol iawn o'r llinynnau hanfodol sy'n cysylltu polisi ac ymarfer addysgol â phryderon sy'n llawer ehangach eu cwmpas, gan gynnwys cynaliadwyedd cymunedau, a datblygu economaidd.

13.14 Mae'r Pwyllgor yn cefnogi un o brif argymhellion yr adroddiad ar *Ymestyn Hawliau* sef “*y dylid strwythuro cefnogaeth ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru o gwmpas hawl pob person ifanc i dderbyn amrywiaeth o wasanaethau yn eu dewis iaith...*”. Clywodd y Pwyllgor fod gwasanaethau a ddefnyddir gan bobl ifanc ym mhob rhan o Gymru ar hyn o bryd yn rhan o archwiliad o ddarpariaeth, angen ac adnoddau, sy'n cael ei wneud gan awdurdodau lleol. Rhagwelir y bydd yr archwiliadau hyn yn rhoi darlun cydlynol o'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl ifanc ledled Cymru. Mae *Canllaw Online*, gwefan ddwyieithog, yn cynnig gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud ag *Ymestyn Hawliau*. Mae gwefan arall, *Llais Ifanc*, yn gyfrifol am gynnwys pobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau.

DARPARIAETH Y BLYNYDDOEDD CYNNAR / CYN-YSGOL

Rhaglith

14.1 Fel y nodwyd yn y dystiolaeth, mae plentyn ifanc yn cael ei brofiad cyntaf o iaith yn amgylchedd y cartref. Teimlid y dylid canolbwyntio'n benodol, felly, ar roi mwy o gyfle i blant ifanc glywed y Gymraeg a dechrau siarad yr iaith yn ystod cyfnodau cynnar eu datblygiad gwybyddol ac ieithyddol. Roedd hyn hefyd yn cynnwys annog rhieni i ddefnyddio'r iaith, neu i ddechrau dysgu'r iaith, gyda'u plant. Roedd yr agwedd hon ar yr adolygiad yn tynnu sylw at y ffyrdd pwysig iawn y mae'r gwahanol gyfnodau ym mhrofiad dysgu unigolyn trwy gydol ei oes wedi eu cysylltu â'i gilydd, ac yn dangos swyddogaeth bwysig amgylchedd y cartref – o ran yr iaith a siaredir ac o ran agweddau at ddwyieithrwydd – wrth drosglwyddo'r Gymraeg o'r naill genhedlaeth i'r llall. Ystyriwyd anghenion rhieni sy'n awyddus i ddysgu Cymraeg yn ystyriaeth y Pwyllgor ar ddarparu Cymraeg i Oedolion.

14.2 Er nad yw'r ddarpariaeth ar gyfer plant o dan dair oed yn rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn, teimlid bod gan ddatblygiadau diweddar ac arfaethedig yn y ddarpariaeth ar gyfer plant tair oed oblygiadau pwysig ar gyfer plant ifanc, yn enwedig gyda golwg ar Ganolfannau Integredig y Blynyddoedd Cynnar. Rhagwelir y bydd y canolfannau hyn yn cynnig gwahanol fathau o ddarpariaeth, o addysg y blynyddoedd cynnar a chyfleusterau gofal cyn ac ar ôl yr ysgol, i wasanaethau ehangach ar gyfer rhieni newydd a chyfleoedd dysgu i oedolion.

14.3 Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol nad yw darparwyr eraill sy'n gofalu am blant ifanc o dan dair oed, sef meithrinfeydd preifat diwrnod cyfan a gwarchodwyr plant sy'n cael eu cynrychioli gan Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (NCMA), yn rhan o'i gylch gorchwyl. Ond maent yn effeithio cryn dipyn ar gaffael Cymraeg yn ystod blynyddoedd cyntaf datblygiad plentyn. Yn amlwg, mae'r cyfnod hwn yn hanfodol bwysig.

14.4 Dangosodd pwysigrwydd mabwysiadu agwedd gyson a chyfannol at ddarpariaeth y Blynyddoedd Cynnar gyn lleied o ofal diwrnod cyfan cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mudiad Ysgolion Meithrin

14.5 Mae addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru wedi datblygu llawer yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf. Gwelwyd cynnydd cyson yn nifer yr ysgolion sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn nifer y rhieni di-Gymraeg sy'n dewis y ddarpariaeth hon ar gyfer eu plant. O ganlyniad, cynigir darpariaeth cyfrwng Cymraeg erbyn hyn i ddau gategori cyffredinol o ddisgyblion sydd ag anghenion ieithyddol gwahanol iawn: disgyblion sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, a disgyblion sy'n dod i gysylltiad â'r Gymraeg am y tro cyntaf yn yr ysgol, trwy addysg drochi. Mae rhaglenni addysg drochi yn seiliedig ar y gred bod plant yn caffael iaith i ddechrau heb unrhyw ymwybyddiaeth wirioneddol o'r prosesau a ddefnyddir. Trwy ganolbwyntio ar y cynnwys yn hytrach na'r iaith ei hun, mae addysg drochi yn ceisio atgynhyrchu'r broses naturiol hon o gaffael.

14.6 Mae cyfran helaeth o'r plant ifanc o gartrefi Cymraeg eu hiaith neu gartrefi dwyieithog, a phlant sy'n dechrau ar raglen drochi cynnar, yn mynychu ysgolion meithrin y Mudiad Ysgolion Meithrin pan fyddant yn ddwyflwydd a hanner.

14.7 Nodwyd yn y dystiolaeth bod cysylltiad cynnar â'r Gymraeg yn darparu'r amgylchiadau gorau ar gyfer dysgu'r iaith. Cyflwynwyd manteision cyflwyno'r Gymraeg i siaradwyr yn ystod y cyfnod hwn yn eu datblygiad fel a ganlyn:

- Gallu plant ifanc i gaffael iaith;
- Yr oedran mwyaf priodol ar gyfer meithrin agweddau cadarnhaol tuag at ddwyieithrwydd;
- Cyflwyno dewis realistig i rieni a'u galluogi i wneud penderfyniadau deallus ynghylch cyfrwng addysg eu plant yn y dyfodol; a
- Ffordd o leihau'r angen i ddysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

14.8 Cydnabuwyd y rhan werthfawr a chwaraeir gan y Mudiad Ysgolion Meithrin wrth ddarparu hinsawdd ffafriol ar gyfer datblygiad cynnar sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg. Dangosai ffigyrau a gyflwynwyd gan y Mudiad Ysgolion Meithrin fod 403 o Gylchoedd Ti a Fi – ar gyfer Rhieni a Phlant - a 578 o Gylchoedd Meithrin yn rhan o'r mudiad ym Mehefin 2001. Amcangyfrifwyd bod y canolfannau'n darparu ar gyfer 13,367 o blant bob dydd. Tynnwyd sylw at rôl bwysig y Cylchoedd Ti a Fi yn darparu cyfleoedd i rieni a phlant ifanc glywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio fel cyfrwng chwarae a gweithgareddau eraill, a thrwy hynny'n hybu cynnydd cynnar ar hyd y continwmm. Dywedwyd mai hwyluso'r broses o symud ymlaen i'r Cylch Meithrin, yn ddwyflwydd a hanner, ac yna i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg, oedd yr amcan mwyaf ffafriol gyda golwg ar ddysgu Cymraeg yn llwyddiannus yn ystod y cyfnod hwn. Dywedwyd bod yr arfer o glystyru grwpiau meithrin gyda'r ysgol gynradd Gymraeg leol yn elfen bwysig er mwyn sicrhau cysondeb dulliau dysgu, hwyluso darpariaeth wedi ei chynllunio, a meithrin cysylltiadau cynnar gyda rhieni plant iau.

Clywodd y Pwyllgor fod nifer o resymau dros lwyddiant y Mudiad Ysgolion Meithrin:

- Effeithlonrwydd dysgu iaith trwy drochi wedi'i brofi;
- Gwneud gweithgareddau'r Cylchoedd yn rhan o'r gymuned leol; a'r
- Gefnogaeth a ddarperir i grwpiau a rhieni, gan gynnwys cyfleoedd i ddysgu Cymraeg ochr yn ochr â'r plant.

14.9 Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod cynlluniau gan Weinidog y Cynulliad i gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael i blant tair oed mewn dosbarthiadau meithrin yn cynnig y potensial i feithrin sgiliau dwyieithog ymhlith plant ifanc, cyn belled â bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael ym mhob ardal. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith y bydd sylw penodol yn cael ei roi i'r Gymraeg a'r angen i ffurfio cysylltiadau â chynlluniau eraill yn y maes, megis *Cychwyn Cadarn* a *Strategaeth Gofal Plant Cymru*. Y nod yw ehangu'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau bod lle ar gael i bob plentyn tair oed erbyn Medi 2004. Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'r ffaith bod y Cynulliad wedi cyhoeddi yn ddiweddar y bydd arian ar gael, yn ystod y tair blynedd nesaf, ar gyfer y Mudiad Ysgolion Meithrin, Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-Ysgol Cymru a Chymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant.

14.10 Un o'r prif feysydd a oedd yn peri pryder i'r Mudiad Ysgolion Meithrin oedd effaith debygol ehangu addysg feithrin ran-amser i bob plentyn tair oed yn y sector a gynhelir. Y dewis sy'n wynebu rhieni weithiau yw p'un ai i dalu er mwyn i'w plant gael mynychu'r Cylch Meithrin lleol, ynteu i anfon eu plant i ddarpariaeth feithrin sy'n cael ei hariannu gan yr AALI mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae'r ysgolion hyn yn aml gryn bellter i ffwrdd, ffactor sy'n gwneud i nifer o rieni ddewis darpariaeth leol cyfrwng Saesneg sy'n cael ei hariannu gan yr AALI.

14.11 Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod perygl y gallai ehangu'r ddarpariaeth ran-amser ar gyfer plant tair oed yn y sector a gynhelir fygwth hyfywedd y ddarpariaeth ar gyfer plant dwyflwydd a hanner. Roedd hefyd yn bwysig parchu dymuniadau'r plant a'r rhieni hynny oedd am gael darpariaeth feithrin leol drwy gyfrwng y Gymraeg.

14.12 Pwysleisiodd y Mudiad Ysgolion Meithrin pa mor bwysig yw sefydlu trefniadau cadarn er mwyn monitro a gwerthuso effeithlonrwydd y dulliau a ddefnyddir i ddysgu Cymraeg yn y Blynyddoedd Cynnar. Ystyriwyd bod gwaith ymchwil a wnaethpwyd yn ddiweddar gan yr Athro Colin Baker ym Mhrifysgol Cymru, Bangor, i ddatblygiad ieithyddol plant ifanc yn gyfraniad gwerthfawr i'r maes hwn. Ystyriaeth arall bwysig iawn oedd sicrhau bod staff cymwys sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar gael.

- **Mae'r Pwyllgor yn cydnabod rôl hanfodol dysgu Cymraeg trwy drochi yn ystod y Blynyddoedd Cynnar, ac yn argymhell bod y ddarpariaeth hon yn cael ei hehangu a bod rôl allweddol y Mudiad Ysgolion Meithrin yn cael ei chydabod.**
- **Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Gweinidog y Cynulliad wedi comisiynu archwiliad o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, ac yn argymhell bod canfyddiadau'r archwiliad hwn yn dod yn sail ar gyfer datblygu polisi yn y dyfodol.**
- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar hefyd olygu cynnydd yn y ddarpariaeth ddwyieithog, gyda rhyw gymaint o addysg drochi, yn unol â dymuniadau'r rhieni.**

14.13 Mae'r Pwyllgor o'r farn bod agwedd gyfannol at ddysgu iaith yn effeithiol yn ystod y Blynyddoedd Cynnar yn dibynnu ar well gofal diwrnod cyfan cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. I'r perwyl hwn, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, mewn partneriaeth â'r Mudiad Ysgolion Meithrin a PPA Cymru. Cred y Pwyllgor y dylai'r datblygiadau hyn gynnig y posibilrwydd o ehangu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y gymuned leol, o bosibl drwy ddatblygu Canolfannau Integredig ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, ac y dylai Canolfannau'r Blynyddoedd Cynnar gefnogi'r datblygiadau hyn, a chyfrannu atynt.

ADDYSG STATUDOL (5 i 16)

Rhaglith

15.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth yn ymwneud â'r sector hwn o sawl ffynhonnell, gan gynnwys athrawon, disgyblion, AALLau, Estyn, ACCAC ac eraill.

15.2 Fel y nodwyd uchod, mae addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru wedi datblygu cryn dipyn yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf. Agorwyd yr ysgol Gymraeg swyddogol gyntaf yn Llanelli yn 1947. Ers hynny, gwelwyd cynnydd cyson yn nifer yr ysgolion sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn nifer y rhieni di-Gymraeg sy'n dewis y ddarpariaeth hon ar gyfer eu plant. Un o nodweddion y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, fel y nodwyd yn gynharach, yw'r ffaith ei bod yn darparu ar gyfer dau gategori o ddisgyblion sydd ag anghenion ieithyddol gwahanol iawn: y rhai hynny sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, a'r rhai hynny sy'n dod i gysylltiad â'r Gymraeg am y tro cyntaf yn yr ysgol.

15.3 Prif nodwedd dysgu iaith trwy drochi cynnar yw ei fod yn ceisio sicrhau lefelau o allu ieithyddol ymhlith disgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg sy'n cyfateb i'r rhai hynny a geir ymhlith disgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith erbyn eu bod yn 11 oed. Cedwir lefelau gallu mewn Saesneg, trwy addysg ffurfiol a hefyd trwy bresenoldeb yr iaith y tu allan i amgylchedd yr ysgol. Yn ychwanegol at hyn, mae modd trosglwyddo'r rhan fwyaf o'r sgiliau a ddatblygir trwy gyfrwng y Gymraeg, a gellir eu defnyddio yn y Saesneg hefyd.

Diffiniadau a Modelau

15.4 Cyfeiriwyd eisoes at rôl hollbwysig strategaeth genedlaethol, gydlynol er mwyn cyflwyno darpariaeth Gymraeg yn effeithiol. Er mwyn i'r ddarpariaeth hon gynnig yr hinsawdd briodol ar gyfer twf iaith mae angen cyfres o ddiffiniadau pendant a chytunedig ar gyfer y gwahanol fathau o ddarpariaethau ieithyddol sydd ar gael yng Nghymru. Credir bod hyn yn ganolog i'r dasg o:

- Sefydlu amcanion clir ar gyfer addysgwyr a disgyblion gyda golwg ar ganlyniadau ieithyddol;
- Darparu gwybodaeth ddiamwys i rieni a'u plant ynghylch y dewisiadau sydd ar gael;
- Cynorthwyo AALLau gyda'r gwaith o ddatblygu a chydlynu eu strategaeth ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gan gynnwys cynllunio adnoddau a recriwtio staff;
- Caniatáu gwerthusiad systematig o gryfderau a gwendidau cymharol gwahanol fodolau dysgu iaith.

15.5 Clywodd y Pwyllgor fod y categorïau o ysgolion sydd yng Nghymru ar hyn o bryd yn aneglur iawn, o ran y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael. Y diffiniad o Ysgolion Cymraeg yn ôl Deddf Diwygio Addysg 1988 yw:

"Those where more than half of the following subjects are taught partly or wholly through the medium of Welsh –

a) Religious Education, and

b) Subjects other than English or Welsh, which are Foundation Subjects in relation to pupils at the school."

15.6 Cafodd yr un diffiniad ei gynnwys yn Neddf Addysg 1996.

15.7 Mewn ysgolion Cymraeg, mae'r Gymraeg yn bwnc craidd, ochr yn ochr â Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth, ac mae pob disgybl sydd rhwng 5 ac 16 oed yn cael gwersi yn y Gymraeg. Mewn ysgolion nad ydynt yn ysgolion Cymraeg, dysgir y Gymraeg fel pwnc sylfaen hyd at 16 oed.

15.8 Clywodd y Pwyllgor, fodd bynnag, fod y darlun, mewn gwirionedd, yn llawer llai systematig a chyson. Mae AALIau unigol yn defnyddio nifer o wahanol categorïau i gyfeirio at eu hysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (e.e. 'ysgolion dwyieithog', 'ysgolion Cymraeg traddodiadol', ysgolion cyfrwng Cymraeg', Categori A, Categori AB ac ati), ac ambell waith rhoddir diffiniad neu deitl gwahanol i'r un math o ysgol gan ddau AALI gwahanol. Ychwanegir at y dryswch gan y gwahaniaethau yn y ganran o'r cwricwlwm sy'n cael ei dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd mae disgyblion yn derbyn eu haddysg:

- Yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, neu
- Yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg, neu
- Yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Saesneg, gyda'r iaith Gymraeg yn cael ei dysgu fel pwnc.

15.9 Mae'r ddau fath cyntaf o ddarpariaeth ar gael naill ai mewn ysgolion lle mae pob disgybl yn derbyn yr un ddarpariaeth ieithyddol (neu ddarpariaeth sydd bron yr un fath), neu mewn ysgolion lle mae ffrydiau neu unedau cyfrwng Cymraeg yn bodoli ochr yn ochr â ffrydiau cyfrwng Saesneg.

15.10 Galwyd yn y dystiolaeth am gyfres glir o ddiffiniadau, a fyddai'n cael eu defnyddio gan bob AALI, ac yn cael eu cydnabod gan bawb fel sylfaen ar gyfer cynllunio, gweithredu a gwerthuso strategaethau dysgu.

15.11 Ni ddylai'r pwyslais hwn ar ddiffinio ysgolion, fodd bynnag, guddio'r angen holl bwysig i ganolbwyntio ar ddiffinio gwahanol fodolau o ddarpariaethau ieithyddol. Os yw disgyblion i symud ymlaen ar hyd continwrm a dod yn fwy rhugl yn y Gymraeg, mae'n bwysig bod dewisiadau ynghylch y ddarpariaeth ieithyddol fwyaf priodol yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r gwahanol fathau o ddarpariaethau mewn ysgolion.

15.12 Nid yw'n hawdd gwerthuso llwyddiant y mathau o ddarpariaethau sydd ar gael ar hyn o bryd, gan fod disgyblion, wrth gwrs, yn gynnrych eu cymunedau yn ogystal â'u hysgolion. Fodd bynnag, cydnabyddir rôl holl bwysig ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig (ac ysgolion eraill sy'n cynnig yr un ddarpariaeth) wrth gyflwyno dwyieithrwydd yn y pedair sgil ieithyddol i bob disgybl. Dylai strategaeth er mwyn hwyluso'r gwaith o ehangu'r model hwn fod yn seiliedig ar archwiliad cynhwysfawr o'r galw.

15.13 Yr un pryd, dylid annog cyfleoedd i hybu twf yr iaith Gymraeg mewn ysgolion eraill trwy ystyried y canlynol:

- Cynnig y 'model cyfrwng Cymraeg dynodedig' mewn ysgolion lle defnyddir Saesneg hefyd fel cyfrwng ar gyfer rhai pynciau; a

- Defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng a defnyddio dulliau dysgu dwyieithog ar gyfer rhai rhannau o'r cwricwlwm mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, yn unol â dymuniadau'r rhieni.
- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad roi blaenoriaeth i ddiffinio darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion. Bydd y gwaith manwl sydd wedi ei wneud yn barod gan grwp o arbenigwyr, dan gadeiryddiaeth Bwrdd yr Iaith, er mwyn egluro sut y mae trochi ieithyddol ac addysg ddwyieithog yn cael eu categorio yn ffurfio sylfaen ar gyfer yr ystyriaeth hon.**

Parhad

15.14 Un o brif nodweddion y dystiolaeth yn ymwneud â datblygiad sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg oedd yr angen i gynllunio'r symud o un cyfnod addysgol i'r nesaf. Er mwyn i drochi ieithyddol cynnar fod yn llwyddiannus, mae angen iddo gael ei weld fel proses barhaus, gyda disgyblion yn adeiladu ar eu hyfedredd yn y Gymraeg yn hytrach na chaniatáu i erydiad sgiliau graddol ddigwydd wrth iddynt symud drwy'r system. Yn yr un modd, mae patrymau trochi hwyrach llwyddiannus (gweler isod) yn galluogi disgyblion i wneud mwy o gynnydd yn yr iaith trwy ei defnyddio fel cyfrwng dysgu wrth iddynt fynd yn eu blaenau gyda'u haddysg. Clywodd y Pwyllgor hefyd am brofiad disgyblion yng Nghnada sy'n cael eu hannog i ddefnyddio'r Ffrangeg fel cyfrwng i ddysgu pynciau eraill yn dilyn llwyddiant modelau dysgu Ffrangeg dwys.

15.15 Roedd rhai o'r ymatebwyr yn poeni bod disgyblion yn cael llai o gysylltiad gyda'r Gymraeg wrth iddynt drosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3. Gwelwyd diffyg parhad mewn dau prif gategori o ddisgyblion:

- Disgyblion yn astudio Cymraeg fel iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 2 yn trosglwyddo i astudio Cymraeg fel ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 3, a heb fod yn astudio unrhyw bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- Disgyblion yn astudio Cymraeg fel iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 2 yn parhau i astudio Cymraeg fel iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 3, ond heb fod yn astudio unrhyw bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

15.16 Deuai gwahaniaethau mewn dehongliad i'r golwg mewn perthynas â graddau'r diffyg parhad hwn:

- Yn 2000-01, rhoddodd ychydig dros 1% o siaradwyr 'rhugl' y gorau i ddysgu Cymraeg fel iaith gyntaf ar ôl trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Dylid nodi nad oes meini prawf cytunedig ar gyfer diffinio 'rhuglder' yn y cyswllt hwn. Mae'r ffigwr hwn yn deillio o gymhariaeth o ganran y disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf, yn eu blwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd, â data a ddarparwyd gan benaethiaid ysgolion cynradd ynghylch canrannau'r disgyblion 11 oed yr ystyrid eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl yn ystod y flwyddyn flaenorol: (Y Gymraeg yn yr Ysgol: Bwletin Ystadegol 48/2001).
- Cyflwynwyd ffigyrau eraill i'r Pwyllgor a oedd yn dangos diffyg parhad. Roedd y ffigyrau hyn yn seiliedig ar gymhariaeth o ganrannau'r disgyblion a gyflwynwyd ar gyfer asesiadau Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 mewn Cymraeg fel iaith gyntaf. Yn 2001, cafodd 14.1% o'r disgyblion eu hasesu mewn Cymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 (o gymharu â 12.5% yn 1997). Os olrheinir cynnydd yr un grwpiau o ddisgyblion rhwng Cyfnod Allweddol 2 (1998) a Chyfnod Allweddol 3 (2002), mae'r canrannau a aseswyd mewn Cymraeg fel iaith gyntaf

fel a ganlyn:
Cyfnod Allweddol 2 – 17.5%
Cyfnod Allweddol 3 – 14.1%

15.17 Cyflwynwyd ystadegau pellach gan Fwrdd yr Iaith: dechreuodd 40% o'r plant a dderbyniodd eu haddysg gynradd yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg eu haddysg uwchradd trwy ddilyn y cwricwlwm drwy gyfrwng y Saesneg.

15.18 Clywodd y pwyllgor hefyd fod amrywiadau sylweddol rhwng AALLau mewn ardaloedd lle siaredir Cymraeg yn draddodiadol, o ran cyfran y disgyblion sy'n cael eu dysgu a'u hasesu mewn Cymraeg fel iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4. Yng Ngwynedd aseswyd 78.5% o'r grwp Blwyddyn 9 mewn Cymraeg iaith gyntaf fel pwnc (2001), ond yn Sir Gaerfyrddin dim ond 29% o'r disgyblion oedd yn y categori hwn. Ym Mlwyddyn 11, dysgwyd Cymraeg fel iaith gyntaf i 82% o ddisgyblion Gwynedd; yn Sir Gaerfyrddin roedd y ganran gyfatebol yn 28.5%.

15.19 Yn ôl tystiolaeth Estyn i'r Pwyllgor:

“Mae gormod o ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd dwyieithog yn dilyn cyrsiau Cymraeg ail iaith a sefyll TGAU Cymraeg ail iaith er eu bod wedi gwneud asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 mewn Cymraeg iaith gyntaf. Mae'r strategaeth hon yn rhoi hwb i ganlyniadau cyffredinol ysgolion, gyda mwy o ddisgyblion yn ennill gradd A-C mewn Cymraeg ail iaith. Fodd bynnag, o ran dilyniant disgyblion yn y Gymraeg, mae hwn yn hwb artiffisial a chyflwynir llai o her iddynt o ganlyniad.”*

15.20 Mae rheoliadau cofrestru arholiadau Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru yn ei gwneud yn glir na ddylai disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf gofrestru ar gyfer arholiad ail iaith. Mae'n amhriodol ac yn addysgol gyfeiliornus i ddisgyblion sydd â'r gallu i sefyll arholiad iaith gyntaf gael eu cofrestru ar gyfer arholiad ail iaith. I bob pwrpas, byddai'r cwrs ail iaith yn gam yn ôl i ddisgyblion sydd wedi dilyn y rhaglen astudio Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3.

15.21 CBAC ei hun sy'n gyfrifol am sicrhau bod ei reoliadau cofrestru'n cael eu gorfodi. Mae rheoliadau CBAC yn cael eu cyhoeddi bob blwyddyn yn y llyfryn rheoliadau cyffredinol ac yn y fanyleb ar gyfer TGA a TGAU Cymraeg ail iaith. At hynny, ar gyfer pob cylch arholi, mae gofyn i benaethiaid y canolfannau arholi lofnodi datganiadau i dystio bod pob ymgeisydd sydd wedi'i gofrestru ar gyfer arholiadau TGA a TGAU Cymraeg ail iaith yn bodloni'r gofynion cofrestru.

15.22 Mynegwyd pryder gan ymatebwyr eraill ynghylch nifer y disgyblion sy'n rhoi'r gorau i ddefnyddio'r iaith wrth iddynt fynd yn eu blaenau drwy'r system. Teimlid nad oedd yr arfer hwn yn un dymunol am y rhesymau a ganlyn:

- Roedd yn annog tangyflawni, a dyma'r unig agwedd ar y cwricwlwm lle caniateid i ostyngiad mewn sgiliau a safonau ddigwydd heb wneud unrhyw beth yn ei gylch;
- Nid oedd yn darparu'r amgylchedd dysgu mwyaf addas ar gyfer y disgyblion hynny a oedd yn ddysgwyr 'ail iaith' yng ngwir ystyr y term; ac
- Roedd yn herio'r rhesymeg y tu cefn i adfywio iaith.

15.23 Darparwyd enghreifftiau o arfer da wrth hybu datblygiad cynyddol sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg. Roedd y rhain yn cynnwys prosiectau pontio a ariannwyd gan Fwrdd yr Iaith drwy gyfrwng

ei grantiau i helpu Athrawon Bro i ddiogelu'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu yn ystod y symud o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3.

- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad gomisiynu ACCAC, Estyn a Bwrdd yr Iaith i sefydlu cyfres gytunedig o feini prawf er mwyn asesu'r parhad presennol. Dylid gwneud dadansoddiad manwl o'r rhesymau dros y diffyg parhad ymddangosiadol, a dylid cymryd y camau priodol.**
- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai ysgolion gydymffurfio â rheolau cofrestru CBAC a chofrestru disgyblion ar gyfer yr arholiad iaith TGAU sydd fwyaf addas ar eu cyfer.**

Cymraeg fel Ail Iaith, a Methodolegau Dysgu Dwyieithog

15.24 Roedd tystiolaeth a gyflwynwyd gan nifer o ymatebwyr, gan gynnwys rhai o'r disgyblion ysgol a gyfrannodd at yr Adolygiad, yn cyfeirio at nifer o faterion pwysig a oedd yn ymwneud â dysgu Cymraeg fel ail iaith. Cydnabuwyd y cynnydd a wnaed gan lawer o ddisgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith, ynghyd â gwaith gwerthfawr yr Athrawon Bro a'r Canolfannau Hwyrddyfodiaid. Clywodd y Pwyllgor fod Athrawon Bro yn elfen allweddol o'r gwasanaeth cymorth iaith i ddisgyblion a'u hathrawon, gan gynnig cymorth yn yr ystafell ddosbarth, deunyddiau dysgu a chymorth gyda materion polisi. Fel y nodwyd uchod, mae ganddynt rôl bwysig hefyd o ran y prosiectau pontio. Nod y rhain yw sicrhau parhad y ddarpariaeth ieithyddol rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

15.25 Wrth gyfeirio at safonau Cymraeg ail iaith mewn ysgolion cynradd, nododd Estyn fel a ganlyn:

“Mae tystiolaeth arolygu yn nodi bod Cymraeg ail iaith yn un o'r pynciau lle mae safonau ar eu huchaf yng nghyfnod allweddol 1 ac ar eu hisaf yng nghyfnod allweddol 2. Yng nghyfnod allweddol 1, mae safonau'n dda neu'n dda iawn mewn 57% o ddosbarthiadau ac yn anfoddhaol mewn tua 2% o ddosbarthiadau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau'n dda neu'n dda iawn mewn 44% o ddosbarthiadau ac yn anfoddhaol mewn 11% o ddosbarthiadau.”

15.26 Clywodd y Pwyllgor fod nifer o ysgolion yn llwyddo i osod amcanion clir a datblygu rhuglder yn y Gymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Nid oedd disgyblion eraill, fodd bynnag, yn gwneud digon o gynnydd, ac roedd gormod yn methu â chynnal sgwrs yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2.

15.27 Darparodd Estyn y dystiolaeth a ganlyn gyda golwg ar Gymraeg ail iaith mewn ysgolion uwchradd:

“Dengys tystiolaeth arolygu fod cyfran y dosbarthiadau cyfnod allweddol 3 sydd â safonau da neu dda iawn mewn Cymraeg ail iaith (37%) ymhlith yr isaf yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae safonau'n anfoddhaol neu'n wael mewn 12% o ddosbarthiadau, cyfran sydd gryn dipyn yn uwch nag mewn unrhyw bwnc arall yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, ar wahân i dechnoleg gwybodaeth. Mae cyfran y dosbarthiadau lle mae addysgu da neu dda iawn (45%) hefyd yn is nag unrhyw bwnc arall yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ac mae'r addysgu yn anfoddhaol mewn 12% o ddosbarthiadau.”

15.28 Mae'r ffaith nad oes digon o ddisgyblion yn llwyddo i fod yn rhugl yn y Gymraeg erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3, a bod cymaint o ddisgyblion nad ydynt yn sefyll arholiad mewn Cymraeg ail iaith ar ddiwedd Blwyddyn 11 yn peri pryder i'r Pwyllgor. Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at y targedau cyrhaeddiad afrealistig o fewn yr amseroedd a neilltuwyd ar gyfer y pwnc yn achos y Cwrs Byr, ond nododd Estyn fod canlyniad A*-C y cwrs byr mewn Cymraeg yn well nag mewn Ffrangeg ac

Almaeneg. Dywedodd nifer o'r rhai a ymatebodd mai anfodlonrwydd ymhlith disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yw un o'r meysydd sy'n cynnig yr her fwyaf.

15.29 Roedd rhai o'r pryderon ynghylch dysgu Cymraeg fel ail iaith yn ymwneud ag effaith negyddol bosibl gwneud y Gymraeg yn bwnc gorfodol i bob disgybl hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Gofynnodd NASUWT Cymru a oedd gorfodaeth o'r fath mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, a hefyd ar gyfer rhai categorïau o ddisgyblion, yn fuddsoddiad da. Ofnid y gallai'r polisi presennol elyniaethu rhai disgyblion, a chreu teimladau gwrth-Gymraeg cryf. Tynnwyd sylw yn ymatebion rhai o'r disgyblion ysgol a gyflwynodd dystiolaeth at rai o'r gwendidau sydd i'w gweld yn y trefniadau presennol. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor hefyd gan y disgyblion hyn y byddent wedi hoffi cael cyfle i ddysgu Cymraeg pe bai'r amgylchiadau ar gyfer dysgu wedi bod yn wahanol, a phe bai mwy o bwyslais wedi ei roi ar feithrin sgiliau ieithyddol rhyngweithiol. Teimlai'r Pwyllgor hefyd nad oedd yn briodol adolygu statws y Gymraeg fel pwnc gorfodol ar hyn o bryd, a bod angen mwy o amser cyn y gellid gwneud dadansoddiad cywir o'r tueddiadau a gwerthuso'r polisi.

15.30 Roedd cefnogaeth i'r gred mai'r ffordd fwyaf effeithiol o ddysgu iaith oedd trwy ei defnyddio fel cyfrwng i ddysgu pynciau eraill. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gellid gwella cyrhaeddiad yn y Gymraeg, pe rhoddid mwy o sylw i ddefnydd rhyngweithiol o'r iaith, a gwaith llafar yn bennaf. Awgrymwyd y gallai Addysg Gorfforol, celf, drama a cherddoriaeth fod yn bynciau priodol.

15.31 Darparwyd nifer o enghreifftiau o arferion da mewn patrymau cwricwlaidd blaengar ar gyfer cyflwyno'r Gymraeg yn effeithiol drwy ychydig bach o ddysgu dwyieithog mewn pynciau ar wahân i Gymraeg.

15.32 Nodwyd bod 'dysgu dwyieithog' yn ymwneud â llawer o wahanol amcanion a dulliau gweithredu. Mae angen canolbwyntio o ganlyniad ar ddealltwriaeth glir o ystyr y term. Mae un dull dysgu dwyieithog yn caniatáu i ddisgyblion dderbyn eu haddysg yn eu dewis iaith, gyda darpariaeth ar wahân, naill ai yn yr un dosbarth neu ar wahân, mewn Cymraeg a Saesneg. Mae dull arall yn ceisio datblygu sgiliau dwyieithog pob myfyriwr, naill ai trwy sesiynau uniaith yn y ddwy iaith, neu trwy ddulliau sy'n defnyddio'r ddwy iaith fel cyfrwng deuol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ddysgu yn yr ystafell ddosbarth trwy gyfrwng y Saesneg, ac asesu cyfrwng Cymraeg ar gyfer y rhai hynny sy'n gofyn amdano, neu gyflwyniadau llafar yn y Gymraeg, a gwaith ysgrifenedig ac asesiadau yn Saesneg. Ffordd gysylltiedig o ddatblygu sgiliau dwyieithog disgyblion, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan Dr Cen Williams, yw 'trawsieithu', lle mae gwybodaeth yn cael ei derbyn mewn un iaith trwy sgiliau goddefol gwrando neu ddarllen, ac yna'n cael ei defnyddio, trwy sgiliau gweithredol siarad neu ysgrifennu, mewn iaith arall. Mae papur trafod Estyn, *Datblygu llythrennedd deuol (2002)* yn ddefnyddiol yn hyn o beth.

15.33 Clywodd y Pwyllgor hefyd am fanteision posibl asesiadau deuol o sgiliau ieithyddol disgyblion yn y Gymraeg. Awgrymwyd y gellid mabwysiadu dull gweithredu o'r fath er mwyn mesur cyrhaeddiad disgyblion ar raddfa ail iaith a'u cyrhaeddiad cyfatebol ar y raddfa iaith gyntaf. Byddai'r asesiad deuol hwn yn:

- Gwobrwyo ymdrechion a llwyddiant dysgwyr ail iaith a'u hathrawon;
- Cynyddu'r disgwyliadau i ddisgyblion wneud mwy o gynnydd ac ennill cydnabyddiaeth ar y raddfa iaith gyntaf;
- Darparu strwythur clir ar gyfer y sector uwchradd er mwyn adeiladu ar y cynnydd a wnaethpwyd yn y sector cynradd; ac

- Annog rhieni i gefnogi'r Gymraeg yn y cwricwlwm hyd at 16 oed.

15.34 Fodd bynnag, dywedodd Estyn wrth y Pwyllgor nad oedd digon o waith ymchwil wedi ei wneud i'r posibilrwydd o gynnig achrediad deul, yn enwedig ar lefel TGAU.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

- **Yn ystod yr adolygiad o gwricwlwm ysgolion a threfniadau asesu a fydd yn cael ei wneud, ac yng ngoleuni'r adolygiad arfaethedig o addysg 14 i 19 oed, dylai ACCAC gynnwys adolygiad trylwyr o'r Gymraeg mewn addysg, yng nghyswllt rhaglenni astudio a lefelau cyrhaeddiad mewn Cymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith, er mwyn canfod a yw'r trefniadau presennol yn rhai priodol er mwyn helpu pobl ifanc i ddysgu'r iaith.**
- **Dylai AALLau ac ysgolion ystyried ffyrdd o wella safonau mewn Cymraeg ail iaith, gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu canllawiau clir.**
- **Dylid cael ymrwymiad i leihau nifer y disgyblion nad ydynt yn sefyll unrhyw arholiad mewn Cymraeg fel ail iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.**
- **Dylai ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg ddatblygu polisiau ar gyfer gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu mewn pynciau priodol, gan ystyried cyfarwyddyd priodol, dymuniadau rhieni, a'r staff gyda hyfforddiant addas sydd ar gael.**
- **Dylid datblygu llythrennedd deul a nodweddion eraill dulliau dysgu dwyieithog a gwneud mwy o ddefnydd ohonynt yn y sector cynradd ac uwchradd, yn dilyn ymgynghoriad llawn. Dylai hyn gynnwys cyfarwyddyd perthnasol a hyfforddiant mewn swydd ar gyfer staff dysgu.**
- **Dylid gwneud ymchwil drylwyr i ymarferoldeb mesur hyfedredd disgyblion mewn Cymraeg ar hyd continwmm ieithyddol.**

Trochi Hwyrach

15.35 Dangosodd y dystiolaeth ddiffyg hyblygrwydd y fframwaith presennol a'r rhwystrau sydd ar ffordd y rhai hynny sy'n dymuno 'eithrio i mewn' i addysg cyfrwng Cymraeg ar ôl i'r dewisiadau cychwynnol gael eu gwneud yn gynnar iawn yn addysg plentyn. Tynnwyd sylw at yr angen i sicrhau mwy o bwyntiau mynediad i'r sector cyfrwng Cymraeg, a thrafodwyd rhaglenni a oedd wedi eu hanelu at ddarparu trochi hwyrach yn yr iaith. Clywodd y Pwyllgor am un ysgol yn y gogledd sydd wedi gweithredu rhaglen o'r fath yn llwyddiannus iawn dros nifer o flynyddoedd, a chlywodd fod cynlluniau eraill yn cael eu datblygu ar hyn o bryd gyda'r bwriad o gynnig darpariaeth Gymraeg ddwys. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ychwanegol gan yr Athro Joan Netten a'r Athro Claude Germain am gynlluniau peilot y rhaglen Ffrangeg Creiddiol Dwys mewn rhannau o Ganada.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

- **Dylid sefydlu ac ariannu prosiectau peilot sy'n cyflwyno'r Gymraeg am gyfnodau dwys a chynyddu nifer y pwyntiau mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg. Dylai'r gwaith ymchwil manwl i ymarferoldeb cyrsiau sy'n seiliedig ar y model Ffrangeg Creiddiol Dwys, a**

wnaethpwyd gan grwp o arbenigwyr o dan gadeiryddiaeth Bwrdd yr Iaith, ddarparu cyfarwyddyd defnyddiol.

Recriwtio, Hyfforddi a Datblygiad Proffesiynol

15.36 Y pryder mwyaf a oedd wrth wraidd nifer o'r sylwadau a wnaethpwyd ynghylch y maes hwn oedd anhawster recriwtio a chadw digon o athrawon i ddysgu Cymraeg, yn enwedig Cymraeg fel ail iaith, ac i ddysgu pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg. Teimlid bod atyniad cyfleoedd eraill am yrfaeod y tu allan i'r proffesiwn dysgu yn ddylanwad pwysig yn hyn o beth. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod yr anawsterau'n ddrwg iawn yn y sector uwchradd, ond bod cael athrawon i gyflwyno'r gydran Gymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 2 hefyd yn faes a oedd yn peri pryder.

15.37 Galwyd am werthusiad o lwyddiant grantiau cymhelliant i ddenu athrawon Cymraeg ac athrawon sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a hefyd am ddatblygu cynlluniau eraill er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o athrawon.

15.38 Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw cael data cywir er mwyn cynllunio strategaethau recriwtio a chadw sydd wedi eu targedu a'u cydlynu. Tynnwyd sylw at rôl Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a'r arolygon a wneir ganddo i'r perwyl hwn.

15.39 Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, cyfeiriodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru at ei rôl yn cefnogi addysg a hyfforddiant cychwynnol (ITET) dwyieithog i athrawon. Nodwyd bod tua £126,000 wedi ei ryddhau gan y Cyngor ar gyfer y prosiect HATT (Hyfforddi Athrawon/Teacher Training) er mwyn datblygu cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion dwyieithog dysgu agored a dysgu o bell yng Nghymru. Mae consortiwm o sefydliadau wrthi'n datblygu'r prosiect hwn. Yn ychwanegol at hyn, cyfeiriodd y Cyngor Cyllido at yr arian a roddir tuag at brosiect ar lefel Cymru gyfan i ddatblygu hyfforddiant ar gyfer mentoriaid cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion.

15.40 Cydnabuwyd llwyddiant Cynllun Colegau Cymru yn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr ITET cynradd ddatblygu eu hyfedredd yn y Gymraeg – a chlywyd galw am fwy o arian er mwyn ymestyn partneriaethau fel bod modd cynnwys ITET uwchradd. Nodwyd bod y graddau y darperir cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn ITET yn amrywio a bod ystyriaethau megis hyfywedd grwpiau dysgu a'r staff cymwysedig sydd ar gael yn cyfyngu ar y ddarpariaeth.

15.41 Pwysleisiwyd gwerth hyfforddiant mewn dulliau dysgu dwyieithog hefyd. Derbyniodd y Pwyllgor doreth o dystiolaeth yn ymwneud â ffyrdd posibl o gynnwys dulliau dysgu dwyieithog yn addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon. Fel y nodwyd uchod (Cymraeg fel ail iaith, a dulliau dysgu dwyieithog), mae 'dysgu dwyieithog' yn cynnwys nifer o wahanol ddulliau ac amcanion. Dysgodd y Pwyllgor y dylai'r ddarpariaeth ITET ddangos dealltwriaeth glir o'r hyn a olygir gan y term, a rhoi sgiliau i athrawon a fydd yn eu galluogi i ddatblygu gallu dwyieithog disgyblion. Ymysg y dulliau a nodwyd yn y cyswllt hwn yr oedd defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg fel cyfryngau deuol, a 'thrawsieithu'.

15.42 Roedd y cynigion ar gyfer cadw'r athrawon presennol yn cynnwys rhannu swyddi a gwaith rhan-amser; nodwyd hefyd bod rhaid ystyried gallu a nifer yr athrawon llanw sydd ar gael.

15.43 Clywodd y Pwyllgor hefyd am botensial ailhyfforddi a rhaglenni hyfforddiant iaith estynedig i athrawon sy'n awyddus i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Soniodd Dr Cen Williams o Brifysgol Cymru, Bangor, wrth y Pwyllgor am y gwaith a wnaethpwyd eisoes yn y gogledd-orllewin rhwng 1989 ac 1996 er mwyn datblygu a chyflwyno cyrsiau trosi ieithyddol a gloywi iaith i athrawon. Cynlluniwyd y

cyrsgiau hyn yn bennaf ar gyfer athrawon ysgolion uwchradd, ond fe'u haddaswyd hefyd ar gyfer nifer fechan o athrawon ysgolion cynradd a nifer o ddarlithwyr yn y sector Addysg Bellach. Roedd y cyrsiau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar annog athrawon i fod yn gyfrifol am eu cywirdeb ieithyddol eu hunain, eu helpu i ddefnyddio'r Gymraeg yn gywir yn eu meysydd pwnc penodol, a chynyddu eu hymwybyddiaeth o ffynonellau cefnogaeth a chyfarwyddyd ieithyddol yn ymwneud â therminoleg.

15.44 Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cynnwys cyfleoedd i hybu datblygiad proffesiynol parhaus cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i ddatblygu fframwaith Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Rhoddwyd rhai enghreifftiau o bartneriaethau llwyddiannus (e.e. gyda Menter a Busnes) wrth ddarparu HMS, ond awgrymwyd hefyd y gellid gwneud mwy o ddefnydd o gonsortia/ trefniadau partneriaeth er mwyn creu grwpiau hyfforddi mwy hyfyw mewn rhai ardaloedd. Dylid gwneud mwy o ddefnydd o gyrsgiau DPP dwys, byr hefyd.

15.45 Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynigion a wnaethpwyd yn *Ymgeisio yn Uwch: Strategaeth ar gyfer y sector addysg uwch yng Nghymru*, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i ariannu cynlluniau peilot ar gyfer cyfnodau sabothol i ddysgu iaith i ymarferwyr, yng nghydestun Cylchoedd Cynllunio'r Gyllideb yn y dyfodol.

- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad gomisiynu Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i wneud archwiliad cynhwysfawr o nifer yr athrawon Cymraeg a chyfrwng Cymraeg sydd ar gael ar hyn o bryd a pha fath o hyfforddiant sydd ei angen er mwyn cwrdd â'r galw disgwylidig.**

15.46 Cydnabyddir y bydd maint y prinder presennol a'r nifer gyfyngedig o bobl y gellir eu recriwtio i'r proffesiwn dysgu yn cyfyngu rhywfaint ar y sefyllfa yn hyn o beth. Dylid rhoi sylw penodol felly i rôl ailhyfforddi er mwyn gwella sgiliau iaith athrawon sy'n gallu siarad Cymraeg ond nad oes ganddynt yr hyder i ddefnyddio'r iaith yn eu meysydd pwnc.

- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad ystyried ariannu, yng nghydestun cylchoedd cynllunio'r gyllideb yn y dyfodol, cyflwyno cynlluniau peilot ar gyfer cyfnodau sabothol i ddysgu iaith ym mhob sector, er mwyn cynyddu nifer yr ymarferwyr sydd ar gael i ddysgu Cymraeg ac i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.**
- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru gynnwys DPP cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i ddatblygu fframwaith DPP cenedlaethol.**

Deunydd Dysgu ac Addysgu

15.47 Cyfeiriwyd dro ar ôl tro at bwysigrwydd darparu deunydd Cymraeg a dwyieithog, sydd o'r un safon ac ansawdd â'r rhai sydd ar gael yn Saesneg. Cydnabuwyd y gwaith da sydd wedi ei wneud gan ACCAC wrth ddarganfod anghenion, a chan CBAC wrth gynhyrchu deunyddiau, ond mynegwyd rhywfaint o bryder ynghylch comisiynu a pharatoi cyhoeddiadau o fewn yr amserlenni y gofynnwyd amdanynt.

15.48 Clywodd y Pwyllgor am yr angen i gydlynu mwy ar y gwaith o gynhyrchu deunyddiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Roedd angen strategaeth er mwyn darganfod anghenion, ac ymateb iddynt, ym mhob cyfnod yn y broses addysgol ar lefel genedlaethol. Dywedwyd bod cynhyrchu a marchnata mewn cymdeithas dorfol (lle ceir cystadleuaeth rhwng canolfannau a chyflenwyr) yn hollol wahanol i

sefyllfaoedd ieithoedd lleiafrifol lle mae prinder deunyddiau. Dylid rhoi pwyslais ar resymoli cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth yn well.

15.48 Roedd ymwybyddiaeth o'r potensial ar gyfer datblygu TGCh mewn dau brif faes:

- Gwella proffil y Gymraeg o ran ei statws a normaleiddio ieithyddol

Pwysleisiwyd bod yn rhaid i'r Gymraeg gael ei gweld fel iaith fodern fyw. Darparwyd enghreifftiau o arferion da ar lefel leol (e.e. creu gwefannau), a thrafodwyd pa mor ddymunol fyddai datblygu'r rhain ar lefel Cymru gyfan;

a

- Chymwysiadau cyfrifiadurol

Tynnwyd sylw at yr angen am fersiynau Cymraeg o feddalwedd addysg diweddar. Croesawyd rôl y Cynulliad o ran cefnogi'r gwaith o gydlynu datblygiad TGCh ym myd addysg.

Roedd angen datblygu safle'r Ganolfan Athrawon Rithwir (VTC Cymru) er mwyn cwrdd ag anghenion athrawon yng Nghymru.

Disgwylid yn eiddgar am lansiad Cwricwlwm Digidol y BBC, ond mynegwyd amheuaeth ynghylch addasrwydd technoleg band llydan mewn ardaloedd gwledig Cymraeg eu hiaith.

- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai ACCAC wneud adolygiad ar lefel genedlaethol o'r broses o ddarganfod ac ymateb i'r angen am ddeunyddiau dysgu ac addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.**
- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Panel Ymgynghorol TGCh, a sefydlwyd gan Weinidog y Cynulliad mewn ymateb i adolygiad polisi'r Pwyllgor o TGCh mewn addysg, chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau bod TGCh (gan gynnwys fideogynadleda ac e-ddysgu) yn cael ei ddefnyddio er mwyn ymestyn y pynciau academaidd a galwedigaethol sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.**

GYRFAEODD

16.1 Tynnodd y dystiolaeth yn ymwneud â gyrfaoedd sylw at y themâu a ganlyn:

- Yr angen am barhad ieithyddol rhwng ysgol a gwaith;
- Dwyieithrwydd fel sgil ychwanegol yn gysylltiedig â gwaith;
- Dwyieithrwydd fel ased sy'n ychwanegu gwerth i fusnesau; a
- Chyfraniad cyflogwyr a gweithwyr lleol i gynaliadwyedd cymunedau.

16.2 Clywodd y Pwyllgor fod angen strategaethau clir a chydlynol ar gyfer casglu a rhannu gwybodaeth am yrfaeodd lle mae angen sgiliau dwyieithog. Gwelwyd bod hyn yn golygu marchnata dwyieithrwydd fel sgil sy'n gysylltiedig â gwaith i ddisgyblion mewn addysg uwchradd.

16.3 Cyflwynodd Menter a Busnes nifer o enghreifftiau o arferion da cyfredol. O fewn yr amcan cyffredinol o hybu datblygu economaidd yng Nghymru, gwelid cynyddu ymwybyddiaeth siaradwyr Cymraeg o gyfleoedd gyrfaol lle gellir datblygu a defnyddio eu sgiliau dwyieithog fel agwedd bwysig iawn ar eu gwaith. Un o brif nodweddion cynllun Gorwelion Menter a Busnes, sy'n ceisio ehangu gorwelion o ran gwerth sgiliau dwyieithrwydd yn y gweithle, yw ei fod yn cydweithio'n agos â gweithwyr, ysgolion a Gyrfa Cymru i ddarganfod pa sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y gweithle. Arf gwerthfawr er mwyn gwella gwybodaeth am y cyfleoedd gyrfaol sydd ar gael yn y gymuned leol yw'r Swyddiadur, a'r fersiwn cyfatebol ar y we, JobsCymru.com. Ymhlith enghreifftiau eraill o'u partneriaeth gyda byd addysg y mae cyhoeddi deunyddiau dysgu ar gyfer cyrsiau Busnes mewn ysgolion, a rhaglenni HMS sy'n cael eu cyflwyno mewn partneriaeth â CYDAG, gyda'r bwriad o rannu gwybodaeth am y Gymraeg yng nghyd-destun gwaith gydag athrawon Cymraeg fel ail iaith.

16.4 Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynlluniau hyn i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fenter a busnes yn gyffredinol ac i ehangu gorwelion o ran gwerth sgiliau dwyieithog yn y gweithle. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod gwaith y Partneriaethau Addysg Busnes a'r Consortia Cymunedol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yn hyrwyddo'r ffaith bod angen i bobl ddatblygu eu sgiliau, yn enwedig sgiliau sy'n berthnasol i anghenion y gymuned leol. Mae datblygu sgiliau yn y Gymraeg yn cael ei ystyried yn elfen bwysig o weithgaredd o'r fath.

16.5 Mae'r Pwyllgor yn croesawu Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth Cymru 2002 a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Diben y cynllun yw darparu fframwaith strategol ar gyfer polisïau a rhaglenni yn y maes hwn a rhoi manylion am y camau penodol sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid er mwyn gwella'n sgiliau a'n lefelau cyflogaeth. Lluniwyd yr agweddau ar y cynllun sy'n ymwneud â dysgu er mwyn integreiddio'r strategaeth gorfforaethol sy'n cael ei datblygu gan y Cyngor Cenedlaethol – ELWa a'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch. Mae'r cynllun yn ategu polisïau a chynlluniau *Y Wlad sy'n Dysgu a Cymru'n Ennill*. Partneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru, sydd o dan gadeiryddiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n gyfrifol am weithredu'r cynllun, ac mae'n cynnwys yr holl gyrff perthnasol gan gynnwys y Cyngor Cenedlaethol – ELWa, Gyrfa Cymru, ACCAC, Estyn, Fforwm a llawer mwy.

16.6 Mae'r Pwyllgor yn cydnabod gwaith y Partneriaethau Addysg Busnes a'r Consortia Cymunedol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yn hyrwyddo'r ffaith bod angen i bobl ddatblygu eu sgiliau, gan gynnwys defnyddio'r iaith Gymraeg, er mwyn cwrdd ag anghenion cyflogwyr. Mae'r Consortia

Cymunedol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yn bwysig iawn gan eu bod yn helpu i ddatblygu sgiliau sy'n berthnasol i anghenion eu cymuned leol.

- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r bartneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru lunio strategaeth glir a chydlynol ar gyfer casglu a rhannu gwybodaeth am yrfaeodd lle mae angen sgiliau dwyieithog.**

ADDYSG A HYFFORDDIANT ÔL-16

Addysg Bellach a Hyfforddiant Galwedigaethol

17.1 Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad yw addysg ôl-16 yng Nghymru yn llwyddo i ddarparu parhad ieithyddol i ddisgyblion sy'n derbyn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

17.2 Ers Ebrill 2001, y Cyngor Cenedlaethol - ELWa sy'n gyfrifol am ariannu, cynllunio, sicrhau a hyrwyddo addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru (ac eithrio Addysg Uwch). Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor dywedodd y Cyngor Cenedlaethol - ELWa:

“Ar ôl buddsoddi'n drwm mewn addysg Gymraeg a chyfrwng Cymraeg fel rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol, mae'n hanfodol fod darpariaeth ar gael i fyfyrwyr wrth iddynt drosglwyddo i'r sector ôl-16.

[...]Yr un mor bwysig yw ceisio mynd i'r afael â'r gostyngiad mewn cyfranogiad ar wahanol gamau mewn addysg ddwyieithog gan fod myfyrwyr yn teimlo nad yw o unrhyw werth iddynt aros yn y system iaith Gymraeg. Bydd angen gwneud gwaith pellach am y rhesymau dros hyn, gan gynnwys effaith bosibl y ddarpariaeth ôl-16 ar gyfranogiad cyn-16.”

17.3 Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod y Cyngor Cenedlaethol – ELWa wedi sefydlu Uned Dwyieithrwydd er mwyn datblygu strategaeth ar gyfer cyflwyno addysg a hyfforddiant ôl-16 cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

17.4 Roedd data ystadegol a ddarparwyd gan y Cyngor Cenedlaethol - ELWa yn cynnwys yr arsylwadau canlynol:

17.5 Mae'r ddarpariaeth ddwyieithog/cyfrwng Cymraeg ehangaf wedi'i chanoli mewn chwe sefydliad yn y gogledd a'r gorllewin; ac

17.6 Mae nifer y myfyrwyr cofrestredig sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg wedi cynyddu, ond fel cyfran o'r holl fyfyrwyr a gofrestrwyd ar y cyrsiau hyn mae'r nifer a aseswyd yn y Gymraeg / yn ddwyieithog wedi disgyn. Mae mwy o fanylion ystadegol i'w gweld yn Atodiad 1A ym mhapur y Cyngor Cenedlaethol.

17.7 Cyfeiriodd y Cyngor Cenedlaethol - ELWa at dair prif ffynhonnell data a gwybodaeth ynghylch y ddarpariaeth ôl-16:

- *Cyllido'r ddarpariaeth Addysg Bellach Ddwyieithog a Chymraeg (Ymchwil gan Ganolfan Bedwyr ar ran Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru)*

17.8 Dangosodd gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan y Cyngor Cyllido Addysg Bellach ym 1999/2000 nad yw'r fethodoleg bresennol ar gyfer ariannu darpariaeth Addysg Bellach ddwyieithog a Chymraeg yn ysgogi twf. Dyma'r prif resymau dros hyn:

- Prinder adnoddau dysgu;
- Prinder staff sy'n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;

- Y flaenoriaeth isel a roddir i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- Chanfyddiadau'r myfyrwyr (pwysau cyfoedion, angen mwy o ymdrech oherwydd prinder deunyddiau, nifer gyfyngedig o brofion ac arholiadau yn y Gymraeg, diffyg hyder yn eu gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg).

17.9 Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith y bydd argymhellion yr adroddiad yn cael eu hystyried wrth ddatblygu system gyllido genedlaethol newydd y Cyngor Cenedlaethol - ELWa ac wrth ddatblygu strategaeth y Cyngor Cenedlaethol.

- *Parhad mewn Addysg Cyfrwng Cymraeg (Bwrdd yr Iaith Gymraeg 1998)*

17.10 Dangosodd astudiaeth mai ychydig dros 2% o fyfyrwyr mewn sefydliadau Addysg Bellach a gafodd asesiad ffurfiol yn y Gymraeg ym 1996-97 (ni ddarparwyd ffigyrau ar gyfer myfyrwyr chweched dosbarth).

- *Astudiaeth o'r Angen am Sgiliau Iaith Cymraeg/Dwyieithog mewn Mentrau Bach a Chanolig yng Ngogledd Cymru ac Awgrymiadau ar gyfer Datblygiad a Hyfforddiant Adnoddau Dynol mewn perthynas â'r Gymraeg (Cwmni Iaith ar gyfer Celtec, 2001)*

17.11 Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad yw cefnogaeth ar gyfer hyfforddiant cyfrwng Cymraeg wedi bod yn effeithiol, ac nad yw wedi ei darparu yn ôl y galw. Gwelwyd nad oedd darparwyr yn aml yn cynnig hyfforddiant Cymraeg. Roedd galw am sgiliau iaith mewn busnes, ond ni ddarperid y math o hyfforddiant Cymraeg a oedd yn ofynnol i gwrdd ag anghenion yr economi.

17.12 Nodwyd hyfforddiant galwedigaethol fel maes sydd angen llawer o waith i'w ddatblygu yn y sector ôl-16. Un o'r prif resymau am hyn yw bod cymwysterau galwedigaethol yn paratoi pobl ifanc yn uniongyrchol ar gyfer y gweithle. Yn ychwanegol at hyn, myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau galwedigaethol yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o aros yn eu hardaloedd ac ymuno â'r gweithlu lleol.

17.13 Dyma'r prif nodweddion yr oedd angen edrych yn fanylach arnynt:

- Dulliau o ddarganfod yr angen gyda golwg ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog; h.y. strategaethau a ddefnyddir er mwyn cael data cywir am y sgiliau y mae ar gyflogwyr eu hangen;
- Marchnata'r ddarpariaeth a gynigir; a
- Lledaenu gwybodaeth am gyflogaeth lle mae angen sgiliau dwyieithog.

17.14 Awgryma tystiolaeth anecdotaidd fod colegau Addysg Bellach yn ei chael yn anodd iawn recriwtio staff sydd â sgiliau iaith priodol i'w galluogi i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog mewn rhai meysydd galwedigaethol. Tynnwyd sylw at yr angen am ffordd o asesu'n fanwl faint o staff gyda chymwysterau addas sydd eu hangen. Clywodd y Pwyllgor mai dim ond yn ddiweddar y dechreuwyd rhoi sylw i ddulliau dysgu dwyieithog a dealltwriaeth o anghenion y sefyllfa ddysgu ddwyieithog wrth hyfforddi darlithwyr a hyfforddwyr. Er hyn, soniodd Dr Cen Williams, o Brifysgol Cymru, Bangor, wrth y Pwyllgor am y gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu sgiliau dysgu mewn sefyllfaoedd dwyieithog. Roedd hyn yn cynnwys dod ag enghreifftiau o ddulliau dysgu dwyieithog a ddefnyddir mewn colegau Addysg Bellach at ei gilydd, a nodi enghreifftiau o arferion da i'w dosbarthu'n ehangach.

17.15 Dywedodd Sgiliaith wrth y Pwyllgor am ei rôl yn cynnig sesiynau hyfforddiant mewn dulliau dysgu dwyieithog. Clywodd y Pwyllgor hefyd fod FENTO, y corff sy'n cynnig cyfarwyddyd ynghylch safonau a hyfforddiant yn y sector Addysg Bellach, wedi comisiynu gwaith er mwyn addasu safonau dysgu Addysg Bellach ar gyfer dysgu yn y sefyllfa ddwyieithog.

17.16 Nodwyd llawer o wendidau o ran y deunyddiau cyfrwng Cymraeg a oedd ar gael yn y sector hwn. Clywodd y Pwyllgor am ddau brosiect – y prosiect deunyddiau cyfrwng Cymraeg ar y we gan Dysg a'r Prosiect NVQs cyfrwng Cymraeg gan y Cynulliad Cenedlaethol – ar y cyd â Sgiliaith. Mae'r rhain yn ymwneud â pharatoi adnoddau, terminoleg a chyfieithu manylebau, ynghyd â marchnata deunyddiau a chyfarwyddyd ynghylch sut i'w defnyddio. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod rhannu arian prin rhwng tri chorff yn gryn rwystr i ddatblygiad effeithiol yn y maes, a bod cydlynu a chynllunio ar gyfer y dyfodol yn anodd.

17.17 Clywodd y Pwyllgor fod sefydliadau Addysg Bellach yn cael problemau yn aml gyda manylebau a phapurau arholiad pob corff dyfarnu ar wahân i CBAC. Bydd manylebau Cymraeg yn aml yn ymddangos gryn dipyn ar ôl y fersiwn Saesneg gyfatebol, ac ambell waith bydd papurau arholiad Cymraeg yn cael eu hanfon i'r canolfannau ar ffurf ffacs ar ddiwrnod yr arholiad.

17.18 Cyfeiriwyd dro ar ôl tro at bwysigrwydd manteisio ar botensial TGCh er mwyn hybu a chydlynu addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-16. Ystyrid bod y posibiladau'n berthnasol i addysg myfyrwyr a hefyd i ledaenu arferion da ac anghenion hyfforddi staff. Clywodd y Pwyllgor gan y Coleg Digidol a Phrifysgol Diwydiant Cymru am ddatblygiadau cyfredol mewn e-ddysgu. Mae'r technolegau sy'n datblygu yn cynnig cryn botensial ar gyfer cynyddu mynediad a gwella amrediad y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Yn ychwanegol at hyn, amlinellwyd y cyfleoedd i Gonsortia Addysg a Hyfforddiant Cymunedol gynyddu eu darpariaeth ddwyieithog drwy wneud cymaint o ddefnydd ag sy'n bosibl o'r adnoddau sydd ar gael.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Cyngor Cenedlaethol - ELWa:

- **Sicrhau bod addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael eu datblygu o fewn fframwaith strategol, sy'n ystyried pwysigrwydd:**
 - **Partneriaethau lleol wrth ymateb i angen lleol;**
 - **Gwneud darparwyr yn ymwybodol o ofynion y Cyngor Cenedlaethol - ELWa a gofynion cyflogwyr; a**
 - **Chynyddu ymwybyddiaeth o fanteision sgiliau dwyieithog ymhlith dysgwyr.**
- **Sicrhau bod y gwaith a gomisiynwyd gan FENTO i addasu safonau dysgu mewn Addysg Bellach ar gyfer y sector dwyieithog yn cael sylw helaeth ac yn cael ei fabwysiadu gan sefydliadau;**
- **Mabwysiadu dull gweithredu strategol, sy'n seiliedig ar ddata dibynadwy, ar gyfer recriwtio, hyfforddi ac ailhyfforddi staff i ddysgu'n ddwyieithog a thrwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector Addysg Bellach;**
- **Datblygu'r potensial a gynigir gan TGCh i sefydlu dulliau effeithiol o:**
 - **Alluogi dysgwyr i gael cymaint o fudd ag sy'n bosibl o'r adnoddau sydd ar gael;**
 - **Lledaenu enghreifftiau o arferion da;**

- **Darganfod yr angen am siaradwyr Cymraeg yn y gweithle; a**
- **Marchnata darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg.**

Addysg Uwch

17.19 Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru fod nifer y cofrestriadau cyfrwng Cymraeg a gofnodwyd wedi aros yn weddol sefydlog yn ystod y pum neu chwe blynedd diwethaf, sef yr hyn sy'n cyfateb i 1,000 o fyfyrwyr llawn amser. Mae'r Cyngor Cyllido'n cynnig cefnogaeth i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes Addysg Uwch mewn tair prif ffordd:

- premiwm cyfrwng Cymraeg;
- cronfa darpariaeth cyfrwng Cymraeg; a
- Bwrdd Prifysgol Cymru ar gyfer Dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

17.20 Telir y premiwm cyfrwng Cymraeg ar gyfer myfyrwyr sy'n cofrestru ar gyrsiau a modwlau cyfrwng Cymraeg, ac mae'n cyfateb i bwysiad o 0.26 ar yr uned adnodd safonol. Dyrannwyd cyfanswm o £1.1 miliwn yn 2001-02 i ddeg sefydliad, tri yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Awgrymodd y Cyngor Cyllido Addysg Uwch mai'r rheswm dros y cynnydd hwn oedd bod sefydliadau'n gweld mantais cofnodi eu cofrestriadau cyfrwng Cymraeg yn gywir er mwyn bod yn gymwys i dderbyn y premiwm a hefyd y gronfa darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ar gyfer myfyrwyr sydd ar gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon y mae cyfran helaeth o'r dyraniadau premiwm. Fel y nodwyd gan y Cyngor Cyllido, lluniwyd y premiwm er mwyn darparu ar gyfer y costau sy'n gysylltiedig â darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a hefyd er mwyn annog sefydliadau i gynyddu a datblygu'r ddarpariaeth hon lle bynnag y bo hynny'n bosib. Sefydlwyd y gronfa darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn 2000-01. Dyrennir arian i sefydliadau ar sail cyfartaledd y cofrestriadau cyfrwng Cymraeg. Mae angen strategaethau ar gyfer cynnal, datblygu ac ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn y rhyddheir yr arian hwn. Sefydlwyd Bwrdd Prifysgol Cymru ar gyfer Dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2000 ar ran y sector Addysg Uwch yn ei gyfanrwydd. Ei bwrpas yw cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, ac ehangu amrediad y ddarpariaeth sydd ar gael. Ei brif weithgareddau yw hybu a marchnata darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddarpar fyfyrwyr, annog mwy o weithio ar y cyd yn y sector, a datblygu darpariaeth newydd.

17.21 Yn ystod Adolygiad y Pwyllgor o'r Polisi ar Addysg Uwch, cyflwynwyd tystiolaeth gan Fwrdd Prifysgol Cymru ar gyfer Dysgu drwy Gyfrwng y Gymraeg (Y Bwrdd). Cyflwynodd y Bwrdd ei gynigion ar gyfer datblygu'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a chyflwyno o fewn Addysg Uwch. Cynigiodd y Bwrdd y dylid sefydlu Canolfan Rithwir Genedlaethol ar gyfer Dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym maes addysg uwch. Dyma'i phrif nodweddion:

- Staff wedi eu lleoli mewn colegau sy'n bodoli'n barod, ac yn defnyddio TGCh i gyfathrebu; a
- Gwasanaethau'n cael eu cynnig i'r sector cyfan, yn hytrach nag i ychydig o sefydliadau o fewn y sector hwnnw.

17.22 Byddai'r pwyslais mwyaf ar gynorthwyo staff sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i drefnu eu deunyddiau dysgu ar ffurf pecynnau fel bod modd i fyfyrwyr mewn sefydliadau eraill eu defnyddio. Un o'i chryfderau fyddai osgoi dyblygu adnoddau ac arbenigedd staff.

17.23 Yn ei adroddiad ar Addysg Uwch, cefnogodd y Pwyllgor gynigion y Bwrdd a gwahoddodd Gweinidog y Cynulliad y Bwrdd i gyflwyno mwy o wybodaeth ynghylch y costau tebygol. Yn *Ymgeisio yn Uwch: Strategaeth ar gyfer y sector addysg uwch yng Nghymru*, dywed Gweinidog y Cynulliad y bydd y camau a ganlyn yn cael eu cymryd:

- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i gomisiynu adroddiad ar y galw a'r cyflenwad presennol mewn addysg uwch cyfrwng Cymraeg;
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i gynnal trafodaethau gyda'r Bwrdd Dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg; ac
- Arian ar gyfer ymarferwyr, gan gynnwys cynllun peilot yn cynnig cyfnod sabothol i ddysgu iaith.

17.24 Mae'r Bwrdd wedi sefydlu gweithgor i edrych yn fanylach sut y gallai gwaith y Ganolfan Genedlaethol fod yn rhan o strategaeth ehangach ar gyfer datblygu dysgu yn y Gymraeg. Yn dilyn cyfarfod cyntaf y gweithgor yn Chwefror 2002 ac yng ngoleuni ymgynghori ehangach, gwnaethpwyd addasiadau i'r cynllun gwreiddiol. Tynnwyd sylw yn y trafodaethau hyn at bwysigrwydd diogelu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg bresennol yn Aberystwyth, Bangor a Choleg y Drindod, Caerfyrddin cyn ceisio ymestyn y ddarpariaeth ar draws y sector.

17.25 Yn ystod yr adolygiad polisi hwn, canolbwyntiodd tystiolaeth y Bwrdd ar y pedwar maes isod:

- *Gostwng lefelau staffio yn y ganolfan;*

Cytunwyd y dylid ailgyfeirio rhywfaint o'r arian o'r Ganolfan a'i ddefnyddio i gryfhau sefyllfa staff cyfrwng Cymraeg yn y sefydliadau. Byddai hyn yn cael ei wneud trwy ddiddymu rhai swyddi yn y Ganolfan.

- *Ymestyn cynlluniau Doethuriaethau a Chymrodoriaethau;*

17.26 Byddai cynnydd yn y niferoedd sy'n derbyn Cymrodoriaethau a Doethuriaethau yn arwain at fwy o gynnydd yn y cyflenwad o staff cyfrwng Cymraeg ac yn y cyrsiau a ddarperir.

- *Newidiadau strwythurol*

17.27 Byddai addasiadau'n ceisio sicrhau bod:

- Lle canolog i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhrosesau cynllunio sefydliadau;
- Cynnydd yn nifer y darlithwyr cyfrwng Cymraeg;
- Cydlynu twf ar lefel genedlaethol; a
- Digon o arian ar gael.

17.28 Byddai arbedion a wneid drwy ostwng lefelau staffio yn y Ganolfan Genedlaethol yn rhyddhau arian ar gyfer y cynlluniau Doethuriaethau a Chymrodoriaethau, a thrwy hynny'n datblygu cnewyllyn o ddarlithwyr cyfrwng Cymraeg.

17.29 Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd i gefnogi creu coleg ffederal cyfrwng Cymraeg, gyda changhennau mewn mwy nag un safle daearyddol. Byddai angen cynnydd sylweddol yn nifer y darlithwyr cyfrwng Cymraeg dros gyfnod byr ar gyfer hyn: awgrymwyd 200 darlithydd ychwanegol o fewn 5 mlynedd. Roedd y Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth debyg yn gynharach yn ystod ei adolygiad polisi o addysg uwch ond, ar ôl ystyried y mater yn ofalus, penderfynodd beidio â chefnogi'r cynnig hwn.

17.30 Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r strategaeth ar gyfer addysg uwch a gyhoeddwyd gan y Gweinidog yn ddiweddar - *Ymgeisio yn Uwch* - ac yn nodi y bydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn cynnal gwerthusiad o'r galw a'r cyflenwad. Mae hyn yn cynnwys targed o gynyddu cyfran y myfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch Cymreig sy'n dilyn rhyw ran o'u cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg o'r ganran bresennol o 3% i 7% erbyn 2010.

- **Mae'r Pwyllgor yn cefnogi cynigion diwygiedig y Bwrdd mewn egwyddor, yn enwedig gyda golwg ar gynyddu nifer y Cymrodoriaethau a'r Doethuriaethau, er mwyn sicrhau twf sylweddol mewn dysgu cyfrwng Cymraeg. O ran rhoi'r cynigion hyn ar waith, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid comisiynu HEFCW i ystyried y cynigion hyn yn fwy manwl; i edrych ar gost ac ymarferoldeb y cynigion; ac adrodd i Weinidog y Cynulliad.**

Cymraeg i Oedolion

17.31 Darperir Cymraeg i Oedolion gan nifer o wahanol ddarparwyr: colegau Addysg Uwch ac Addysg Bellach, AALlau a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr. Cydlynir y rhain o fewn cyfanswm o wyth Consortiwm Cymraeg i Oedolion, sy'n seiliedig ar ffiniau'r hen siroedd. Mae'r Consortia'n darparu ffordd o ledaenu gwybodaeth ymysg trefnwyr, sefydliadau, tiwtoriaid a dysgwyr, ac yn ceisio sicrhau mwy o gydweithio rhwng y gwahanol ddarparwyr. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gyfrifol am gadw golwg strategol ar y maes, ac mae'n cyflogi un swyddog llawn-amser i wneud y gwaith hwn. Mae'r swyddog hwn yn gweithio gyda'r Cyngor Cenedlaethol - ELWa i ddatblygu cynlluniau strategol y Consortia a materion yn ymwneud â marchnata, nawdd ariannol ac ymchwil. Mae Swyddog Arholiadau Cymraeg i Oedolion wedi bod yn gweithio i CBAC ers mis Medi 2001, gan ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddatblygu arholiadau ar bum lefel o fewn y Fframwaith Cymwysterau Ewropeidd a fframwaith ALTE (Cymdeithas Profwyr Iaith yn Ewrop).

17.32 Daw'r holl arian ar gyfer y ddarpariaeth Gymraeg i Oedolion gan y Cyngor Cenedlaethol - ELWa. Mae'r cyllid presennol yn £3.1 miliwn y flwyddyn. Dyrennir £100,000 i gefnogi gweithgareddau'r Swyddog Datblygu, y Swyddog Arholiadau a'r prosiect ALTE, a darpariaeth arholiadau CBAC. Dyrennir arian ar sail pwysiad o 1.25 (1.0 ar gyfer darpariaeth, 0.2 ar gyfer datblygu a 0.05 ar gyfer y Consortia). Mae hyn yn cymharu â phwysiad rhaglen ardal o 1.5 ar gyfer Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL). Mynegwyd pryder ynghylch yr anghysondeb hwn. Teimlid bod cynyddu'r pwysiad i 1.5 yn y tymor byr a chyllido teg o ganlyniad i'r arolwg presennol o'r Dull Cyllido Rheolaidd yn hanfodol os yw'r maes i ddatblygu'n llwyddiannus.

17.33 Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod dysgwyr yn cyrraedd safon uchel, er nad yw hynny'n cael ei adlewyrchu yn y niferoedd sy'n sefyll arholiadau Cymraeg i Oedolion. Mae nifer y dysgwyr wedi cynyddu yn ddiweddar. Roedd cyfanswm o 21,011 o fyfyrwyr wedi cofrestru ar gyrsiau yn 2001, o gymharu â 13,330 yn 1994. Gwelwyd twf amlwg iawn ym maes Cymraeg yn y gweithle.

17.34 Clywodd y Pwyllgor alw dro ar ôl tro am gydnabyddiaeth i statws proffesiynol pobl sy'n gweithio yn y maes. Oherwydd prinder arian yn bennaf, roedd cyfleoedd i ddatblygu gyrfa mewn dysgu

Cymraeg i Oedolion yn brin iawn. Mae'r wyth Consortiwm Cymraeg i Oedolion yn dibynnu i raddau helaeth ar diwtoriaid rhan-amser sy'n cael eu cyflogi fesul awr; mynegwyd yr angen i gynnig sefydlogrwydd a rhagolygon ar gyfer gyrfa, ac i ddarparu cyfleoedd priodol ar gyfer hyfforddiant a datblygiad proffesiynol.

17.35 Galwyd ar i fyfyrwyr sy'n dysgu Cymraeg yn y gwaith gael eu rhyddhau yn ystod oriau arferol, a lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, i gael baich gwaith ysgafnach yn unol â hynny.

17.36 Mynegwyd hefyd yr angen i deilwrio cyrsiau i gyd-fynd ag anghenion ieithyddol penodol gweithwyr yn eu galwedigaethau penodol. Mae angen digon o arian ar gyfer camau o'r fath er mwyn sicrhau'r gwaith ymchwil sydd ei angen a datblygu deunyddiau.

17.37 Dywedwyd wrth y pwyllgor bod angen cydlynu cenedlaethol. Byddai hyn yn golygu bod modd gwneud gwelliannau pwysig yn y meysydd a ganlyn:

- Datblygu gweithgareddau marchnata a chyhoeddusrwydd;
- Datblygu adnoddau dysgu ac addysgu;
- Hyfforddi staff; a
- Datblygu'r Gymraeg yn narpariaeth y gweithle.

17.38 Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai Canolfan Rithwir yn helpu i sicrhau cydlynu mawr ei angen ar lefel genedlaethol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

- **Dylai'r adolygiad o'r strwythur cyllido, sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y Cyngor Cenedlaethol – ELWa, ystyried yr angen i ddatblygu sgiliau proffesiynol ymarferwyr a hybu strwythur gyrfaol clir.**
- **Dylai'r Cyngor Cenedlaethol - ELWa geisio mabwysiadu dull gweithredu cydlynol ar gyfer Cymraeg i Oedolion.**
- **Dylid sefydlu Canolfan Rithwir, gan ddibynnu faint o arian sydd ar gael, gyda'r bwriad o ddatblygu Cymraeg i Oedolion o fewn y sector ôl-16 ehangach.**

ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG (AAA)

18.1 Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o bwysigrwydd darpariaeth AAA cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fel mater o gyfle cyfartal, ac yn cefnogi'r gred bod gan ddisgyblion hawl i gael y ddarpariaeth hon yn yr iaith a ddewisant.

18.2 Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan nifer o wahanol sefydliadau ac ymarferwyr, gan gynnwys y sector gwirfoddol, AALLau a chyrff proffesiynol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod prinder arbenigwyr yn gyffredinol – therapyddion iaith, seicolegwyr ac eraill – ond bod y prinder hwn yn waeth yn achos y rhai hynny sydd angen darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

18.3 Mynegwyd pryder ynghylch yr amrywiadau sylweddol yn y ddarpariaeth sydd ar gael mewn gwahanol rannau o Gymru. Ychwanegir at y prinder gweithwyr proffesiynol dwyieithog gan brinder deunyddiau i ddiagnosisio ac asesu anghenion disgyblion. Fel mewn meysydd eraill y cyfeiriwyd atynt eisoes, clywodd y Pwyllgor fod prinder gwybodaeth fanwl er mwyn canfod maint y broblem. Pwysleisiodd nifer o'r ymatebwyr yr angen am strategaeth genedlaethol gydlynol er mwyn rhoi sylw i'r materion hyn a safoni darpariaeth. Dylai strategaeth o'r fath chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ledaenu enghreifftiau o arferion da a chynllunio'n briodol ar gyfer recriwtio a hyfforddi staff. Awgrymwyd hefyd y byddai sefydlu canolfan adnoddau therapi cyfrwng Cymraeg yn gymorth mawr â'r dasg o rannu adnoddau ac arferion da.

18.4 Roedd dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Mudiad Ysgolion Meithrin yn tynnu sylw at bwysigrwydd darpariaeth AAA briodol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn sector y Blynyddoedd Cynnar. Teimlid bod canfod Anghenion Addysgol Arbennig yn gynnar a chyflwyno'r ddarpariaeth sydd ei hangen yn fuan yn elfennau pwysig o'r gwaith o hybu cynnydd plentyn ar hyd y continwmm ieithyddol.

18.5 Dywedodd Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar Cymru wrth y Pwyllgor fod y prinder therapyddion lleferydd Cymraeg eu hiaith yn ychwanegu at y teimlad y mae pobl ifanc Cymraeg eu hiaith sydd â nam ar eu clyw yn ei gael eu bod yn cael eu cau allan o'u cymunedau lleol, yn enwedig os ydynt yn dibynnu ar ddarllen gwefusau.

18.6 Cyflwynwyd dystiolaeth i'r Pwyllgor gan gynrychiolwyr o'r proffesiwn therapi iaith a lleferydd, yn sectorau'r GIG ac Addysg Uwch. Roedd eu cyflwyniad yn ymwneud â dwy brif agwedd ar ddarparu therapi iaith a lleferydd:

- Y math o ddarpariaeth a gynigir i blant yn y sector addysg a'r sector iechyd; ac
- Addysg a hyfforddiant pobl sy'n gweithio ym maes therapi iaith a lleferydd.

18.7 Clywodd y Pwyllgor fod y ddau faes hyn yn ymwneud â llawer o wahanol bynciau pwysig gan gynnwys recriwtio a chadw staff, rhwydweithiau cefnogi ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a hyfforddi athrawon, cynorthwywyr cefnogi dysgu a therapyddion iaith a lleferydd ar y cyd. Cyfeiriwyd hefyd at yr angen am ymchwil i'r cysylltiad rhwng mathau o anawsterau cyfathrebu a'r gallu i ddatblygu dwy iaith. Roedd posibiladau hefyd ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a materion dwyieithrwydd ymhlith ymarferwyr uniaith a hefyd ar gyfer marchnata a hyrwyddo'r proffesiwn.

18.8 Ystyriodd y Gweithgor Therapi yng Nghymru, grwp a sefydlwyd fel is-grwp i Grwp Ymgynghorol Cymru ar Anghenion Addysgol Arbennig, yr anawsterau a wynebwr wrth ddarparu therapiau effeithiol, gan gynnwys therapi iaith a therapi lleferydd. Ar 24 Ebrill cyflwynodd y Gweithgor Therapi ei ganfyddiadau i Weinidogion y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes a Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

18.9 Ar hyn o bryd, ac o ganlyniad i argymhellion y Gweithgor, mae Grwp Llywio Cymru Gyfan ar gyfer AAA a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd yn ceisio datblygu cynllun gweithredu ar gyfer cyflwyno gwasanaethau therapi iaith a therapi lleferydd yn effeithiol. Cyflwynir y cynllun i Weinidogion y Cynulliad ym Medi 2002. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen yn eiddgar at y canlyniad.

18.10 Mae'r Pwyllgor yn croesawu Prosiect Dyslecsia Cymru, sy'n cael ei ariannu gan y Cynulliad Cenedlaethol, er mwyn datblygu trefniadau profi a fydd yn caniatáu i bob plentyn gael ei brofi yn yr ysgol yn y Gymraeg neu'r Saesneg, p'un bynnag y mae'n ei ffafrio. Bydd hyn yn tynnu sylw at anawsterau dysgu penodol mewn darllen, ysgrifennu a sillafu.

18.11 Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod y Mesur Addysg, sydd ar ei ffordd drwy'r Senedd ar hyn o bryd, yn cynnwys pwerau i alluogi AALLau i gydweithio ar lefel ranbarthol er mwyn cynllunio darpariaeth AAA yn well. Mae'r Mesur Addysg yn darparu, am y tro cyntaf, ar gyfer sefydlu Tribiwnlys AAA ar wahân ar gyfer Cymru. Pan fydd y Mesur wedi cael cydsyniad brenhinol, disgwylir y bydd y Tribiwnlys Cymreig hwn yn dechrau gweithio o fis Medi 2003 ymlaen.

18.12 Gall cynnal amrediad o arbenigedd a gwybodaeth ar gyfer nifer cymharol fach o blant sydd ag AAA anghyffredin fod yn anodd i rai AALLau. Er mwyn rhoi sylw i'r broblem hon, mae Gweinidog y Cynulliad wedi sefydlu Grwp Llywio Cymru Gyfan gyda'r nod o sicrhau y gellir gweithio'n fwy effeithiol trwy gynllunio darpariaeth AAA ar raddfa ehangach. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r fenter hon.

18.13 Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'r ffaith fod gan Gymru, am y tro cyntaf, ei chod ymarfer AAA ei hun yn canolbwyntio ar faterion Cymreig, gan gynnwys yr iaith Gymraeg. Cymeradwyodd y Cynulliad Cenedlaethol hyn yn Nhachwedd 2001 ac mae wedi bod yn ofynnol i AALLau ei ystyried ers mis Ebrill 2002. Prif elfennau'r Cod Ymarfer yw ei fod yn:

- Cryfhau cynhwysiad;
- Gwella gwaith gyda rhieni;
- Cynnwys y plentyn;
- Symleiddio trefniadau blaenorol; ac
- Egluro rôl Swyddogion Cydlynw AAA.

18.14 O ran mynediad i ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig yn eu dewis iaith, mae Cod Ymarfer AAA Cymru yn nodi'n glir "*Yng nghyd-destun anghenion addysgol arbennig, dylai'r cynlluniau hyn (Cynlluniau iaith Gymraeg AALI unigol) sicrhau bod eu gwasanaethau, hyd y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn ymarferol o fewn rheswm, yn cael eu cyflwyno yn y Gymraeg a/neu'n Saesneg yn unol ag anghenion a dymuniadau'r disgybl a'i rieni.*"

- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r fframwaith strategol cenedlaethol gynnwys ymrwymiad penodol i sicrhau bod hawl disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig i gael defnyddio'r ddarpariaeth sy'n diwallu eu hanghenion yn eu dewis iaith ar sail cydraddoldeb ledled Cymru yn cael ei chydabod ac y gweithredir arni.**
- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Gweinidog y Cynulliad gomisiynu archwiliad o'r ddarpariaeth AAA sydd ar gael ar hyn o bryd trwy gyfrwng y Gymraeg.**
- **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid annog AALlau i sefydlu trefniadau ar gyfer rhannu adnoddau a lledaenu arferion da ar lefel ranbarthol. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru basio'r is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen er mwyn hwyluso'r cydweithrediad hwn.**

PERSBECTIFAU RHYNGWLADOL

19.1 Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at fanteision gosod darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn cyd-destun rhyngwladol ehangach. Daeth yn amlwg fod llawer o nodweddion darpariaeth ieithyddol yng Nghymru i'w gweld hefyd mewn gwledydd eraill lle mae dwy iaith (neu fwy) yn cydfodoli. Nodwyd, fodd bynnag, bod nifer o nodweddion hanesyddol, gwleidyddol a chymdeithasol-ddiwylliannol yn gyfrifol am wahaniaethau pwysig rhwng cymunedau. Wrth osod darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y cyd-destun ehangach hwn, felly, dylid tynnu sylw at enghreifftiau o arferion da a chyfleoedd i gydweithio, a bod yn ymwybodol yr un pryd o natur a goblygiadau gwrthgyferbyniadau sylweddol.

19.2 Roedd y dystiolaeth yn cynnwys rhai enghreifftiau o bartneriaethau rhwng ysgolion unigol a sefydliadau mewn cymunedau sydd ag iaith leiafrifol, llawer ohonynt yn brosiectau sy'n cael eu hariannu gan y cynllun Comenius.

19.3 Yn ychwanegol at hyn, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Joan Netten a'r Athro Claude Germain (Canada) a Nick Gardner (Cymuned Hunanlywodraethol Gwlad y Basg).

19.4 Canolbwyntiwyd yng Nghanada ar y Rhaglen Ffrangeg Dwys, sydd wedi ei gweithredu'n llwyddiannus fel cynllun peilot mewn rhannau o Ganada, ac sy'n cael ei hystyried fel ffordd effeithiol iawn o wella sgiliau Ffrangeg disgyblion. Datblygwyd rhaglenni Ffrangeg Dwys a Saesneg Dwys yn Quebec ar ddiwedd y 1970au. Mae llawer o daleithiau wedi gwneud ymdrechion unigol i ddatblygu rhaglenni Ffrangeg dwys (Quebec, British Columbia ac Ontario), ond dim ond ym 1998 y cafwyd ymdrech gydlynol i ddatblygu a gwerthuso rhaglenni Ffrangeg Dwys.

19.5 Mae Ffrangeg Dwys wedi ei mabwysiadu fel rhaglen amgen yn Newfoundland a Labrador ar gyfer Medi 2002, a bwriedir cynnal dosbarthiadau peilot yn New Brunswick, Saskatchewan a Nova Scotia. Dyma nodweddion y rhaglen Ffrangeg:

- Cyfnod dwys o hyfforddiant Ffrangeg;
- Dim meysydd pwnc yn cael eu hastudio drwy gyfrwng y Ffrangeg; ac
- Ad-drefnu amserlen arferol y cwricwlwm (neilltuo llai o amser ar gyfer rhai pynciau am 5 mis).

19.6 Mae canlyniadau cadarnhaol y rhaglen i'w gweld nid yn unig yn y lefelau calonogol o ruglder yn y Ffrangeg ond hefyd mewn cynnydd priodol mewn Saesneg a phynciau eraill. Mae'r disgyblion yn gweld eu hunain yn cael llwyddiant gyda'r Ffrangeg ac mae hyn yn ei dro yn eu hannog i barhau â'u hastudiaethau Ffrangeg ac i ddefnyddio'r iaith.

19.7 Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig yn y cyfle a gynigiai'r rhaglen i ddisgyblion gael pwynt mynediad ychwanegol i addysg cyfrwng Ffrangeg. Fel y nodwyd yn gynharach (Trochi Hwyrach), mae gwaith ymchwil wedi ei wneud yn ddiweddar i ymarferoldeb cyrsiau sy'n seiliedig ar y model Ffrangeg Creiddiol Dwys, a disgwylir y bydd yn sail i brosiectau peilot a fydd yn anelu at raglenni Cymraeg dwys.

19.8 Canolbwyntiodd cyflwyniad Nick Gardner ar gynllunio ieithyddol a pholisi addysg yng Nghymuned Hunanlywodraethol Gwlad y Basg. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod gan y Basgiaid dri

model o ddarpariaeth ieithyddol:

- Model A: Basgeg yn cael ei dysgu fel pwnc a Sbaeneg yn cael ei defnyddio fel cyfrwng hyfforddiant ar gyfer y rhan fwyaf o'r pynciau;
- Model B: Y cwricwlwm yn cael ei ddysgu mewn Basgeg a Sbaeneg, a Basgeg a Sbaeneg yn cael eu dysgu fel pynciau; a
- Model D: Y cwricwlwm yn cael ei ddysgu mewn Basgeg, a Sbaeneg yn cael ei dysgu fel pwnc.

19.9 Mae cynnydd yn y galw am addysg cyfrwng Basgeg ers y 1980au wedi golygu nad yw Model A mor boblogaidd ag y bu. Mae'r symudiad hwn tuag at fwy o le i'r Fasgeg wedi digwydd yn rhannol o ganlyniad i sefydlu ysgolion cyfrwng Basgeg newydd yn y sector cyhoeddus, ond mae newid ysgolion sy'n bodoli'n barod yn raddol wedi bod yn fwy cyffredin. Un nodwedd sy'n gyffredin i Gymru ac i Wlad y Basg yw'r her o gadw lefel y ddarpariaeth Gymraeg/Fasgeg mewn hyfforddiant galwedigaethol. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb hefyd mewn clywed am y camau a fabwysiadwyd gan y Basgiaid er mwyn sicrhau'r lefelau staffio angenrheidiol, trwy recriwtio athrawon ac yn fwyaf arbennig trwy hyfforddiant mewn swydd a chyfnodau sabothol.

- **Mae'r Pwyllgor yn cydnabod gwerth gosod darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn cyd-destun rhyngwladol, ac yn credu'n gryf bod llawer i'w ennill trwy gydweithio. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid cadw a chryfhau'r cysylltiadau sydd wedi eu sefydlu'n barod gan Weinidog y Cynulliad gyda phartneriaid yng Nghanada ac yng Nghymuned Hunanlywodraethol Gwlad y Basg, ac y dylid edrych ar gyfleoedd eraill i rannu enghreifftiau o arferion da gyda chymunedau eraill.**

RHAN I

ATODIADAU

Atodiad I TYSTIOLAETH A GYFLWYNWYD I'R PWYLLGOR

Gellir dod o hyd i'r rhan fwyaf o'r papurau hyn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: www.wales.gov.uk o dan adran y Pwyllgorau*. Mae copïau caled ar gael yn llyfrgelloedd y Cynulliad Cenedlaethol.

Tystiolaeth a gyflwynwyd gan	Pwyllgor	Cyfeirnod y Papur
Yr Is-sdran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg	Pwyllgor Diwylliant 2 Mai 2001	CC 07-01 (p.1)
Bwrdd yr Iaith Gymraeg	Pwyllgor Diwylliant 2 Mai 2001	CC 07-01(p.2)
Dr Mark Tewdwr-Jones	Pwyllgor Diwylliant 16 Mai 2001	CC 08-01(p.3)
Dr Dylan Phillips	Pwyllgor Diwylliant 16 Mai 2001	CC 08-01(p.4)
Yr Athro Colin Williams	Pwyllgor Diwylliant 16 Mai 2001	CC 08-01
Winston Roddick CF, Cwnsler Cyffredinol y Cynulliad Cenedlaethol	Pwyllgor Diwylliant 24 Mai 2001	CC 09-01
Urdd Gobaith Cymru	Pwyllgor Diwylliant 6 Mehefin 2001	CC 10-01(p.1)
Cyngor Llyfrau Cymru	Pwyllgor Diwylliant 6 Mehefin 2001	CC 10-01(p.2)
CYD	Pwyllgor Diwylliant 6 Mehefin 2001	CC 10-01
Cyngor Sir Ceredigion	Pwyllgor Diwylliant 6 Mehefin 2001	CC 10-01
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	Pwyllgor Diwylliant 6 Mehefin 2001	CC 10-01(p.3)
Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru	Pwyllgor Diwylliant 6 Mehefin 2001	CC 10-01
Cyngor Sir Dinbych	Pwyllgor Diwylliant 4 Gorffennaf 2001	CC 12-01(p.1)
Cyngor Sir Gwynedd	Pwyllgor Diwylliant 4 Gorffennaf 2001	CC 12-01(p.2)
Popeth Cymraeg	Pwyllgor Diwylliant 4 Gorffennaf 2001	CC 12-01(p.3)
Y Ganolfan Iaith Genedlaethol	Pwyllgor Diwylliant 4 Gorffennaf 2001	CC 12-01
Cefn	Pwyllgor Diwylliant 4 Gorffennaf 2001	CC 12-01
Fforwm Dwyieithrwydd	Pwyllgor Diwylliant 4	CC 12-01

Gogledd Cymru	Gorffennaf 2001	
Peter Doran, Cyfarwyddwr, Theatr Torch, Aberdaugleddau	Pwyllgor Rhanbarth y De- orllewin 6 Gorffennaf 2001	SWWR 04-01
Cyngor Defnyddwyr Cymru	Pwyllgor Rhanbarth y De- orllewin 6 Gorffennaf 2001	SWWR 04-01
Nic Wheeler, Prif Weithredwr Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro	Pwyllgor Rhanbarth y De- orllewin 6 Gorffennaf 2001	SWWR 04-01
Rhian Daniels, Myfyrwraig yn Ysgol y Preseli	Pwyllgor Rhanbarth y De- orllewin 6 Gorffennaf 2001	SWWR 04-01
Mari Grug Davies, Myfyrwraig yn Ysgol y Preseli.	Pwyllgor Rhanbarth y De- orllewin 6 Gorffennaf 2001	SWWR 04-01
Mari Williams, Myfyrwraig yn Ysgol Uwchradd Abergwaun	Pwyllgor Rhanbarth y De- orllewin 6 Gorffennaf 2001	SWWR 04-01
Lucy Bowyer, Myfyrwraig yn Ysgol Uwchradd Abergwaun	Pwyllgor Rhanbarth y De- orllewin 6 Gorffennaf 2001	SWWR 04-01
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg	Pwyllgor Diwylliant 18 Gorffennaf 2001	CC 13-01(p.1a)
Eisteddfod Genedlaethol Cymru	Pwyllgor Diwylliant 18 Gorffennaf 2001	CC 13-01(p.1b)
Dinas a Sir Abertawe	Pwyllgor Diwylliant 24 Hydref 2001	CC 15-01(p.1)
Yr Athro Harold Carter	Pwyllgor Diwylliant 24 Hydref 2001	CC 15-01
Mudiad Ysgolion Meithrin	Pwyllgor Diwylliant 24 Hydref 2001	CC 15-01(p.4)
CYTŪN	Pwyllgor Diwylliant 24 Hydref 2001	CC 15-01(p.6)
Merched y Wawr	Pwyllgor Diwylliant 24 Hydref 2001	CC 15-01
Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig	Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig 24 Hydref 2001	ARD 15-01
Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol	Pwyllgor Diwylliant 7 Tachwedd 2001	CC 16-01(p.1)
Cymuned	Pwyllgor Diwylliant 7 Tachwedd 2001	CC 16-01(p.2)
Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai/Cymuned	Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai 7 Tachwedd 2001	LGH 13-01 (p.6)

Awdurdod Datblygu Cymru	Pwyllgor Diwylliant 15 Tachwedd 2001	CC 17-01(p.1)
Bwrdd Croeso Cymru	Pwyllgor Diwylliant 15 Tachwedd 2001	CC 17-01(p.2)
CBI Cymru	Pwyllgor Diwylliant 15 Tachwedd 2001	CC 17-01(p.3)
TUC Cymru	Pwyllgor Diwylliant 15 Tachwedd 2001	CC 17-01
Cyngor Sir Casnewydd	Pwyllgor Diwylliant 15 Tachwedd 2001	CC 17-01
David Davies AC	Pwyllgor Diwylliant 15 Tachwedd 2001	CC 17-01
Pwyllgor Datblygu Economaidd/Menter a Busnes	Pwyllgor Datblygu Economaidd 16 Tachwedd 2001	EDC 16 -01(p.2)
Pwyllgor Datblygu Economaidd	Pwyllgor Datblygu Economaidd 16 Tachwedd 2001	EDC 16-01(P.3)
Ffederasiwn y Busnesau Bach	Pwyllgor Diwylliant 21 Tachwedd 2001	CC 18-01(p.2)
ELWa	Pwyllgor Diwylliant 21 Tachwedd 2001	CC 18-01(p.3)
Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai	Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai 21 Tachwedd 2001	LGH 15-01(p.3)
Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd/Dafydd Iwan	Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd 30 Tachwedd 2001	NWR 05-01
Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 5 Rhagfyr 2001	HSS 17-01(p.6)
Pwyllgor Rhanbarth y De-ddwyrain/ Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen H Griffiths, Pennaeth Ysgol Gyfun Gwynllyw, Pontypŵl Sue George, Prifysgol Casnewydd Elen Rhys, ACEN Phil Richards, Cyswllt Busnes Chris Hoyle, CSV Cymru Gareth Gregory, Newidiem Steffan Webb, Menter Iaith Rhondda Cynon Taf	Pwyllgor Rhanbarth y De-ddwyrain 7 Rhagfyr 2001	SEWR - 06-01
Pwyllgor Rhanbarth y	Pwyllgor Rhanbarth y De-	

Canolbarth / Cyngor Sir Powys Fforwm Ieuenctid Powys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Mr Alun Evans OBE Mr Allan Wynne Jones Laura Phillips, Ysgol Uwchradd Llandrindod Catrin Williams, Myfyrwraig raddedig o Brifysgol Aberystwyth Ffion Thomas, Ysgol Uwchradd Llanfyllin	ddwyrain 7 Rhagfyr 2001	MID 05-01(p.1) MID 05-01(p.2) MID 05-01(p.3) MID 05-01(p.4) MID 05-01(p.5) MID 05-01 MID 05-01 MID 05-01
BBC Cymru	Pwyllgor Diwylliant 9 Ionawr 2002	CC 01-02(p.1)
S4C	Pwyllgor Diwylliant 9 Ionawr 2002	CC 01-02(p.2)
Golwg	Pwyllgor Diwylliant 9 Ionawr 2002	CC 01-02(p.4)
Cyngor Celfyddydau Cymru	Pwyllgor Diwylliant 9 Ionawr 2002	CC 01-02(p.5)
Mercator	Pwyllgor Diwylliant 9 Ionawr 2002	CC 01-02(p.6)
Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth	Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth 9 Ionawr 2002	EPT 01-02(p.3)
Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai	Pwyllgor Diwylliant 17 Ionawr 2002	CC 02-02(p.1)
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	Pwyllgor Diwylliant 23 Ionawr 2002	CC 03-02(p.1)
Menter a Busnes	Pwyllgor Diwylliant 23 Ionawr 2002	CC 03-02(p.2a + p.2b)
Cynllun Gwobr Dug Caeredin	Pwyllgor Diwylliant 23 Ionawr 2002	CC 03-02(p.3)
Roy Thomas	Pwyllgor Diwylliant 23 Ionawr 2002	CC 03-02(p.4)
Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru	Pwyllgor Diwylliant 23 Ionawr 2002	CC 03-02(p.5)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Pwyllgor Diwylliant 23 Ionawr 2002	CC 03-02(p.5)
Cyngor Sir Caerfyrddin	Pwyllgor Diwylliant 6 Chwefror 2002	CC 04-02(p.1)
Cyngor Sir Penfro	Pwyllgor Diwylliant 6 Chwefror 2002	CC 04-02(p.2)
Cylch yr Iaith	Pwyllgor Diwylliant 6 Chwefror 2002	CC 04-02(p.3)

Mentrau Iaith Cymru	Pwyllgor Diwylliant 6 Chwefror 2002	CC 04-02(p.4)
Cwmni Iaith Cyf	Pwyllgor Diwylliant 6 Chwefror 2002	CC 04-02(p.5)
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	Pwyllgor Diwylliant 6 Chwefror 2002	CC 04-02(p.6)
Pwyllgor Cyfle Cyfartal	Pwyllgor Cyfle Cyfartal 6 Mawrth 2002	EOC 02-02 Delyth Evans AC yn bresennol
Y Llywydd Paul Silk, Clerc i'r Cynulliad David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd Gwen Parry, Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad Meinir Pritchard, Pennaeth Gwasanaeth Cyfieithu'r Cynulliad	Pwyllgor Diwylliant 1 Mai 2002	CC 09-02(p.1)

*Lle nad oes cyfeirnod papur, mae naill ai'n dynodi na ddaeth y cyflwyniad i law ar ffurf electronig neu'n dynodi cyflwyniad llafar yn unig.

Atodiad II

RHESTR O'R YMATEBWYR I'R YMGYNGHORIAD

Cyrff/unigolion a ymatebodd	
1.	Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
2.	Arad Goch
3.	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
4.	Awdurdod Datblygu Cymru
5.	Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch - Terry Rose
6.	Awdurdod Iechyd Bro Taf
7.	Baker, Yr Athro Colin
8.	Batcup, Madoc
9.	BBC Cymru
10.	Beer, Kenneth
11.	Bird, Margaret
12.	Bowyer, Gwynn
13.	Brake, Phillip - Prifysgol Cymru Aberystwyth, Canolfan Addysg Barhaus
14.	Bwrdd Croeso Cymru
15.	Bwrdd yr Iaith Gymraeg
16.	Cairns, Alun - AC, Cadeirydd Pwyllgor Rhanbarth De-orllewin Cymru
17.	Canolfan Genedlaethol Iaith a Diwylliant
18.	Carter, Yr Athro Harold
19.	CBAC - Dr Emyr Davies
20.	CBI Cymru
21.	Cefn
22.	CERED - Theatr Felinfach
23.	Ceredigion County Council
24.	CEWUNION - Angela Pulman, Menter Gymuned Cymru
25.	Consignia
26.	Consortium Cymraeg i Oedolion Powys - Mr T. Alun V. Evans, Chairman
27.	Cwmni Iaith Cyf
28.	Cwmni'r Frân Wen
29.	CYD
30.	Cyfeillion Llŷn - Dr Robyn Lewis
31.	Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd
32.	Cylch yr Iaith
33.	Cyllid y Wlad Cymru - Peter R Robins
34.	Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
35.	Cymdeithas Cynghorau Bro a Thref Cymru
36.	Cymdeithas Cynghorau Iechyd Cymunedol Cymru
37.	Cymdeithas Feddygol Prydain yng Nghymru - Dr RBK Broughton

38.	Cymdeithas Llyfrgelloedd Cymru
39.	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
40.	Cymdeithas Tai Clwyd Alyn
41.	Cymdeithas Tai Dewi Sant
42.	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
43.	Cymru Annibynnol/Independent Wales Party
44.	CYMUNED
45.	Cyngor Amgueddfeydd Cymru
46.	Cyngor Bro Dyffryn Cennen
47.	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili - David A Thomas
48.	Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen
49.	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
50.	Cyngor Celfyddydau Cymru
51.	Cyngor Chwaraeon Cymru - Deris Williams (Cyfarwyddwr Rhanbarth)
52.	Cyngor Defnyddwyr Cymru
53.	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
54.	Cyngor Gwynedd
55.	Cyngor Gwynedd - Y Bala, Calon Gynnes Cymru
56.	Cyngor Llyfrau Cymru
57.	Cyngor Sir Caerfyrddin
58.	Cyngor Sir Casnewydd
59.	Cyngor Sir Dinbych
60.	Cyngor Sir Penfro
61.	Cyngor Sir Powys
62.	Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf
63.	Cyngor Sir Wreccsam
64.	Cyngor Sir y Fflint
65.	Cyngor Sir Ynys Môn
66.	Cynllun Gwbor Dug Caeredin
67.	CYTUN - Y Parch Aled Edwards,
68.	Dafis, Awel Fflur
69.	Dafis, Llinos
70.	Davies AC, David
71.	Davies, Arglwydd Gwilym Prys
72.	Davies, Robin
73.	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
74.	Dinas a Sir Abertawe
75.	Eglwys Bresbyteraidd Cymru
76.	Eisteddfod Genedlaethol Cymru
77.	ELWa
78.	Estyn
79.	Evans, B
80.	Ffederasiwn y Busnesau Bach (Cymru)
81.	Fforwm Ieuencid Powys/Cyngor Sir Powys - Alan Whittick
82.	Fforwm Ddwyeithrwydd Gogledd Cymru

83.	Golwg - Dylan Iorwerth
84.	Greaves, Violet
85.	Gruffudd, Heini
86.	Gwasanaeth Tân De Cymru
87.	Gwyn, Robin
88.	Gwyther, Christine - AC, Cadeirydd Pwyllgor Datblygu Economaid
89.	Heddlu De Cymru
90.	Henley, Yr Athro Andrew - Ysgol Rheoli a Busnes, Prifysgol Aberystwyth
91.	Hughes, Nan
92.	Ifan, Gwyn Siôn
93.	Imaginet
94.	John, Lawrence
95.	Jones, Allan Wynne
96.	Jones, B
97.	Jones, M Arnold
98.	Lewis, Dr Hywel Glyn
99.	Lloyd, D
100.	Llyfrgell Genedlaethol Cymru
101.	McDougall, John
102.	Meek, Elin
103.	Menter a Busnes
104.	Menter Bro Myrddin
105.	Menter Cwm Gwendraeth
106.	Menter Iaith Dinbych - Conwy
107.	Menter Iaith Gwynedd
108.	Menter Iaith Maldwyn
109.	Mentrau Iaith Cymru - Cefin Campbell
110.	Mercator
111.	Merched y Wawr
112.	Miners, WE
113.	Morgan, Baudewijn
114.	Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru
115.	Mudiad Ysgolion Meithrin
116.	Newcome, Lynda
117.	Opera Cenedlaethol Cymru - Geraint Talfan Davies, Cadeirydd
118.	Owen, J
119.	Owen, Mr Stephen
120.	Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - Nic Wheeler
121.	Parc Cenedlaethol Eryri
122.	Parciau Cenedlaethol Cymru - Chris Gledhill
123.	Parri, Robin
124.	PCS - Jeff Evans
125.	Phillips, Dr Dylan
126.	Phillips, Laura
127.	Plaid Cymru

128.	Popeth Cymraeg
129.	Prifysgol Ffederal Cymru
130.	Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Cynulliad Cenedlaethol Cymru)
131.	Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, Glyn Davies, Cadeirydd
132.	Pwyllgor Cyfle Cyfartal (Cynulliad Cenedlaethol)
133.	Pwyllgor Cymreig Undeb yr Ysgrifenydd
134.	Pwyllgor Datblygu Economaidd (Cynulliad Cenedlaethol)
135.	Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Cynulliad Cenedlaethol)
136.	Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai (Cynulliad Cenedlaethol)
137.	Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth (Cynulliad Cenedlaethol)
138.	Pwyllgor Rhanbarth y De-ddwyrain (Cynulliad Cenedlaethol)
139.	Pwyllgor Rhanbarth y De-orllewin (Cynulliad Cenedlaethol)
140.	Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd (Cynulliad Cenedlaethol)
141.	Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth (Cynulliad Cenedlaethol)
142.	Roberts, Dafydd
143.	Roberts, Diana - Cyfarwyddwr, Popeth Cymraeg
144.	Roberts, Elfed
145.	Roberts, William Owen - Undeb yr Ysgrifenydd
146.	Roddick CF, Mr Winston
147.	S4C
148.	Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Y Deillion
149.	Sefydliad Charles Lloyd
150.	Sgript Cymru
151.	Smith, Peter
152.	Smith, Yr Athro J Beverley
153.	Teledwyr Annibynol Cymru
154.	Tewdwr-Jones, Dr Mark
155.	Theatr Gwynedd
156.	Theatr Torch - Peter Doran
157.	Thomas, Ffion Mair
158.	Thomas, Gwenda - AC, Cadeirydd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
159.	Thomas, Gwyn
160.	Thomas, Roy
161.	Tîm Seneddol Plaid Cymru
162.	TUC Cymru
163.	Twristiaeth De a Gorllewin Cymru - Peter Cole
164.	UCAC
165.	Urdd Gobaith Cymru
166.	Williams, Alwena
167.	Williams, Arthur
168.	Williams, Catrin
169.	Williams, Dr Emyr Wynn Williams

170.	Williams, Glyn
171.	Williams, Yr Athro Colin
172.	Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
173.	Y Cyngor Prydeinig
174.	Y Gronfa Cyfleoedd Newydd
175.	Y Gwasanaeth Cyflogi
176.	Ymddiriedolaeth NHS Abertawe - Clinig Canolog
177.	Ymddiriedolaeth NHS Sir Benfro a Derwen
178.	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig

RHAN II

ATODIADAU

Atodiad III

PAPUR SEFYLLFA: Y GYMRAEG MEWN ADDYSG YNG NGHYMRU

Diben

1. Bwriad y papur hwn yw nodi beth, yn gyffredinol, yw sefyllfa'r Gymraeg mewn addysg yng Nghymru.

Cefndir

2. Cyflwynir y papur fel rhan o'r cefndir ar gyfer adolygiad y Pwyllgor o'r Gymraeg mewn addysg, ochr yn ochr ag adolygiad ehangach y Pwyllgor Diwylliant. Mae tair adran i'r papur hwn: y blynyddoedd cynnar; ysgolion; ac addysg ar ôl 16.

Y Blynyddoedd Cynnar

3. Mae Adroddiad y Pwyllgor Dethol Cymreig ar Ofal Plant yng Nghymru yn nodi bod Addysg Blynyddoedd Cynnar yn hanfodol i ddyfodol y Gymraeg. Mae sefydliadau a mudiadau megis y Mudiad Ysgolion Meithrin wedi bod yn eithriadol o weithgar yn y maes hwn, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno na ddylid peryglu eu gwaith trwy'r cynlluniau arfaethedig i ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar i bob plentyn teirblwydd oed. Credir hefyd y dylid cefnogi hawl rhieni i ddewis addysg ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg i'w plant, ac y dylid cynnwys y ddarpariaeth honno yn rhan o'r strategaeth yn genedlaethol ac yn lleol. Dylai cymwysterau hyfforddi fod ar gael i staff yn Gymraeg ac yn Saesneg.

4. Bydd yr archwiliad a argymhellodd y Cynulliad, ac sydd bellach ar waith, yn cynnwys gwaith i ganfod pa ddarpariaeth sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Mae'r Cynulliad wedi argymhell y dylai'r Gweinidog adolygu'r cyllid a ddyrennir ar gyfer y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg, unwaith y bydd canlyniad yr archwiliad hwn ar gael, ac unwaith y cwblheir y gwaith o nodi beth fydd y galw am y ddarpariaeth yn y dyfodol.

Ysgolion cyfrwng Cymraeg: Cynradd

5. Yn ôl y rhan fwyaf o ddulliau mesur, mae lefel y ddarpariaeth gynradd trwy gyfrwng y Gymraeg, a'r nifer sy'n llenwi'r lleoedd, wedi para'n weddol gyson, neu wedi tyfu ychydig, yn ystod y pump i ddeng mlynedd diwethaf. Ceir manylion niferoedd yr ysgolion a'r disgyblion ym mharagraffau 20 i 23 isod.

6. Mae nifer y disgyblion sy'n cael eu dysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg Categori A wedi tyfu ychydig yn gyflymach dros y deng mlynedd diwethaf na'r cynnydd cyffredinol a gafwyd yn nifer y disgyblion, felly mae 17% o blant oed cynradd yng Nghymru bellach yn cael eu dysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, o'i gymharu ag 16% ddegawd yn ôl.

7. Ar hyn o bryd, yn y 440 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg presennol, mae lle i tua 55,150 o ddisgyblion (neu 18% o holl leoedd ysgolion cynradd Cymru). Felly, mae mwy o ddarpariaeth, ar y cyfan, nag o ddisgyblion, a 9,754 o leoedd heb eu llenwi. Mae hyn yn lefel uwch o leoedd gwag na chyfartaledd Cymru (18% o'i gymharu â 14%). Serch hynny, mae mwyafrif y lleoedd gwag yn yr ardaloedd gwledig sy'n draddodiadol yn Gymraeg eu hiaith, lle mae poblogaeth y disgyblion yn

disgyn. Ar y llaw arall, mewn ardaloedd trefol, lle mae'r galw am leoedd yn tyfu, mae rhai ysgolion yn llawn neu'n agos at fod yn llawn.

8. Gan edrych ar ddisgyblion mewn ysgolion cynradd o bob categori, dysgir 18% o ddisgyblion oed cynradd mewn dosbarthiadau lle defnyddir y Gymraeg fel unig neu brif gyfrwng y dysgu, er mai dim ond 16% o ddisgyblion ysgolion cynradd sy'n cael eu hystyried yn rhugl yn y Gymraeg. Yn yr un modd, ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1, aseswyd 19% o blant yn Gymraeg, er bod penaethiaid yn ystyried mai dim ond 17% o'r grŵp oedran hwnnw oedd yn rhugl.

9. Yn gyfan gwbl, dysgir tua 20% o ddisgyblion oed cynradd mewn dosbarthiadau lle defnyddir rhywfaint o Gymraeg yn gyfrwng dysgu. Dim ond ychydig y mae'r ffigur hwn wedi newid yn ystod y blynyddoedd diweddar, heb unrhyw duedd gyffredinol i fyny nac i lawr.

10. Mae maint dosbarthiadau ar gyfartaledd yn is mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Ac eithrio dosbarthiadau meithrin a dosbarthiadau arbennig, ar gyfartaledd mae gan ddosbarth cynradd Categori A 23.1 o ddisgyblion, tra bo'r cyfartaledd yn 23.5 disgybl mewn ysgolion Categori B. Mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, y ffigur yw 26.3, ar gyfartaledd.

Ysgolion cyfrwng Cymraeg: Uwchradd

11. Mae 23% o ysgolion uwchradd yn defnyddio'r Gymraeg yn gyfrwng dysgu ar gyfer o leiaf hanner eu pynciau sylfaen. Mae nifer yr ysgolion "Cymraeg" o'r fath wedi tyfu o 44 i 53 yn ystod y degawd diwethaf. Mae 18% o ddisgyblion uwchradd bellach yn mynychu'r ysgolion hyn, o'i gymharu â 15% ddeng mlynedd yn ôl, ond nid yw'r holl ddisgyblion yn yr ysgolion hyn yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg gan fod ffyrddiau Saesneg a Chymraeg ar wahân yn nifer o'r ysgolion. Caiff y rhain i gyd eu diffinio fel ysgolion Cymraeg, hyd yn oed pan mai lleiafrif o'r disgyblion sydd yn y ffrwd Gymraeg. Ni chesglir gwybodaeth ynghylch nifer y dosbarthiadau a ddysgir trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, nid yw'n hawdd asesu i ba raddau y mae cyfanswm yr addysg a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector uwchradd wedi cynyddu. I roi amcan, mae 14% o ddisgyblion uwchradd hyd at Flwyddyn 11 yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf, ac mae hyn wedi cynyddu o 12% ddegawd yn ôl. Yn ychwanegol at ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, mae pob ysgol a gynhelir bellach yn dysgu Cymraeg naill ai fel iaith gyntaf neu fel ail iaith i ddisgyblion hyd at Flwyddyn 11.

Cynllunio Darpariaeth Ysgolion

12. Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw cyflenwi digon o leoedd mewn ysgolion. Mae dyletswydd statudol arnynt i sicrhau y caiff plant eu haddysgu yn unol â dymuniadau eu rhieni, cyhyd â bod hynny'n gydnaws â darparu addysg effeithlon, a'i fod yn osgoi defnydd afresymol o wariant cyhoeddus. Y targed ar gyfer 2010, a nodir yn y ddogfen "Gwell Cymru", yw y dylai'r ddarpariaeth addysg Gymraeg gyfateb i'r galw amdani. Nid yw hyn yn awgrymu y dylai awdurdodau addysg lleol fod yn ceisio cynyddu'r galw nac yn sicrhau darpariaeth cyn bod galw amdani, er y gellid dadlau fod y cyflenwad yn dylanwadu ar y galw.

13. Mae faint o addysg cyfrwng Cymraeg y mae'r gwahanol AALIau yn ei darparu yn amrywio'n fawr, gan adlewyrchu, ar y cyfan, i ba raddau y defnyddir y Gymraeg yn iaith gyffredin mewn gwahanol rannau o'r wlad. Mae gan bob awdurdod, bellach, o leiaf un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ac maent oll yn cynnig addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg, er ei bod, o bosibl yn cael ei darparu yn ardal AALI cyffiniol. Yng Ngwynedd, ar y llaw arall, mae bron bob ysgol gynradd ac uwchradd yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf.

14. Agorodd dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ym mis Medi 2001 ym Mhowys a Sir Fynwy, ac mae Caerdydd yn bwriadu adeiladu ysgol yn Llanedryn, sydd i agor ym mis Medi 2002. Dwy flwyddyn ysgol fydd yn hon ar y cychwyn. Mae Abertawe hefyd yn bwriadu ymestyn ei ddarpariaeth. O'r rownd ddiweddaraf o Gynlluniau Trefniadaeth Ysgol, mae'n amlwg fod sawl awdurdod mewn ardaloedd sy'n draddodiadol yn cynnwys llai o siaradwyr Cymraeg yn adolygu eu darpariaeth ac yn ystyried ymestyn. Ar y llaw arall, mae rhai awdurdodau sydd â chyfran uchel o ysgolion Cymraeg yn gweld gostyngiad yn niferoedd y disgyblion, a lefelau uchel o leoedd gwag. Mae Caerfyrddin a Sir Benfro ill dau yn ymgynghori ynghylch cau a chyfuno ysgolion: gall hyn leihau nifer yr ysgolion Categori A, ond ni ddylai olygu bod llai o ddisgyblion yn derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ardaloedd hyn.

15. Mae yna ganfyddiad bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei leoli mewn adeiladau o safon pur wael. Mewn gwirionedd, mae nifer arwyddocaol o ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd wedi'u lleoli mewn adeiladau newydd neu adeiladau sydd wedi'u hadnewyddu'n sylweddol. Hefyd, mae nifer o safleoedd wrthi'n cael eu hadeiladu, neu ar y gweill, ar gyfer nifer o ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r ysgol gynradd newydd yn Sir Fynwy mewn adeiladau sydd wedi'u hadnewyddu, a bydd yr ysgol gynradd newydd yng Nghaerdydd mewn adeilad newydd o fis Medi 2002 ymlaen. Mae'r safleoedd ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd yng Nghaerffili a Rhondda Cynon Taf yn cael eu darparu o dan drefniadau'r Fenter Cyllid Preifat.

16. Gan fod niferoedd disgyblion yn gostwng yn gyffredinol, a bod llawer o leoedd gwag ledled Cymru, rhaid i'r broses o ddarparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn y galw am leoedd cyfrwng Cymraeg fod yn rhan o strategaeth gyffredinol yr AALI i resymoli'r ddarpariaeth a chydbwysu'r galw a'r cyflenwad. Yn anorfod, rhaid i unrhyw gynnydd yn y galw am addysg Gymraeg olygu y ceir lleihad yn y galw mewn ysgolion sy'n bodoli eisoes. Y ddogfen gynllunio allweddol yn y cyd-destun hwn yw'r Cynllun Trefniadaeth Ysgol (CTY). Ers 1999, mae pob awdurdod wedi gorfod cyhoeddi cynllun o'r fath – a ddiweddarir bob blwyddyn ac sy'n cynllunio ymlaen am y pum mlynedd nesaf – sy'n crynhoi'r data ar y galw am leoedd a'r cyflenwad lleoedd mewn ysgolion. Rhaid iddo hefyd nodi polisïau'r awdurdod ar faterion perthnasol megis y maint priodol ar gyfer ysgolion a'r cynlluniau gweithredu ar gyfer ychwanegu lleoedd neu gael gwared ar leoedd, er mwyn sicrhau y diwellir y galw ac y defnyddir adnoddau'n effeithiol. Trwy ei Gynllun Trefniadaeth Ysgol, dylai awdurdod ddangos ei fod yn cynllunio'i ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ochr yn ochr â mathau eraill o addysgu, fel y gellir darparu ar gyfer holl ystod blaenoriaethau rhieni, ac y defnyddir yr adnoddau a'r adeiladau presennol yn y modd gorau posibl.

17. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau i lunio Cynlluniau Addysg Gymraeg i'w cymeradwyo. Rhaid i'r cynlluniau hyn nodi polisïau a thargedau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, a dangos sut y mae'r awdurdod yn diwallu'r galw. O ran y cyflenwad o leoedd mewn ysgolion, tueddiadau o safbwynt niferoedd disgyblion a chynlluniau gweithredu, mae'r cynlluniau'n trafod yr un meysydd â'r CTYau ond maent yn cael eu diweddarau ar adegau gwahanol.

Crynodeb o'r sefyllfa bolisi bresennol ar ddarparu ysgolion

18. Mae gan AALLau gyfrifoldeb i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg mewn ymateb i'r galw gan rieni (a chyhyd â'i fod yn ddefnydd effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael). Cyfrifoldeb yr awdurdod yw asesu'r galw lleol hwnnw ac i gyflenwi lleoedd yng nghyd-destun eu darpariaeth gyffredinol o leoedd mewn ysgolion, a'u rheolaeth ar y gyllideb addysg. Oherwydd bod lefel y galw a'r ddarpariaeth yn amrywio'n fawr ledled Cymru, awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i asesu'r anghenion lleol, a dyma'r dull a gymeradwywyd gan y Pwyllgor yn ei astudiaeth o Gyflenwad Lleoedd mewn Ysgolion.

Nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a nifer y disgyblion sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg

Cynradd

19. Ym mis Ionawr 2001, roedd 440 o ysgolion cynradd a oedd yn defnyddio'r Gymraeg fel y prif neu'r unig gyfrwng dysgu (Categori A) yng Nghymru (sef 27% o'r holl ysgolion cynradd), ac roedd 91 ysgol arall (5% o'r cyfanswm) yn defnyddio'r Gymraeg i ddysgu cyfran o'r cwricwlwm (Categori B). Er yr agorwyd pedair ysgol cyfrwng Cymraeg Categori A newydd yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae cyfanswm yr ysgolion o'r fath wedi gostwng dros y cyfnod hwnnw (o 449) oherwydd bod rhai ysgolion bach wedi'u huno neu wedi'u ffedereiddio, a bod ysgolion Babanod ac Iau wedi'u cyfuno.

Disgyblion mewn ysgolion cynradd a gynhelir (gan gynnwys disgyblion mewn meithrinfeydd)

	Ion 1992	Ion 1996	Ion 2001
Mewn dosbarthiadau lle mai'r Gymraeg yw prif neu unig gyfrwng y dysgu	43,984 16.0% (o gyfanswm y disgyblion)	50,327 17.2%	51,087 17.9%
Mewn dosbarthiadau lle defnyddir y Gymraeg ar gyfer rhan o'r cwricwlwm	10,552 3.8%	10,906 3.7%	6,860 2.4%
Mewn dosbarthiadau lle dysgir y Gymraeg fel ail iaith	165,019 60.2%	209,103 71.6%	223,328 78.1%
Heb fod yn dysgu unrhyw Gymraeg	54,761 20%	21,870 7.5%	4,511 1.6%
Holl ddisgyblion	274,286	292,206	285,786

20. Y duedd fwyaf amlwg yn y ffigurau hyn yw'r gostyngiad yn nifer y disgyblion nad ydynt yn dysgu unrhyw Gymraeg o gwbl, wedi'i gyplysu â chynnydd yn y rhai sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith. Mae'n debygol fod mwyafrif y disgyblion nad ydynt yn dysgu unrhyw Gymraeg mewn dosbarthiadau arbennig neu ddisbarthiadau meithrin neu dderbyn (lle nad yw gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yn berthnasol).

Uwchradd

21. Mae 53 o ysgolion uwchradd "Cymraeg" yng Nghymru. Fel y nodir ym mharagraff 11, "Ni chesglir gwybodaeth ynghylch nifer y dosbarthiadau a ddysgir trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, nid yw'n hawdd asesu i ba raddau y mae cyfanswm yr addysg a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector uwchradd wedi cynyddu." Serch hynny, gall y tabl canlynol fod o ddiddordeb:

Disgyblion sy'n dysgu Cymraeg ym Mlynnyddoedd 7 i 11 mewn ysgolion uwchradd

	lon 1992	lon 1996	lon 2001
Yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf	19,416 11.7	21,845 12.4	26,135 14.0
Yn dysgu Cymraeg fel ail iaith	87,545 52.6	111,647 63.2	157,300 84.5
Heb fod yn dysgu unrhyw Gymraeg	59,429 35.7	43,132 24.4	2,646 1.4
Holl ddisgyblion	166,390	176,624	186,081

23. Ers mis Medi 1999, mae'r gofynion statudol ar gyfer y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi'u rhoi ar waith yn llawn. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer y disgyblion nad ydynt yn dysgu unrhyw Gymraeg. Yn ôl pob tebyg, mae'r 1.4% o ddisgyblion sydd yn y categori hwn wedi'u heithrio o ganlyniad i ddatganiad AAA, neu y maent yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer yr eithriadau cyfyngedig iawn sydd ar gael ym mlwyddyn olaf Cyfnod Allweddol 3 neu yn ystod Cyfnod Allweddol 4.

Ysgolion: ail gyfle i ddechrau ar addysg cyfrwng Cymraeg?

24. Ar y cyfan, gwneir y dewisiadau ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg yn gynnar. Mae rhieni'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg naill ai pan fo'u plant yn dechrau mewn meithrinfeydd/darpariaeth blynnyddoedd cynnar, sef mor gynnar â theirblwydd oed, neu pan fo'u plant yn cyrraedd yr oed ysgol gorfodol o bum mlwydd oed (neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwnnw). Unwaith y dewisir addysg cyfrwng Saesneg, nid oes fawr o gyfle i ailddewis addysg cyfrwng Cymraeg wedi hynny.

25. Ym mis Medi, bûm ar ymweliad â Newfoundland a Labrador, a New Brunswick, er mwyn archwilio'r amrywiaeth o fodolau trochi neu ddwys mewn ail iaith a ddefnyddir mewn ysgolion yn y Rhanbarthau hynny er mwyn darparu Ffrangeg i ddisgyblion sydd o gefndiroedd Saesneg. Fe'u gwelais ar waith mewn ysgolion a chefais sawl cyfle i'w trafod yn fanylach gyda Gweinidogion a swyddogion Llywodraethau'r Rhanbarthau, aelodau etholedig a swyddogion Byrddau Ysgolion, a chydag athrawon a phenaethiaid.

26. Gwelwyd llawer a oedd yn debyg i sefyllfa Cymru, a llawer a oedd yn wahanol. Y model a ymddangosai'n fwyaf addawol i'w addasu a'i roi ar waith yng Nghymru oedd y model Ffrangeg Craidd Dwys. Yn gryno, prif nodweddion y model hwn yw:

- cyfnod dwys o astudio;
- defnyddio'r iaith darged yn gyfrwng cyfathrebu; a
- chanolbwyntio ar ddysgu iaith yn hytrach na dysgu deunydd pynciol trwy gyfrwng ail iaith.

27. Mae'r model Ffrangeg Craidd Dwys yn ymddangos fel petai'n cynnig ffordd o wireddu yr hyn nad yw'n bodoli yng Nghymru (gyda rhai eithriadau prin), sef ail gyfle i ddechrau ar addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion y dewisodd eu rhieni ysgol cyfrwng Saesneg y tro cyntaf – sef pan oedd y plant yn bum mlwydd oed neu iau.

28. Rwyf wedi gofyn i'r posibilrwydd o addasu'r model Ffrangeg Dwys at y diben hwn gael ei ystyried ymhellach, gyda'r gobaith o sefydlu prosiect peilot i brofi ei ddichonoldeb ehangach. Gan ddibynnu ar farn y grŵp o arbenigwyr y mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi eu cynnull ar fy nghais i (gweler isod), y pwynt mwyaf addas i roi prosiect peilot ar waith fyddai gyda disgyblion Cymraeg Ail Iaith ym Mlwyddyn 6 – eu blwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd – gyda'r gobaith o alluogi'r disgyblion hynny i lwyddo i wneud nifer o bethau, gan gynnwys:

- trosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg;
- astudio mwy o bynciau nag y byddent wedi'i wneud fel arall trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgol ddwyieithog neu ysgol cyfrwng Saesneg gan fwyaf; neu
- magu digon o allu ieithyddol i fedru cymryd rhan mewn llawer mwy o weithgareddau addysgol a chymdeithasol Cymraeg yn yr ysgol a thu hwnt.

29. Felly, rwyf wedi rhoi'r camau canlynol ar waith:

- mae'r adroddiad ar yr ymweliad wedi'i gyflwyno i'w ystyried gan y grŵp o arbenigwyr a sefydlwyd yn barod o dan gadeiryddiaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg (cynhelir y cyfarfod nesaf ar 14 Rhagfyr);
- anfonwyd yr adroddiad hefyd at ACCAC ac Estyn (a fydd ill dau yn ymuno â'r grŵp o arbenigwyr);
- bydd y grŵp yn llunio cyngor ar ddichonolrwydd addasu'r model Dwys i fod yn brosiect peilot yng Nghymru – i gynnwys argymhellion ar y rhagamodau angenrheidiol ar gyfer prosiect peilot; a
- bydd y grŵp yn amlinellu'r camau angenrheidiol er mwyn dod o hyd i ysgolion cynradd i gymryd rhan yn y prosiect peilot (ac ysgolion uwchradd i fod yn bartneriaid yn y prosiect).

30. Darparwyd copïau ar wahân i'r Pwyllgor o'r adroddiad ar fy ymweliad â Chanada.

Ysgolion: darparu athrawon

31. Canfu'r arolwg o recriwtio athrawon mewn ysgolion uwchradd a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru fod:

- llai o ymgeiswyr na'r cyfartaledd ar gyfer swyddi dysgu Cymraeg fel ail iaith (4.5 ymgeisydd o'i gymharu â'r cyfartaledd o 6.5 ar gyfer pob pwnc a gynhwyswyd yn yr arolwg);
- llai o ymgeiswyr ar gyfer swyddi lle dysgir trwy gyfrwng y Gymraeg (ar gyfartaledd, 3.6 ymgeisydd ar gyfer pob pwnc a gynhwyswyd yn yr arolwg).

32. Cafwyd cyfradd ymateb o 76% i'r arolwg – ond efallai fod tuedd sylweddol yn y ffigur hwn os ymatebodd ysgolion sydd â phroblemau recriwtio penodol yn amlach na'r rhai hynny sydd heb broblemau, fel sy'n debygol o fod yn wir. Dim ond pynciau lle cafwyd tystiolaeth anecdotaidd o ddiffygion yr oedd yr arolwg yn eu hasesu – Cemeg, Saesneg, Mathemateg, Ieithoedd Modern Tramor, Ffiseg, Addysg Grefyddol, Cymraeg Ail Iaith.

33. Rhwng 1998/99 a 2000/01 cafwyd cynnydd bychan yn nifer yr athrawon sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (2,762 i 2,812 – 1.8%) tra gwelwyd cynnydd o 0.5% yn nifer y disgyblion mewn 'ysgolion Cymraeg'. Cynyddodd y nifer sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith o 7,907 i 8,277 (4.7%) yn ystod yr un cyfnod. Ar yr un pryd, gwelwyd cynnydd o 4.6% yn nifer yr athrawon ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd yng Nghymru.

34. Nid yw'r ffigurau uchod, ar y cyfan, yn awgrymu bod prinder cynyddol o athrawon iaith Gymraeg. Gall y ffaith ei bod yn anodd recriwtio athrawon mewn achosion arbennig fod yn ganlyniad i nifer o ffactorau. Yn benodol, efallai yr effeithir ar gyflenwad yr athrawon cyfrwng Cymraeg gan y ffaith nad ydynt am symud o un man i'r llall. Mae cyfanswm yr athrawon yn isel, ac maent yn wasgaredig, ac efallai nad yw athrawon yn fodlon symud pellteroedd maith i gychwyn ar swyddi newydd. Nid yw recriwtio o'r tu allan i Gymru yn bosibilrwydd ychwaith, ar y cyfan.

Ysgolion: arholiadau a chymwysterau

35. Mae mwy o gymwysterau nag erioed o'r blaen ar gael yn y Gymraeg. Nid yw pob arholiad ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, ar gyfer pob prif arholiad, ac yn dibynnu ar y galw, bydd CBAC yn darparu'r papurau Lefel Mynediad, TGAU a Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol yn Gymraeg. Mae gan CBAC hefyd drefniadau gyda chyrrff dyfarnu eraill i ddarparu papurau yn Gymraeg, ar gyfer pynciau na ddarperir mohonynt gan CBAC. Mae gan ACCAC drefniadau gyda chyrrff dyfarnu i gynorthwyo i ddarparu arholiadau cyfrwng Cymraeg ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, ac mae'r Cynulliad wedi darparu cyllid sylweddol i gynorthwyo i ddarparu profion Sgiliau Allweddol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ysgolion: Cymraeg fel pwnc

36. Mae dysgu Cymraeg fel pwnc – naill ai fel iaith gyntaf neu fel ail iaith – bellach yn rhan anhepgor o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae un weinyddiaeth ar ôl y llall wedi bod o'r farn bod yr argymhellion a wnaed ynghylch y Gymraeg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yn y 1980au yn dal yn berthnasol – sef bod hawl gan holl ddisgyblion Cymru i ddysgu Cymraeg fel pwnc ac, er mwyn i hynny fod yn ystyrlon, y dylid cynnal parhad a dilyniant trwy holl gyfnod eu haddysg statudol. Felly, y mae'n bwnc gorfodol i bob disgybl o Gyfnod Allweddol 1 i Gyfnod Allweddol 4 mewn ysgolion a gynhelir (ac eithrio'r disgyblion hynny sy'n bodloni'r darpariaethau eithrio cyfyngedig sy'n berthnasol o dan rai amgylchiadau penodol).

37. Mae Adroddiad Blynyddol diweddaraf Prif Arolygydd Ei Mawrhydi (ar gyfer blwyddyn ysgol 1999-2000) yn nodi bod y rhan fwyaf o'r gwaith ar gyfer Cymraeg fel iaith gyntaf yn foddhaol neu'n well yng Nghyfnod Allweddol 1 (98%) a Chyfnod Allweddol 2 (96%), ond bod llai o waith da nag yn y flwyddyn gynt yn y ddau Gyfnod Allweddol. Yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, mae'r safonau wedi bod yn codi dros y tair blynedd diwethaf. Serch hynny, mae'r safonau'n uwch yng Nghyfnod Allweddol 3 nag yng Nghyfnod Allweddol 4, ac ym Mlwyddyn 10 o'i gymharu â Blwyddyn 11. O ran Cymraeg fel ail iaith, mae'r ffigurau cyfatebol ar gyfer gwaith boddhaol neu dda yng Nghyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 yn 98% a 92%. Y mae'n amlwg, serch hynny, mai blwyddyn olaf yr ysgol gynradd yw'r her fwyaf o ran swm y gwaith anfoddhaol. Mae Estyn yn priodoli hyn yn bennaf i ddiffyg cynnydd yng ngallu disgyblion ar draws y Cyfnod Allweddol i gynnal sgwrs estynedig yn yr ail iaith. Mewn ysgolion uwchradd, gwelwyd gwelliant bychan yn safon y Gymraeg fel ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 3, ond ni lwyddwyd i gynnal y gwelliant cyson yng Nghyfnod Allweddol 4 a welwyd yn ystod y ddwy flynedd flaenorol: cafwyd cynnydd yn swm y gwaith anfoddhaol.

Ysgolion: Y Cwricwlwm Cymreig

38. Mae'n ofyniad cyffredinol fod disgyblion yn cael cyfle, lle bo'n briodol, wrth astudio pob pwnc yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, i feithrin a defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru. Mae'r gofyniad cyffredinol hwn yn berthnasol i bob ysgol, waeth beth fo'r cyfrwng dysgu.

39. Mae'r adroddiad '*Y Cwricwlwm Cymreig: dimensiwn Cymreig y cwricwlwm yng Nghymru: arfer dda mewn addysgu a dysgu*', a gyhoeddwyd gan Estyn yn gynharach eleni, yn nodi y gall y Cwricwlwm Cymreig roi sail gadarn a chylch gwaith clir i ddisgyblion. Nid yn unig y gall yr ymwybyddiaeth well o ddiwylliant a hunaniaeth Cymru, sy'n adlewyrchu eu hagweddau unigryw ac amrywiol, wneud cyfraniad pwysig i ddatblygiad personol a chymdeithasol disgyblion, ond gall hefyd helpu disgyblion i feithrin gwell dealltwriaeth o gymdeithasau a diwylliannau eraill.

Ysgolion: deunyddiau dysgu

40. Mae'n hanfodol cael deunyddiau Cymraeg a dwyieithog o ansawdd uchel i gefnogi'r gwaith o ddysgu Cymraeg, pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Cwricwlwm Cymreig. Serch hynny, mewn sawl achos mae'r farchnad fasnachol yn methu â darparu'r fath ddeunyddiau.

41. Mae gan ACCAC strategaeth gomisiynu sy'n ceisio cynnal a gwella lefel gyffredinol y ddarpariaeth, yn enwedig o ran nodweddion unigryw y cwricwlwm yng Nghymru ac mewn meysydd lle ceir ddiffyg sylweddol yn y ddarpariaeth. Yn sail i'r strategaeth, ceir proses o nodi a blaenoriaethu anghenion y mae ACCAC yn ei defnyddio i ymgynghori ag athrawon ac ati ar y deunyddiau mwyaf addas i'w comisiynu. Yn y gorffennol, roedd mwyafrif y deunyddiau a gomisiynid yn rhai printiedig, ond erbyn hyn mae ACCAC yn ceisio sicrhau gwell cydbwysedd rhwng deunyddiau printiedig a deunyddiau eraill.

42. Yn ystod ei archwiliad o faterion Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, clywodd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes lawer am y diffyg difrifol o ddeunydd ansawdd uchel sy'n berthnasol i'r cwricwlwm ac sydd ar gael yn electronig. Deunydd yw hwn sydd naill ai yn Gymraeg, neu'n ymwneud yn benodol â Chymru, boed hynny yn y Gymraeg neu'r Saesneg, er mwyn cynorthwyo i ddarparu'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru, ac yn enwedig agweddau ar y Cwricwlwm Cymreig sy'n unigryw i Gymru. Clywodd y Pwyllgor hefyd fod llawer o waith da wedi'i gyflawni'n lleol ar gynhyrchu deunyddiau, ond bod y cyfleoedd i ddarparu a rhannu'r gwaith hwnnw'n electronig yn gyfyngedig iawn. Un peth a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn yw'r ffaith y sefydlwyd y Panel Ymgynghorol TGCh, sy'n goruchwyllo'r gwaith o benodi tîm Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru (NGfL Cymru), sef y tîm a fydd yn nodi a datblygu deunyddiau a gynhyrchwyd yn lleol ar gyfer ei ddefnyddio gyda TGCh.

Addysg ar ôl 16 oed

Y Cyngor Cenedlaethol - ELWa

43. O ran y Cyngor Cenedlaethol sy'n rhan o ELWa, y llythyr a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn nodi ei gylch gwaith sy'n pennu'r gofynion o ran y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn ei hanfod, y mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnwys cynigion yn ei gynlluniau gweithredol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ar ôl 16 oed, Cymraeg i Oedolion, Cymraeg yn y Gweithle a chyfleoedd am hyfforddiant sgiliau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae strategaeth cyfrwng Cymraeg y Cyngor yn cynnwys annog mwy o bobl ifanc i ddilyn hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg ac annog mwy o gydnabyddiaeth i gyrtsiau Cymraeg i Oedolion.

44. Mae'r cyfeiriad strategol y mae llythyr y cylich gwaith yn ei gynnig yn amlwg yn rhagweld y bydd y cyflenwad o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar ôl 16 oed yn cael ei gysylltu'n gadarn ag asesiadau anghenion rhanbarthol y Cynulliad. Ar yr un pryd, mae angen i'r Cyngor Cenedlaethol annog mwy o alw trwy hyrwyddo'r cysyniad o hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg. Isod ceir manylion lefelau presennol y ddarpariaeth a gyllidir trwy'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa.

45. Trosglwyddir y cyfrifoldeb dros gyllido addysg chweched dosbarth o'r awdurdodau addysg lleol i'r Cyngor Cenedlaethol ym mis Ebrill 2002. Cyn hynny, bydd y Cyngor yn cychwyn adolygu yr holl gyfundrefnau cyllido o ran darpariaeth dysgu ar ôl 16 oed, gan gynnwys y ddarpariaeth chweched dosbarth. Bydd y Pwyllgor yn cofio'r drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod ar 14 Tachwedd ynghylch cynigion y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer ei adolygiad cyllido, a phapur ategol y Cyngor Cenedlaethol (ELL 17-01(p.5)) yn nodi'r trefniadau diogelu. Ceir tystiolaeth bod diffyg cyfleoedd mewn sawl rhan o Gymru i barhau ag addysg ar ôl 16 neu 18 oed trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'r mater hwn, hefyd, yn teilyngu sylw.

46. Mae sefydliadau Addysg Uwch a Phellach yng Nghymru yn dod o fewn y diffiniad o 'gorff cyhoeddus' at ddibenion Deddf yr Iaith Gymraeg, ac felly rhaid iddynt baratoi cynlluniau iaith Gymraeg. Mae nifer o sefydliadau wedi llunio cynlluniau dros dro, a rhaid iddynt oll fod yn barod erbyn 2002. Un o amcanion y cynlluniau hyn yw crisialu sut y bydd y sefydliadau yn datblygu a thargedu darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg.

Crynodeb o'r ddarpariaeth ar ôl 16 oed (Y Cyngor Cenedlaethol - ELWa)

47. Mae'r Cyngor Cenedlaethol - ELWa yn paratoi Cynllun Iaith Gymraeg ar y cyd â'r Cyngor Addysg Uwch - ELWa, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Y dyddiad targed ar gyfer cyflwyno'r cynllun yw mis Mai 2002.

A. Y Cyngor Cenedlaethol - Polisiâu a Etifeddwyd a Chyllid

48. Mae'r Cyngor Cenedlaethol - ELWa wedi etifeddu amrywiaeth o fentrau i gynorthwyo addysg a hyfforddiant iaith Gymraeg yn y sector ar ôl 16 oed fel a ganlyn:

- **Y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion:** mae hon yn cael ei hariannu'n gyfan gwbl gan y Cyngor Cenedlaethol ac mae'n cynnwys amrywiaeth eang o ddarparwyr sy'n gweithio gyda'i gilydd mewn consortia Cymraeg i Oedolion. Fel yr awgryma'r enw, darpariaeth yw hon i ddysgu Cymraeg i Oedolion ac mae £1.3 miliwn yn cael ei wario ar hyn yn y flwyddyn academaidd hon.

- **Swyddog Cenedlaethol ar gyfer Cymraeg i Oedolion ac arholiadau Cymraeg i Oedolion** - mae £100k yn cael ei ddarparu bob blwyddyn i dalu am Swyddog Cenedlaethol i ddatblygu Cymraeg i Oedolion ac i ariannu arholiadau i ddysgwyr.
- **Uned Dwyieithrwydd** - bydd £55k yn cael ei ddarparu yn y flwyddyn ariannol hon i'r Uned Sgiliaith newydd yng Ngholeg Meirion Dwyfor. Sefydlwyd yr Uned i wasanaethu sefydliadau addysg bellach trwy ddatblygu adnoddau dysgu a chynnig hyfforddiant a chynghor ar ddulliau dwyieithog o addysgu. Bellach, bydd yn cwmpasu'r sector ar ôl 16 oed yn ei ystyr ehangaf, trwy weithio gyda disgyblion chweched dosbarth a darparwyr eraill.
- **Darpariaeth ddwyieithog ar ôl 16 oed** - Mae £1.69 miliwn wedi cael ei neilltuo ar gyfer 2001-02 fel cyllid premiwm ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach sy'n darparu cyrsiau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg a/neu'n ddwyieithog. Mae hyn yn ychwanegol i'r uned gyllid sylfaenol. Disgwylir i'r colegau Addysg Bellach gael cyfanswm o tua £10 miliwn ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Bydd yr arian yn cael ei ddyrannu ar sail y Fethodoleg Ariannu Rheolaidd, sy'n cael ei hadolygu, ac anelir at weithredu'r newidiadau mwyaf erbyn tymor yr hydref 2003.
- **Deunyddiau Dwyieithog trwy gyfrwng Prosiect y Rhyngrwyd** - Bydd £100k yn cael ei ddarparu i Dysg i reoli'r prosiect hwn, sy'n cynhyrchu deunyddiau dysgu newydd yn seiliedig ar y rhyngrwyd. Yn yr un modd â'r Uned, mae'r prosiect yn ymledu i'r sector ar ôl 16 oed yn ei ystyr ehangaf.

B. Ffynonellau gwybodaeth

49. Mae sawl ffynhonnell o wybodaeth a all helpu i roi gwybodaeth ar gyfer datblygiadau polisi yn y dyfodol:

Ariannu darpariaeth ddwyieithog a Chymraeg yn y sector addysg bellach (Ymchwil Canolfan Bedwyr ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru)

50. Cafodd hwn ei gomisiynu gan y Cyngor Cyllido Addysg Bellach yn 1999/2000 i ystyried sut y mae'r ddarpariaeth ddwyieithog a Chymraeg yn y sector Addysg Bellach yn cael ei hariannu. Daeth i'r casgliad nad oedd y fethodoleg bresennol wedi hybu twf mewn addysg Gymraeg a dwyieithog. Y rhesymau a awgrymodd am hyn oedd:

- nad yw'r dull presennol o weithredu yn mynd i'r afael â'r gwir ddiffyg mewn deunyddiau dysgu a bod y broses o wneud iawn am y diffyg yn araf a drud;
- nid oes digon o staff ar gael sy'n medru dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg;
- lle nad yw addysg cyfrwng Cymraeg yn weithgarwch craidd, ychydig o ymwybyddiaeth sydd ohoni a phrin yw'r gydnabyddiaeth a roddir iddi mewn sefydliadau ac mae felly yn isel o ran blaenoriaeth; ac
- mae rhai myfyrwyr yn amharod i ddilyn cyrsiau dwyieithog am amrywiol resymau megis pwysau o du eu cyfoedion; yr awydd i dorri pob cysylltiad â 'thraddodiadau'r ysgol'; y syniad bod cyrsiau Cymraeg yn fwy llafurus, efallai oherwydd prinder deunyddiau dysgu a'r ffaith nad oes digon o gyrff dyfarnu yn cynnig profion neu arholiadau yn Gymraeg; a diffyg hyder y myfyrwyr yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg.

51. Ystyriodd yr ymchwilwyr y premiwm ar gyfer cyrsiau Cymraeg a dwyieithog yn y fethodoleg ariannu rheolaidd a bu'n ystyried dulliau amgenach o ariannu. Y casgliad oedd y byddai'n well cymryd i ystyriaeth ffactorau cymdeithasegol ehangach yn ogystal â nifer y myfyrwyr ar y cyrsiau, mathau o gymwysterau, nifer y cyrsiau, costau seilwaith ac ati. Hefyd, awgrymwyd y dylai'r taliadau adlewyrchu'r dulliau dysgu a ddefnyddir (trafodwyd nifer o fodolau) i gefnogi'r arferion gorau. Rhoddwyd yr adroddiad i Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru ar ddechrau 2000 ac mae ar gael ar

eu gwefan. Bydd ei argymhellion yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu'r system gyllido genedlaethol newydd a hefyd wrth ddatblygu strategaeth a pholisïau y Cyngor Cenedlaethol.

Dilyniant mewn Addysg Iaith Gymraeg (Bwrdd yr Iaith Gymraeg)

52. Canfu'r ymchwil hwn yn 1999 bod dyfodol y Gymraeg yn dibynnu ar allu'r system addysg i greu siaradwyr Cymraeg i gynnal y gyfran bresennol o siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth (18.7% yn ôl cyfrifiad 1991) neu ei chynyddu. Yn ôl yr ymchwil, er bod 20.9% o ddisgyblion cynradd yn mynychu ysgolion sy'n defnyddio'r Gymraeg fel unig gyfrwng, prif gyfrwng neu gyfrwng rhannol y dysgu, mae'r gyfran hon yn disgyn i 12.9% mewn ysgolion uwchradd. Mewn sefydliadau Addysg Bellach cafodd llai na 2% o fyfyrwyr eu hasesu yn Gymraeg (ni roddwyd ystadegau ar gyfer myfyrwyr chweched dosbarth, felly nid yw hwn yn gofnod cywir o'r wir sefyllfa ar ôl 16 oed). Mae'r data hwn yn cuddio amrywiaethau rhanbarthol, ond, ar y cyfan, mae'r ffaith mai dim ond 12.9 % o ddisgyblion sy'n gorffen eu haddysg hyd at 16 oed yn Gymraeg yn golygu bod cyfran rhy fach i gynnal lefel y siaradwyr Cymraeg ym mhoblogaeth Cymru.

Astudiaeth o'r Angen am Sgiliau Cymraeg/Dwyieithog ym Musnesau Bach a Chanolig Gogledd Cymru a'r Goblygiadau ar gyfer Datblygu a Hyfforddi Adnoddau Dynol mewn perthynas â Chymraeg (Cwmni Iaith ar gyfer Celtec)

53. Daeth yr adroddiad hwn, a gomisiynwyd gan Celtec ar ddechrau 2001, i'r casgliad na fu'r cymorth ar gyfer hyfforddiant cyfrwng Cymraeg mor effeithiol ag y gallai fod. Gwelodd nad oedd digon o fentrau i gefnogi hyfforddiant a darpariaeth, a bod methiant i sicrhau bod hyfforddiant iaith Gymraeg yn cael ei ddarparu yn ôl y galw neu'n cael ei ddarparu gan y darparwyr (er bod Celtec wedi disgwyl i'r darparwyr fod â pholisi iaith Gymraeg). Gwelodd yr ymchwil bod galw o du cyflogwyr am sgiliau iaith Gymraeg mewn busnes, ond ni wnaeth y sawl oedd yn darparu hyfforddiant gynnig y math o hyfforddiant iaith Gymraeg oedd ei angen ar gyfer anghenion yr economi. At y dyfodol, argymhellodd yr adroddiad, ymhlith pethau eraill, y dylai ELWa:

- ymateb i angen lleol trwy weithio gyda phartneriaethau strategol a lleol;
- gwneud darparwyr yn ymwybodol o anghenion ELWa;
- gwneud dysgwyr yn ymwybodol o'r fantais o fod â sgiliau iaith Gymraeg, gan gynnwys anghenion cyflogwyr;
- cydlynu datblygu adnoddau a chael darparwyr i gydweithio, a
- rhoi cymorth i ddatblygu cwrs sgiliau allweddol mewn cyfathrebu dwyieithog – fel cwrs gorfodol neu gwrs a argymhellir yn gryf ar gyfer pob hyfforddai.

Tystiolaeth Ystadegol

54. Rhoddir gwybodaeth yn Nhabl A am y ddarpariaeth ddwyieithog/ Cymraeg ac yn Nhabl B am Gymraeg i Oedolion.

55. O'r hyn a welir yn Nhabl A, mae'n glir:

- bod nifer y sefydliadau sy'n cynnig y cyfryw gyrsiau yn amrywio, ond bod trwch y gweithgarwch mewn chwe sefydliad yng ngogledd a gorllewin Cymru;
- bod nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru ar y cyrsiau hyn ac sy'n cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu, ond bod y cyfansymiau yn fach iawn;
- fel cyfran o'r holl fyfyrwyr sy'n cofrestru ar y cyrsiau hyn, bod y nifer sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg/dwyieithog wedi gostwng; a

- bod y gyfran o'r holl fyfyrwyr sy'n cofrestru ar gyrsiau sy'n cael eu hariannu gan hen Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru ac sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg/yn ddwyieithog yn isel iawn.

56. O Dabl B, mae'n glir bod y nifer sy'n cofrestru ar gyrsiau Cymraeg i oedolion:

- wedi cynyddu'n sylweddol rhwng 1994/95 a 1999/00, ond wedi gostwng rhywfaint yn 2000/01. Mae'n rhy fuan i ddweud pam fod hyn wedi digwydd ac a fydd y duedd hon yn parhau; ac
- oherwydd y dull o gasglu data, nid oes modd o ddadansoddi sut y mae'r dysgwyr yn dod yn eu blaenau, ond mae tystiolaeth gref o ffynonellau eraill mai cyfran fach iawn o'r disgyblion sy'n dod yn rhugl yn yr iaith.

Tabl A

Cyrsiau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog mewn sefydliadau addysg bellach

Blwyddyn academaidd	1993/94	1994/95	1995/96	1996/97	1997/98	1998/99	1999/2000	2000/01
Nifer y sefydliadau sy'n darparu cyrsiau	17	16	19	19	17	11	12	15
Nifer y myfyrwyr cofrestredig sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg	2023	2288	2830	5550	4431	3503	4895	5483
Nifer y myfyrwyr cofrestredig ar yr un cyrsiau nad ydynt yn cael eu hasesu yn Gymraeg	1882	2346	3875	5498	4521	6821	6232	6022
Asesiadau Cymraeg fel % o'r holl fyfyrwyr sy'n cofrestru ar y cyrsiau hyn	51.8%	49.4%	42.2%	50.2%	49.5%	33.9%	44.0%	47.7%
Cyfanswm y cofrestriadau a ariennir gan CCABC/ y Cyngor Cenedlaethol	136468	193735	255039	298873	304348	308381	353972	435106
Asesiadau Cymraeg fel % o gyfanswm y cofrestriadau a ariennir gan CCABC/ y Cyngor Cenedlaethol	1.5%	1.2%	1.1%	1.9%	1.5%	1.1%	1.4%	1.3%
<i>Ffynhonnell y data: Midfess C</i>								

Tabl B

Cofrestriadau a ariennir ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion rhwng 1994/95 a 2000/01

Blwyddyn academaidd	1994/95	1995/96	1996/97	1997/98	1998/99	1999/00	2000/01
Nifer y cofrestriadau a ariennir	15894	18966	20762	21643	21500	23634	21011

Ffynhonnell: RFM (Ffurflen C cyllidol - y gorau o FEES/MIDFESS gan gynnwys rhagdybiaethau). Cafwyd data 1994/95 a 1995/96 trwy hidlo yn ôl [pwnc astudio]='Q520' ac ardal y rhaglen Addysg Bellach=18A. Nid oedd data ar gael ar gyfer 1995/96 am ddarpariaeth a noddwyd. Mae 1996/97 yn seiliedig ar gofrestriadau lle mae [ardal y rhaglen]=18A a [chod uwchddosbarth]=FK.357

Addysg Uwch

57. Mae nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru ar gyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch wedi aros yn weddol sefydlog dros y pum neu'r chwe mlynedd diwethaf, sef tua 1,000 o fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn. Mae hyn yn cynrychioli tua 1,500 o fyfyrwyr mewn gwirionedd gan fod nifer ohonynt heb fod yn dilyn eu cwrs cyfan trwy gyfrwng y Gymraeg. Ym mlwyddyn academaidd 1999/2000, sef flwyddyn ddiwethaf y mae data ar gael ar ei chyfer, roedd bron 1,050 o fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn wedi cofrestru ar gyrsiau cyfrwng Cymraeg, sef cynnydd bach ers blwyddyn academaidd 1998/99 lle'r oedd y ffigur wedi cwmpo i 970 cyfwerth ag amser llawn o 1040 cyfwerth ag amser llawn ym mlwyddyn academaidd 1997/98.

58. Bydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn neilltuo cyfanswm o £1.1 miliwn fel premiwm cyfrwng Cymraeg ym mlwyddyn academaidd 2001/02 i ddeg sefydliad (tri yn fwy na'r llynedd) i dalu am y costau ychwanegol sydd ynghlwm wrth ddarparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg. Bydd swm arall o

£284,000 yn cael ei ryddhau yn amodol ar dderbyn strategaethau derbyniol ar gyfer cynnal, datblygu ac ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Diben hyn yw annog sefydliadau i edrych mewn modd hirdymor ar gynllunio datblygiad eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu £50,000 tuag at gostau Uned Addysgu Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru, a £126,000 ar gyfer datblygu Tystysgrif Addysg i Raddedigion dwyieithog ar ffurf dysgu agored a dysgu o bell. Caiff ei datblygu gan gonsortwm o bedwar sefydliad.

59. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Swyddog Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru yn cyfrannu at adborth y Cyngor ar strategaethau'r sefydliadau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd swyddogion CCAUC hefyd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o'r Cyngor Cenedlaethol er mwyn gwella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu sectorau eu hunain a hefyd er mwyn sicrhau bod y ddau Gyngor yn gweithredu yn yr un modd, eu bod yn hwyluso cynnydd ac yn elwa ar arferion da a datblygiadau ym mhob maes o addysg a hyfforddiant ar ôl 16 oed, neu mewn meysydd eraill.

60. Bydd ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector Addysg Uwch yn golygu defnyddio amrywiaeth eang o weithgareddau sydd â goblygiadau a allai fod yn arwyddocaol o ran adnoddau – ymchwilio i'r farchnad, ysgogi galw, hyrwyddo a recriwtio, datblygu cyrsiau a deunyddiau perthnasol, darparu cymorth ieithyddol ar gyfer myfyrwyr, manteisio ar TGCh, a chreu carfan o staff sydd â chymwysterau priodol. Mae'r strategaethau cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu datblygu gan y sefydliadau, ynghyd â'r Cynlluniau Iaith Gymraeg a rôl Uned Addysgu Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru, yn allweddol o ran creu dull strategol a chydweithredol o fynd i'r afael â'r materion hyn.

61. Mae CCAUC yn rhoi cyllid ychwanegol i sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer gwneud darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac mae wedi neilltuo cyllid ar gyfer cynlluniau i wneud darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar sail strategol ar draws pob sefydliad. Ym mlwyddyn academaidd 1999-2000, o'r myfyrwyr hynny a gofrestrodd gyda sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru, trwch blewyn dros 2900 a gafodd unrhyw addysg trwy gyfrwng y Gymraeg; roedd tua hanner y myfyrwyr hyn ar gyrsiau ymarfer dysgu.

Darpariaeth arall ar ôl 16 oed

62. Mae learndirect y Brifysgol dros Ddiwydiant yn ddull o ddysgu o hirbell sy'n tyfu, a gellir ei ddefnyddio mewn canolfannau dysgu, yn y gweithle neu gartref. Mae'r Cynulliad wedi cyfrannu at y gost o sefydlu gwefan iaith Gymraeg, sef cyswllt dysgu. Mae mwy a mwy o ddeunyddiau dysgu yn cael eu darparu yn Gymraeg. Blaenoriaethau cyntaf y Brifysgol dros Ddiwydiant yw sgiliau TG, sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol, sgiliau ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig ac anghenion y diwydiannau aml-gyfrwng, adwerthu, modurol ac amgylcheddol o ran sgiliau. Mae Coleg Digidol Cymru yn ddatblygiad sy'n cyd-fynd â hyn. Mae'r gwasanaeth dwyieithog hwn yn defnyddio teledu digidol a dechreuodd ddarlledu fis Tachwedd 2000. Mae'r Cynulliad, law yn llaw ag ELWa ac ACCAC, yn ariannu prosiect i gryfhau'r dull o ddarparu cymwysterau galwedigaethol cenedlaethol trwy gyfrwng y Gymraeg.

63. Hefyd, mae angen i bobl ifanc ddeall y dimensiwn Cymraeg gan gynnwys yr iaith a chael cyfle i archwilio diwylliant Cymraeg y tu allan i fynd addysg ffurfiol. Mae'r Gwasanaeth Ieuencid mewn sefyllfa ddelfrydol i hyrwyddo'r gwaith hwn trwy ei gysylltiad gwirfoddol ag unigolion a grwpiau o bobl ifanc. Mewn rhai siroedd yng Nghymru mae clybiau ieuencid Cymraeg a dwyieithog lle rhoddir cydnabyddiaeth i ddiwylliant Cymraeg ac, wrth gwrs yr iaith. Mae'r Datganiad ar Waith Ieuencid yng Nghymru yn datgan y dylai cyfleoedd gwaith, ymhlith pethau eraill, olygu

"annog a galluogi pobl ifanc i fynegi eu meddyliau, eu hemosiynau, eu dyheadau a'u hunaniaeth ddiwylliannol trwy weithgareddau creadigol, llawn her, yn enwedig y gweithgareddau hynny sy'n gwella yr hyn y maent yn ei ddeall am ddwyieithrwydd, treftadaeth a diwylliannau Cymru."

Mae'n bwysig bod gwaith gyda'r iaith mewn sefyllfaoedd ffurfiol yn parhau i gael ei gefnogi gan yr amrywiaeth eang o sefydliadau ieuenctid yng Nghymru.

Goblygiadau ariannol

64. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn codi o'r papur hwn.

Cydymffurfiaeth

65. Nid oes unrhyw faterion newydd o ran cydymffurfiaeth yn deillio o'r papur hwn.

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes
Rhagfyr 2001**

Atodiad IV

ROLAU A SWYDDOGAETHAU

Cyfeirir at sefydliadau amrywiol sy'n ymwneud ag addysg a dysgu gydol oes yn yr adroddiad. Ceir disgrifiad byr o'u rolau a'u swyddogaethau isod.

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am y strategaeth gyffredinol ar gyfer addysg a dysgu gydol oes yng Nghymru. Mae Gweinidog y Cynulliad (Jane Davidson AC) yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch amrediad eang o bynciau ac yn rhoi arian i Awdurdodau Addysg Lleol (AALI), y cynghorau cyllido addysg bellach ac uwch (y Cyngor Cenedlaethol – ELWa a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru), Estyn, ACCAC ac eraill.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Fe'i sefydlwyd yn Rhagfyr 1993 o dan delerau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Ei brif swyddogaeth yw hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 daeth y Bwrdd yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Prif nod y Bwrdd yw ei gwneud hi'n haws i bawb ddefnyddio'r Gymraeg ymhob agwedd ar fywyd, i fagu hyder pobl yn eu gallu i ddefnyddio'r iaith, i annog mwy o bobl i siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg mewn sefyllfaoedd newydd, ac i drosglwyddo'r iaith i'w plant.

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn anelu at weithio mewn partneriaeth â chyrff sector cyhoeddus, busnesau preifat a mudiadau gwirfoddol, yn cynnig cyngor ac adnoddau i helpu darparwyr gwasanaethau yng Nghymru i roi dewis iaith i'w cwsmeriaid yn naturiol.

Awdurdodau Addysg Lleol

Mae AALLau yn gyfrifol am addysg statudol yn ei chyfanrwydd yn eu hardaloedd. Maent yn cydweithio'n agos ag ysgolion a cholegau er mwyn darparu cwricwlwm eang a chytbwys. Cânt eu hariannu gan y Cynulliad Cenedlaethol yn rhannol, gyda'r gweddill yn dod o drethi lleol.

Estyn

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fe'i hariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, ond mae'n gorff annibynnol ar y Cynulliad. Mae'r Prif Arolygydd a'i staff yn weision sifil.

Mae Estyn yn ymwneud ag ystod eang o weithgareddau addysg a hyfforddiant, ac mae'n gyfrifol am arolygu:

- Darpariaeth blynyddoedd cynnar yn y sector nas cynhelir;
- Ysgolion cynradd;
- Ysgolion uwchradd;
- Ysgolion arbennig (gan gynnwys ysgolion arbennig annibynnol);

- Unedau cyfeirio disgyblion;
- Ysgolion annibynnol;
- Addysg bellach;
- Asiantaethau ieuencid gwirfoddol;
- Awdurdodau addysg lleol (AALLau);
- Addysg a hyfforddiant i athrawon;
- Hyfforddiant sy'n seiliedig ar waith;
- Cwmnïau Gyrfa Cymru;
- Yr elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant ar y Fargen Newydd; ac
- Addysg i oedolion.

Mae dyletswyddau eraill Estyn yn cynnwys cynnig cyngor yn unol â chylch gorchwyl a bennir yn flynyddol gan Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.

ACCAC

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC). Dyma brif gorff ymgynghorol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar bob agwedd ar gwricwlwm yr ysgol, arholiadau, asesu a chymwysterau galwedigaethol.

Mae ACCAC yn gyfrifol am:

- Sicrhau ansawdd a safonau mewn cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol allanol;
- Adolygu pob agwedd ar gwricwlwm yr ysgol a threfniadau asesu statudol ar gyfer ysgolion a gynhelir; a
- Chomisiynu deunyddiau dosbarth Cymraeg a dwyieithog er mwyn cynorthwyo wrth ddysgu Cymraeg, pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg ac agweddau ar y cwricwlwm sy'n ymwneud â Chymru'n benodol.

Mae'n ofynnol i ACCAC gyflawni ei swyddogaethau at ddibenion datblygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru gan anelu at hyrwyddo cydraddoldeb a chydlyniant mewn addysg a hyfforddiant.

Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC)

Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) fel consortiwm o awdurdodau addysg lleol yn 1948. Bellach mae wedi'i sefydlu fel cwmni a gyfyngir trwy warant ac elusen, ac mae'n darparu amrediad o wasanaethau addysgol, gan gynnwys:

- Cynnig amrediad o gymwysterau academiaidd a galwedigaethol;
- Cefnogi'r cymwysterau hyn trwy hyfforddiant mewn swydd i athrawon (HMS), deunyddiau hyfforddi a rhwyddineb trafod â swyddogion pwnc;
- Darparu amrediad o adnoddau addysgol gan gynnwys adnoddau cyfrwng Cymraeg a chefnogaeth i'r Cwricwlwm Cymreig;
- Cynhyrchu adnoddau Cymraeg a dwyieithog;

- Darparu rhaglen HMS genedlaethol ar gyfer athrawon y Gymraeg, ac athrawon sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Darparu gwasanaethau i Gerddorfa Genedlaethol Ieuencid Cymru a Theatr Genedlaethol Ieuencid Cymru a dilysu cyrsiau mewn Celf a Dylunio; ac
- Achredu canolfannau ar gyfer cofnodion cyrhaeddiad.

Mae CBAC yn cynnig arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg ar bob lefel. Mae'r rhain yn cynnwys y Dystysgrif Cyrhaeddiad Addysgol, TGAU, Safon A ac AS (gan gynnwys papurau arbennig Safon S) yn ôl y galw: bydd fersiwn Cymraeg o bapur arholiad yn cael ei baratoi pan fo un neu fwy o ymgeiswyr yn dymuno sefyll arholiad arbennig drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae CBAC yn gyfrifol am farcio Tasgau Asesu Safonol (TASau) Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (CA2/3).

Mae CBAC yn darparu gwasanaethau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru a'r celfyddydau mynegiannol ar ran awdurdodau addysg lleol yng Nghymru. Mae MEU Cymru a'r Uned Ewropeaidd hefyd yn rhan o CBAC.

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CACC)

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yw'r corff statudol, hunanreoleiddiol a phroffesiynol ar gyfer athrawon yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn ceisio codi statws y proffesiwn dysgu trwy gynnal a hyrwyddo'r safonau uchaf gyda golwg ar arferion proffesiynol ac ymddygiad, er lles athrawon, disgyblion a'r cyhoedd.

Nod y Cyngor yw darparu llais annibynnol, cynrychioliadol ac awdurdodol ar gyfer y proffesiwn dysgu yng Nghymru, ac mae'n cynnig cyngor i'r Cynulliad Cenedlaethol a sefydliadau eraill ynghylch materion dysgu.

Dyma rai o brif gyfrifoldebau'r Cyngor:

- Cynghori'r Cynulliad ac eraill ar faterion yn ymwneud â dysgu megis datblygiad proffesiynol parhaus a recriwtio i'r proffesiwn dysgu;
- Ceisio gwella morâl yn y proffesiwn dysgu a chodi statws athrawon yng ngolwg y cyhoedd; a
- Chynnal a hyrwyddo safonau proffesiynol uchel drwy'r gofrestr, y Cod Proffesiynol a'r gwaith ar ymddygiad a chymhwysedd proffesiynol.

ELWa – Dysgu ac Addysgu Cymru

Mae ELWa (Dysgu ac Addysgu Cymru) yn cynnwys y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Y Cyngor Cenedlaethol – ELWa) a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae'r ddau gorff hyn yn Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ac yn gweithredu o dan yr enw ELWa.

Y Cyngor Cenedlaethol - ELWa

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa, ac fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Ei enw statudol yw'r Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Ar 1 Ebrill 2001, ysgwyddodd y rhan fwyaf o swyddogaethau'r pedwar Cyngor Hyfforddi a Menter a swyddogaethau Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru. Daeth yn gyfrifol am ariannu, cynllunio a hyrwyddo pob agwedd ar addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru, ac eithrio Addysg Uwch.

Mae'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa yn gyfrifol am addysg bellach, darpariaeth hyfforddiant yn y sectorau preifat a gwirfoddol, addysg barhaol i oedolion ac, o Ebrill 2002 ymlaen, y ddarpariaeth chweched dosbarth.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch, ac fe'i sefydlwyd ym mis Mai 1992 o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Daeth y Cyngor yn gyfrifol am ariannu addysg uwch yng Nghymru ym mis Ebrill 1993. Mae'n gweinyddu cyllid ddaw ar gael o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gefnogi addysg, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig mewn tri ar ddeg o sefydliadau addysg uwch. Mae hefyd yn darparu cyllid ar gyfer cyrsiau addysg uwch penodol mewn colegau addysg bellach.

O dan Ddeddf Addysg 1994, mae'r Cyngor yn gyfrifol am ariannu hyfforddiant dysgu cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau ariannu, mae'r Cyngor yn cynnig cyngor i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar anghenion cyllid, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.

Mudiad Ysgolion Meithrin

Mudiad gwirfoddol yw'r Mudiad Ysgolion Meithrin, ac mae'n sefydlu ac yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal ac addysg blynnyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector gwirfoddol. Gwneir hyn trwy Gylchoedd Ti a Fi (cylchoedd cyfrwng Cymraeg ar gyfer rhiant/gofalwr a phlentyn) a Chylchoedd Meithrin (cylchoedd chwarae cyfrwng Cymraeg).

Mae pob Cylch Meithrin yn elusen gofrestrdig, ac yn cael ei reoli gan bwyllgor o rieni ac aelodau cysylltiol. Cefnogir y Cylchoedd gan rwydwaith cenedlaethol o swyddogion datblygu proffesiynol, sy'n darparu cyngor a gofal bugeiliol, ac sydd hefyd yn monitro ansawdd yn y grwpiau.

Mae gwreiddiau pob Cylch yn ddwfn yn y gymuned leol, ac maent yn gwasanaethu'r gymuned honno, yn ogystal â marchnata manteision bod yn ddwyieithog a mynychu addysg cyfrwng Cymraeg, i rieni a darpar rieni.

Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru

Mae Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru yn ceisio gwella datblygiad, gofal ac addysg plant cyn-ysgol yng Nghymru. Mae'n ceisio rhoi hwb i hyder oedolion er mwyn iddynt wneud y defnydd gorau o'u gwybodaeth a'u hadnoddau, er eu lles hwy a phlant cyn-ysgol.

Bwrdd Prifysgol Cymru ar gyfer Dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Sefydlwyd Bwrdd Dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg Prifysgol Cymru yn 2000 ar ran y sector Addysg Uwch yn ei gyfanrwydd. Ei bwrpas yw cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, ac ehangu amrediad y ddarpariaeth sydd ar gael. Ei brif weithgareddau yw hybu a marchnata darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddarpar fyfyrwyr, annog mwy o weithio ar y cyd yn y sector, a datblygu darpariaeth newydd.

Atodiad V

YR YMGYNGHORIAD

Cyhoeddwyd llythyr ymgynghori ar 18 Ionawr 2002 a gofynnwyd am ymateb erbyn 28 Chwefror 2002. Gwahoddodd y Pwyllgor tua 2000 o gyrff a sefydliadau gan gynnwys pob ysgol, sefydliad addysg bellach ac uwch a phob awdurdod addysg lleol yng Nghymru i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Cafwyd 70 o ymatebion ac mae rhestr o'r rhain drosodd. Mae'r rhai sydd wedi'u marcio â (✓) ar gael o wefan y Cynulliad – www.cymru.gov.uk - o dan pwyllgorau/Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes/adolygiadau polisi/yr iaith Gymraeg mewn addysg.

Mae'r llythyr ymgynghori a rhestr o ymgynghorwyr hefyd ar gael o'r wefan uchod.

Ymatebion Uniongyrchol i'r Ymgynghoriad

Cyfundrefn/Unigolyn	Ar gael ar y wefan
ACCAC	
Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr, Cymru	
Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru	
Ysgol Gyfun Birchgrove	
Canolfan Bedwyr	
Prifysgol Caerdydd	
Coleg Sir Gâr	
Cyngor Sir Gaerfyrddin	
Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain (Cymru)	
Consortiwm Cymraeg i Oedolion Gorllewin Morgannwg	
CYDAG	✓
Cymdeithas yr Iaith	
Cymuned	✓
Dafydd Glyn Jones	
Adran Addysg, Prifysgol Cymru, Aberatwe	
Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd	
Dr Cen Williams	
Dr Hywel Glyn Lewis	
Consortiwm Cymraeg i Oedolion, Dyfed	✓
Dysg	
ELWa - CCAUC	✓
ELWa - Cyngor Cenedlaethol	✓
Gwasanaeth Cyflogi, Swyddfa Cymru	
Estyn	
Ysgol Uwchradd Fairwater	
Fforwm a Sgiliaith	
Ysgol Gynradd Gellifaelog	
Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru	
Gwylon Phillips	✓
Cyngor Gwynedd	
Addysg Uwch Cymru	✓
Plaid Annibynol Cymru	
Sefydliad Materion Cymreig	
Menter a Busnes	
Merched y Wawr	✓
Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful	
Cyngor Sir Fynwy	
Mudiad Ysgolion Meithrin	✓
Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau	
Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru	✓

AAI Castell Nedd Port Talbot	✓
AAI Casnewydd	
Undeb Cenedlaethol yr Athrawon	✓
P.A Davies	
Popeth Cymraeg	
Cyngor Sir Powys	
RhAG	
AAI Rhondda Cynon Taff	
RNID Cymru	✓
S4C	✓
SCOVO	
The National Deaf Children's Society (Cymru)	✓
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	
AAI Torfaen	✓
UCAC	✓
University Council for the Education of Teachers, Cymru	
Bwrdd Prifysgol Cymru ar gyfer Dysgu drwy Gyfrwng y Gymraeg	
Prifysgol Cymru, Bangor	
Cyngor Bro Morgannwg	
W Gwyn Lewis	✓
Cyngres yr Undebau Llafur Cymru	✓
Cyngor Llyfrau Cymru	✓
Prosiect Dyslecsia Cymru	
Consortia Cymraeg i Oedolion	
Cyd Bwyllgor Addysg Cymru	
Bwrdd yr Iaith Gymraeg	
Pwyllgor Therapi Lleferydd ac Iaith Gymraeg	
Ysgol Bryn Hedydd, Rhyl	
Ysgol Gyfun Gellifedw, Abertawe	
Ysgol Uwchradd Glan Clwyd	✓

Atodiad VI

TYSTIOLAETH A GYFLWYNWYD I'R PWYLLGOR

Gellir cael yr holl baburau hyn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol yn www.cymru.gov.uk yn adran y pwyllgorau.

Enw	Cyfeirnod y papur	Dyddiad
Bwrdd yr Iaith Gymraeg - Cynllunio dyfodol addysg gydol oes cyfrwng Cymraeg a dwyieithog	ELL 01-02(p.4)a	16 Ionawr 2002
Bwrdd yr Iaith Gymraeg - Ymateb i'r ddogfen 'Y Wlad sy'n Dysgu'	ELL 01-02(p.4)b	16 Ionawr 2002
Ysgol Bro Ddyfi	ELL 02-02(cofn)	30 Ionawr 2002
Ysgol Uwchradd y Drenewydd - Datblygiad addysg trwy gyfrwng y Gymraeg	ELL 02-02(p.3)	30 Ionawr 2002
Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig, Aberystwyth - Cefndir cryno i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes	ELL 02-02(p.4)	30 Ionawr 2002
RhAG	ELL 03-02(p.1)	7 Chwefror 2002
Fforwm a Sgiliaith	ELL 03-02(p.2)	7 Chwefror 2002
CYDAG	ELL 03-02(p.3)	7 Chwefror 2002
Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr, Cymru	ELL 04-02(p.3)	13 Chwefror 2002
Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru	ELL 04-02(p.4)	13 Chwefror 2002
Cyngor y Prifysgolion ar Ddysgu Athrawon, Cymru	ELL 04-02(p.5)	13 Chwefror 2002
Nodiadau siarad Cyngor y Prifysgol ar Ddysgu Athrawon, Cymru	ELL 04-02(cofn)	13 Chwefror 2002
Nodiadau siarad Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru	ELL 04-02(cofn)	13 Chwefror 2002
ACCAC	ELL 05-02(p.1)	6 Mawrth 2002
NASUWT Cymru	ELL 05-02(p.2)	6 Mawrth 2002
Cyngor Cenedlaethol - ELWa	ELL 05-02(p.3)	6 Mawrth 2002
Cymru Ddwylieithog - Diffiniad awgrymiedig	ELL 05-02(p.4)	6 Mawrth 2002
Consortia Cymraeg i Oedolion	ELL 06-02(p.3)	20 Mawrth 2002
Dr Cen Williams	ELL 06-02(p.4)	20 Mawrth 2002
Adroddiad yr Ymgynghorydd	ELL 06-02(p.7)	20 Mawrth 2002

Arbenigol ar ymweliad ag ysgolion uwchradd yng Ngogledd Cymru		
UCAC	ELL 07-02(p.2)	24 Ebrill 2002
Bwrdd y Brifysgol ar gyfer Dysgu trwy Gyfrwng y Gymraeg	ELL 07-02(p.3)	24 Ebrill 2002
Estyn	ELL 07-02(p.4)	24 Ebrill 2002
Pwyllgor Therapi Lleferydd ac Iaith Gymraeg	ELL 08-02(p.1)	2 Mai 2002
Mudiad Ysgolion Meithrin	ELL 08-02(p.2)	2 Mai 2002
Ysgol Emrys ap Iwan	ELL 08-02(cofn)	2 Mai 2002
Ysgol Eirias	ELL 08-02(cofn)	2 Mai 2002
Ysgol Gyfun Mynwy	ELL 08-02(cofn)	2 Mai 2002
Profiad o addysgu dwyieithog mewn gwledydd eraill - Canada	ELL 09-02(p.2)	8 Mai 2002
Profiad o addysgu dwyieithog mewn gwledydd eraill - Gwlad y Basg	ELL 09-02(p.3)	8 Mai 2002

Pwyllgor y Rhanbarth y De Orllewin - 15 Mawrth 2002

Tystiolaeth Llafar wedi'u cymryd ar ran y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

Cyngor Sir Caerfyrddin	SWWR 02-02(p.1)
Ysgol y Gwendraeth	SWWR 02-02(cofn)
Ysgol Bro Myrddin	SWWR 02-02(p.3)
Ysgol Gyfun Dyffryn Aman	SWWR 02-02(p.4)
RhAG	SWWR 02-02(p.5)
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	SWWR 02-02(p.6)
Coleg Celf a Thechnoleg Sir Gâr	SWWR 02-02(p.7)

Atodiad VII

TYSTIOLAETH A GYFLWYNWYD GAN DDISGYBLION YSGOLION UWCHRADD

Un agwedd bwysig ar yr Adolygiad oedd casglu gwybodaeth am y ddarpariaeth Gymraeg oddi wrth ddisgyblion ysgolion uwchradd ledled Cymru. Gwahoddwyd disgyblion i rannu'u profiad o ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol. Defnyddiwyd dwy ffordd o gasglu'r wybodaeth:

- a) Cyflwyniadau gerbron y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a Phwyllgor Rhanbarth y De-orllewin; a
- b) Cyfarfodydd â disgyblion yn ystod ymweliadau ag ysgolion ym mis Chwefror ac Ebrill 2002.

Lleoliad daearyddol yr ysgolion

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau cynrychiolaeth o Gymru gyfan; yr oedd y lleoliadau'n ymestyn o Gaergybi i Sir Fynwy, ac o Abergele i Gwm Gwendraeth.

Natur y ddarpariaeth Gymraeg ei hiaith

Yr oedd yr ysgolion a ddewiswyd yn darparu sbectrwm eang o ran y ddarpariaeth Gymraeg. Cynrychiolwyd ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n cynnig pob pwnc (ac eithrio'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal ag ysgolion Saesneg eu cyfrwng lle y dysgir Cymraeg fel pwnc yn unig (ail iaith). Yr oedd y ddarpariaeth Gymraeg a gynigiwyd gan yr ysgolion eraill yn amrywio o ddysgu bron pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg a dysgu Cymraeg fel mamiaith, i gynnig nifer fach iawn o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg (a dysgu Cymraeg fel mamiaith) i nifer cyfyngedig o ddisgyblion.

Cyswllt â'r Gymraeg yn y gymuned

Yr oedd yr ysgolion yn amrywio'n sylweddol nid yn unig yn nhermau'r ddarpariaeth ieithyddol ond hefyd yn nhermau patrymau o ddefnydd ieithyddol yn y gymuned leol. Er na wneir ymgais yn y fan hon i ddsbarthu'r ardaloedd a gynrychiolwyd yn ôl maint y bywiogrwydd ieithyddol, rhaid nodi bod y gwahanol lefelau o gyswllt gyda'r Gymraeg yn amgylchedd yr ysgol yn cael eu nodweddu ymhellach gan wahaniaethau pwysig mewn perthynas â chyswllt y plant â'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Mae'r sefyllfaoedd hyn yn amrywio o gymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn rheolaidd bob dydd gan nifer sylweddol o'r boblogaeth a lle mae gan y disgyblion gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amgylchiadau cymdeithasol y tu allan i'r ysgol, i'r sefyllfaoedd lle na chlywir y Gymraeg y tu allan i furiau'r ysgol. Yn ogystal, yr oedd cyswllt y plant â'r Gymraeg o fewn eu teuluoedd yn amrywio'n helaeth hefyd.

Trefniadau cychwynnol a'r wybodaeth a ddarparwyd ar ran yr ysgolion: mynychu'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

Unwaith y cafwyd cyswllt cychwynnol gyda'r ysgolion, esboniwyd i'r Penaethiaid a'u cynrychiolwyr mai diben y cyfarfodydd gyda'r disgyblion oedd ceisio'u safbwyntiau a'u hagweddau mewn perthynas â'u profiad o'r Gymraeg yn yr ysgol. Yr oedd hyn hefyd yn cynnwys trafod rhai agweddau ar ymddygiad ieithyddol rhai o'r plant y tu allan i'r ysgol. Fe'u gwahoddwyd i drefnu bod nifer fach o ddisgyblion (dau

neu dri) yn mynychu un o gyfarfodydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Gwahoddwyd disgyblion i baratoi cyflwyniad byr wedi ei lunio yn ôl y canllawiau canlynol:

1. Esboniad byr o gefndir addysgol (blwyddyn; ysgol gynradd a fynychwyd)
2. Cefndir ieithyddol (patrymau defnydd ieithyddol gartref ac mewn rhwydweithiau cymdeithasol)
3. Cyswllt â'r Gymraeg yn yr ysgol (Cymraeg fel pwnc - iaith gyntaf ac ail iaith; Cymraeg fel cyfrwng; gweithgareddau allgyrsiol)
4. Ymwybyddiaeth/ hunan-werthuso hyfedredd yn y Gymraeg
5. Agweddau tuag at eu profiadau o'r Gymraeg yn yr ysgol (gwerthuso gwahanol agweddau ar eu dysgu - cadarnhaol a negyddol; unrhyw ffactorau sydd wedi peri iddynt newid eu hagweddau?)
6. Edrych tua'r dyfodol; pa mor ddefnyddiol a phwysig yw'r Gymraeg iddynt yn eu gyrfaoedd a'u bywydau yn y dyfodol

Trefniadau cychwynnol a'r wybodaeth a roddwyd i'r ysgolion: Ymweld â'r Ysgolion

Cysylltwyd â Chyfarwyddwyr Addysg y pedwar Awdurdod Addysg Lleol perthnasol, a rhoddwyd caniatâd i ni gysylltu â'r chwe phennaeth. Trefnwyd i gynnal yr ymweliadau yn ystod oriau arferol yr ysgol, ym mis Chwefror ac Ebrill 2002. Rhoddwyd gwybodaeth i'r ysgolion am y prif feysydd trafod, ond gofynnwyd i'r disgyblion beidio â pharatoi cyflwyniadau cyn y cyfarfod. Esboniwyd iddynt nad gwerthuso dulliau dysgu penodol oedd y nod.

Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

Cynhaliwyd y cyflwyniadau i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ym mis Ionawr a mis Mai 2002. Cafwyd cynrychiolaeth oddi wrth chwe ysgol. Dylanwadodd ffactorau megis oed a hyder y disgyblion ar faint o arweiniad a chwestiynu oedd ei angen i lywio'r sgwrs. Fe gyfrannodd y disgyblion yn Gymraeg a Saesneg, yn unol â'u hamgylchiadau unigol.

Pwyllgor Rhanbarth y De-orllewin

Cynhaliwyd y cyflwyniadau i'r Pwyllgor Rhanbarth yn Rhydaman ym mis Mawrth 2002. Cynrychiolwyd tair ysgol. Cysylltwyd â'r Penaethiaid a gofynnwyd i'r disgyblion baratoi cyflwyniad byr.

Ymweld â'r ysgolion

Gwnaeth pob un o'r cyfarfodydd bara rhwng ugain a deugain munud. Gwelwyd cyfanswm o ddeg grwp. Yr oedd y grwpiau'n cynnwys rhwng tri ac ugain o ddisgyblion, yn cynrychioli blynyddoedd 7 hyd 11. Sicrhawyd disgyblion nad gwerthuso hyfedredd ieithyddol unigolion oedd y bwriad, ac fe'u hatgoffwyd nad oeddynt i gynnig sylwadau am athrawon unigol. Yr oedd cyfansoddiad pob grwp yn penderfynu, i raddau helaeth, union natur y sesiynau, ac unwaith eto dylanwadodd ffactorau megis oed a gallu'r disgyblion ar faint o arweiniad a chwestiynu oedd ei angen i lywio'r sgwrs. Serch hynny, yr oedd pob trafodaeth wedi'i strwythuro ar hyd y canllawiau a roddwyd i'r ysgolion a fyddai'n dod

gerbron y Pwyllgor (gweler uchod). Cynhaliwyd y sesiynau yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn ôl amgylchiadau'r disgyblion penodol.

Sylwadau Cyffredinol

Dylid nodi, er gwaetha'r camau a gymerwyd i sicrhau sbectrwm mor eang â phosib yn nhermau'r ddarpariaeth ieithyddol sydd ar gael i ddisgyblion, bod natur y sampl a ddewiswyd ar gyfer yr ymarfer hwn yn cyfyngu ar y graddau y gall y sylwadau hyn gynrychioli Cymru gyfan. Hefyd, yr oedd nifer o'r safbwyntiau a gynigiwyd gan y disgyblion yn adlewyrchu nid yn unig natur y ddarpariaeth a gynigir gan yr ysgolion ond hefyd amrywiaeth o ffactorau cymdeithasol ddiwylliannol ac amgylchiadau personol. Serch hynny, er bod yna gyfyngiadau clir i'r canlyniadau y gellir eu casglu oddi wrth gwerthusiad tebyg i hwn, amlinellwyd nifer o faterion pwysig yn sylwadau'r disgyblion.

1. Barn y disgyblion eu hunain am eu hyfedredd yn y Gymraeg

(i) Tueddiadau Cyffredinol

Cafwyd ymhlith y disgyblion i gyd, ac yn enwedig y rhai hynaf, ymwybyddiaeth gref o'u hyfedredd yn y Gymraeg. Ymddengys fod cydberthynas agos rhwng y canfyddiadau hyn a'r defnydd a wneir o'r iaith gan y disgyblion.

Ymddengys felly bod tri ffactor yn dylanwadu ar lefelau hyfedredd y disgyblion yn yr iaith Gymraeg:

- a) Natur y ddarpariaeth ieithyddol yn yr ysgol
- b) Cefndir ieithyddol (sef iaith y rhieni ac aelodau eraill o'r teulu)
- c) Cyfleoedd a chymhelliant i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i amgylchedd yr ysgol

Rhaid nodi nad yw'r tri yma mewn unrhyw drefn o ran blaenoriaeth, gan nad yw natur y gwerthusiad yn caniatáu canlyniadau meintiol dibynadwy. Serch hynny, yn gyffredinol, yr oedd y wybodaeth a ddarparwyd gan y disgyblion yn awgrymu bod y tebygolrwydd o ennill lefelau uchel o hyfedredd yn y Gymraeg yn cynyddu wrth i'w cyswllt â'r iaith Gymraeg gynyddu, a phan fo'r amgylchedd ieithyddol y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn atgyfnerthu'u sgiliau ieithyddol.

Yr oedd y disgyblion a oedd yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg penodol yn gyffredinol hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar ac wrth ddefnyddio'r iaith fel cyfrwng ar gyfer eu hastudiaethau. Serch hynny, daeth amrywiaethau pwysig i'r amlwg yn y fan hyn, gyda rhai disgyblion yn nodi anawsterau wrth ddeall a chyfathrebu â siaradwyr Cymraeg mewn rhannau eraill o Gymru. Yr oedd ymatebion fel hyn yn nodweddiadol o ymatebion y disgyblion hynny sydd heb ryw lawer o gyswllt â'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Ar yr un pryd, dangoswyd sut yr oedd cysylltiadau'r disgyblion â chymunedau Cymraeg eu hiaith yn cynyddu drwy weithgareddau'n yr ysgol, a chyfraniad cadarnhaol mentrau tebyg.

Yr oedd disgyblion o ysgolion dwyieithog mewn cymunedau dwyieithog yn teimlo bod lefel eu hyfedredd yn y Gymraeg yn eu galluogi i weithredu'n rhwydd drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda nifer y pynciau a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio.

Cafwyd y lefelau hyfedredd isaf ymysg y disgyblion hynny a oedd yn astudio'r Gymraeg fel ail iaith, heb unrhyw bwnc arall yn cael ei astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. O fewn y grwp yma, ymddengys

bod yr hyfedredd isaf ymysg y disgyblion hynny gydag ychydig iawn o gyswllt â'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

(ii) Mesur cynnydd yn y Gymraeg ers Blwyddyn 6

Pan ofynnwyd i'r disgyblion a oedd eu Cymraeg wedi gwella ers Blwyddyn 6, dywedodd y rhan fwyaf o'r disgyblion Blwyddyn 7,8 a 9 a oedd yn astudio Cymraeg fel pwnc ac o leiaf rhai pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, eu bod bellach yn teimlo'n fwy hyderus yn yr iaith. Cafwyd rhai achosion lle'r oedd y disgyblion hyn yn annog y disgyblion iau i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg, drwy esiampl. Gwnaeth rhai disgyblion nodi, serch hynny, nad oedd eu hyfedredd yn y Gymraeg wedi gwella ers Blwyddyn 6, a chysylltwyd y diffyg cynnydd hyn gyda'r duedd mewn ysgolion uwchradd i ddisgyblion gael eu dylanwadu gan gyfoedion Saesneg eu hiaith.

Teimlodd y disgyblion ym Mlynnyddoedd 7,8 a 9 a oedd yn astudio Cymraeg fel pwnc yn unig eu bod yn fwy cymwys yn yr iaith erbyn hyn nag yr oeddent ym mlwyddyn 6.

Pan ofynnwyd yr un cwestiwn i'r disgyblion hyn, cafwyd amryw o atebion:

Teimlodd rhai disgyblion fod eu gallu yn y Gymraeg wedi gwella, a'u bod yn cael mwy o gyfle i ddefnyddio'r iaith hefyd. Yr oedd y ffactor hwn yn tueddu i nodweddu'r disgyblion hynny oedd yn astudio rhai o'u pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Credai disgyblion eraill bod eu hyfedredd yn y Gymraeg wedi gwella (yn arbennig eu Cymraeg ysgrifenedig), er nad oeddent yn defnyddio'r iaith gymaint ag o'r blaen. Pan ofynnwyd iddynt esbonio, dywedodd sawl un fod eu cyfoedion Saesneg eu hiaith yn dylanwadu mwy arnynt.

Teimlai eraill fod eu Cymraeg wedi dirywio ers Blwyddyn 6. Y ddau brif reswm a roddwyd oedd dylanwad cyfoedion yn siarad Saesneg, a phrinder cyfle i ymarfer siarad Cymraeg yn y dosbarth. Yr oedd sylwadau rhai plant oedd yn astudio Cymraeg fel pwnc yn unig yn awgrymu diffyg cynnydd sylweddol yn yr iaith.

(iii) Ansicrwydd ieithyddol

Un nodwedd arwyddocaol o ymwybyddiaeth disgyblion o'u hyfedredd yn y Gymraeg oedd y duedd ymhlith rhai i gymharu'u hunain yn anffafriol ag eraill a oedd, yn eu barn hwy, yn gallu siarad Cymraeg yn 'dda' neu'n 'rhugl'. Yr oedd rhai o'r sylwadau hyn yn cynnwys cyfeiriadau at y ffaith nad oedd Cymraeg eu teulu/cymuned yn ddigon graenus. Gwnaethpwyd cymariaethau hefyd rhwng eu hymdrechion hwy i siarad Cymraeg a'r math o Gymraeg y mae eu teidiau a'u neiniau yn ei siarad, sydd ym marn y disgyblion, yn siarad yr iaith yn 'well'. Cafwyd peth awgrym ei bod hi'n anodd i ddisgyblion oedd yn awyddus i ymarfer a gwella'u Cymraeg ymdoddi i grwpiau o siaradwyr Cymraeg rhugl. Ymddengys fod yna gyd-berthynas agos rhwng hyder o ran hyfedredd, ar y naill law, a chysondeb yn y defnydd o'r Gymraeg ar y llaw arall.

Sylwyd hefyd fod mwyafrif helaeth y rhai hynny oedd fwyaf ymwybodol o'u diffyg gallu yn y Gymraeg yn awyddus i wella'u sgiliau ieithyddol. Serch hynny yr oedd rhai o'r defnyddwyr llai hyderus o'r Gymraeg, yn teimlo difaterwch tuag at yr iaith yn hytrach na dymuniad i ymdoddi'n llawn i amgylchedd Cymraeg ei iaith.

2. Y Gymraeg fel Pwnc

Croesawodd nifer o ddisgyblion y ffaith bod dysgu'r iaith yng Nghyfnod Allweddol 3 wedi'u galluogi i wella safon eu Cymraeg. Tra y cyfeiriodd rhai at agweddau mwy ffurfiol yr iaith ysgrifenedig, yr oedd mwyafrif y disgyblion hyn yn frwdfrydig iawn ynghylch defnyddio'r iaith yn greadigol (ee gwaith thema, ysgrifennu sgriptiau, chwarae rôl).

Serch hynny cafwyd llai o sylwadau positif gan ddisgyblion eraill, yn enwedig y rhai sy'n dysgu'r Gymraeg fel ail iaith mewn lleoliadau lle nad oedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Yr oeddent yn teimlo mai ychydig iawn o lwyddiant yr oeddent wedi'i gael wrth ddysgu'r iaith, ac awgrymwyd ganddynt fod eu methiant i siarad ac mewn rhai achosion deall yr iaith yn adlewyrchu gorbwyslais ar ddysgu geirfa a diffyg pwyslais ar ddysgu sgiliau cyfathrebu. Roedd canfyddiad ymysg y disgyblion hyn fod y Gymraeg yn iaith 'anodd' i'w dysgu. Gwnaethpwyd cymariaethau gyda'r llwyddiannau a gafwyd wrth ddysgu ieithoedd eraill ar wahân i'r Gymraeg. Wrth wraidd nifer o'r sylwadau hyn roedd teimlad o siom nad oeddent wedi dysgu'r iaith mewn cyd-destun mwy ystyrlon.

3. Y Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer pynciau eraill

Ar gyfer y mwyafrif o ddisgyblion nid oedd astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn peri unrhyw fath o broblem ieithyddol ar wahân i'r angen i gyfarwyddo'u hunain gyda rhai termau anghyfarwydd iawn. Serch hynny, soniwyd am y gwahaniaeth yn nhermau'r adnoddau a oedd ar gael yn y ddwy iaith (soniwyd am wefannau a deunyddiau adolygu).

Cafwyd ychydig o bryder ynghylch canlyniadau peidio â chynnig mathemateg a gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai ysgolion Cymraeg eu cyfrwng. Teimlwyd nad oedd rheswm digonol dros beidio â dysgu'r pynciau hyn yn Gymraeg a bod defnyddio Saesneg yn unig yn annog y teimlad nad oedd digon o adnoddau ar gael yn y Gymraeg i ddelio â'r pynciau hyn.

Yr oedd nifer fach o ddisgyblion, serch hynny, yn teimlo bod astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhoi mwy o bwysau arnynt, a bod y ffaith i nifer o'r termau fod yn anghyfarwydd yn rhwystr. Yr oedd sylwadau tebyg yn tueddu i gyd-daro gyda diffyg cefnogaeth ac anogaeth i'r Gymraeg y tu allan i amgylchedd yr ysgol. Yr oedd awgrym hefyd bod yr ymwybyddiaeth ei bod yn debygol y byddai'n rhaid newid i addysg cyfrwng Saesneg ar lefel Addysg Uwch/Addysg Bellach yn dylanwadu ar agwedd y disgyblion tuag at astudio pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg.

4. Defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol

Cafwyd cryn wahaniaethau, gydag ymddygiad ieithyddol y disgyblion yn amrywio o ddefnydd cyson o'r iaith Gymraeg gyda'r teulu a'r rhan fwyaf o ffrindiau, i ddim Cymraeg, neu ychydig iawn, y tu allan i'r ysgol. Gwelwyd sawl tuedd gyffredinol:

- Ymhlith y disgyblion hynny a siaradai Gymraeg yn gyson gyda'u rhieni, dywedodd nifer sylweddol nad oeddynt mor gyson wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u cyfeillion
- Dywedodd lleiafrif bychan iawn er eu bod yn siarad Cymraeg gyda'u rhieni, eu bod yn siarad Saesneg gyda'u brodyr a'u chwirydd. Yr oedd defnyddio'r Saesneg wrth siarad â brodyr neu chwirydd yn duedd ymysg rhai disgyblion ysgolion Cymraeg eu cyfrwng, hyd yn oed pan oedd y

brodyr a'r chwiorydd yn mynychu ysgolion Cymraeg eu hiaith.

- Dywedodd rhai disgyblion nad oedd eu gweithgareddau cymdeithasol yn cynnig llawer o gyfle iddynt ddefnyddio eu Cymraeg. Cafwyd hefyd awgrym gan un neu ddau fod peth 'stigma' yn perthyn i'r Gymraeg mewn rhai cylchoedd - nid oedd siarad yr iaith yn cael ei ystyried yn 'cwl'.
- Soniodd eraill, fodd bynnag, am y cyfleoedd gwerthfawr oedd ar gael yn yr ysgol i ymestyn eu defnydd o'r Gymraeg i weithgareddau allgyrsiol.
- Roedd yn amlwg fod y Gymraeg yn rhan ganolog o brofiadau cymdeithasol a diwylliannol disgyblion eraill, a soniwyd fel eithriadau am y gweithgareddau/digwyddiadau y tu allan i'r ysgol lle nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg.

5. Gwerth a defnyddoldeb y Gymraeg yn y dyfodol

Pan ofynnwyd iddynt pa mor ddefnyddiol fyddai'r Gymraeg iddynt wedi iddynt adael yr ysgol, cynigiodd y disgyblion sawl ymateb:

- Yr oedd rhai yn ymwybodol y byddai meddu ar sgiliau dwyieithog da o fantais wrth gynllunio gyrfa.
- Yn ôl eraill, hyd yn oed os na fyddai eu gyrfa yn gofyn yn uniongyrchol am allu yn y Gymraeg, roedd pwysigrwydd y Gymraeg fel rhan annatod o'u hunaniaeth yn golygu y byddent yn parhau i ddefnyddio'r iaith.
- Dywedodd rhai disgyblion y byddai'r Gymraeg yn ddefnyddiol ar gyfer rhai mathau o waith (e.e.nyrso) pe baent yn dewis aros yn lleol.
- Roedd eraill, fodd bynnag, yn amau a fyddent mewn gwirionedd yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith. Credai rhai o blith y garfan hon y byddent yn parhau i ddefnyddio'r iaith gyda'r teulu yn unig, tra teimlai eraill mai prin iawn fyddai eu cyswllt â'r Gymraeg wedi iddynt adael yr ysgol. O blith y categori olaf yr oedd rhai disgyblion yn ystyried y byddai dysgu iaith ar wahân i'r Gymraeg yn fwy defnyddiol iddynt fel ffordd o wella'u gyrfa.

6. Ffactorau eraill yn ymwneud ag agweddau

Gwnaeth bron pob disgybl nodi bod yr iaith Gymraeg yn rhan bwysig o hunaniaeth unigryw Cymru, ac yr oedd yna gydnabyddiaeth y gallai'r iaith gael ei hystyried gyda balchder hyd yn oed ymysg y disgyblion hynny nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg brwd. Dyma rai o sylwadau'r disgyblion:

- Mae hunaniaeth ieithyddol Cymru wedi ei seilio ar bresenoldeb y Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg
- Dylai fod yn bosibl diogelu'r iaith heb ddysgu pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg

Sylwadau i gloi

Er gwaetha cyfyngiadau amlwg y canlyniadau y gellir eu casglu oddi wrth y gwerthusiad hwn, teimlwyd bod cyfraniadau'r disgyblion yn ychwanegu nodwedd werthfawr iawn i'r adolygiad. Gwnaeth y sylwadau hyn amlinellu nifer o faterion allweddol:

- Amrywiaeth o ran lefelau cyrhaeddiad a disgwyliaid yn y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2, a hyn yn ei dro yn dylanwadu ar y trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 3 (sialens o sicrhau fod y cynnydd ar hyd y continiwwm ieithyddol yn briodol i bawb)
- Y sialens o gynnal y cyfraddau cynnydd addas ar hyd y continiwwm wrth i ddisgyblion symud i Gyfnod Allweddol 4
- Gwendidau'r trefniadau presennol ar gyfer dysgu/astudio Cymraeg fel ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4
 - ymwybyddiaeth y disgyblion o'u diffyg cynnydd yn yr iaith
 - siom y disgyblion nad oeddent wedi dysgu'r iaith mewn cyd-destun mwy ystyrion
- Dylanwad ethos ieithyddol gyffredinol ysgol ar ymddygiad ac agweddau ieithyddol
- Effaith dylanwad cyd-ddisgyblion a disgyblion hyn ar ymddygiad ieithyddol unigolion (yn annog naill ai defnyddio'r Saesneg neu ddefnyddio'r Gymraeg)
- Y graddau y mae hyfedredd y disgyblion yn dylanwadu ar eu parodrwydd i ddefnyddio'r iaith
- Dylanwad rhwydweithiau cymdeithasol anffurfiol (yn cynnwys y teulu a'r gymdogaeth) ar hyfedredd a defnydd ieithyddol disgyblion

Yr ysgolion a gymerodd ran

Yn bresennol yn y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

Ysgol Uwchradd Eirias, Bae Colwyn

Ysgol Emrys ap Iwan, Abergele

Ysgol Bro Ddyfi, Machynlleth

Ysgol Uwchradd y Drenewydd

Ysgol Gyfun Penweddig, Aberystwyth

Ysgol Gyfun Trefynwy

Yn bresennol ym Mhwyllgor Rhanbarth y De-orllewin

Ysgol Gyfun Bro Myrddin, Caerfyrddin

Ysgol Dyffryn Aman, Rhydaman

Ysgol y Gwendraeth, Drefach, Llanelli

Ymweld â'r ysgolion

Ysgol Uwchradd Caergybi

Ysgol Uwchradd Bodedern

Ysgol Friars, Bangor

Ysgol Tryfan, Bangor

Ysgol Gyfun Rhydywaun, Penywaun, Aberdâr

Ysgol Gyfun Gwynllyw, Pont-y-pwl

Diolchiadau

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth y Cyfarwyddwyr Addysg, yr athrawon a'r disgyblion a gymerodd ran yn yr adolygiad. Yn yr un modd gwerthfawrogwyd cydweithrediad staff wrth drefnu'r sesiynau, a pharodrwydd y disgyblion i rannu'u sylwadau a'u safbwyntiau.

GEIRFA

GEIRFA

cyfieithwyr achrededig

Cyfieithwyr sy'n aelodau o sefydliad cyfieithu proffesiynol (megis 'Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru') ac sydd wedi bodloni ei safonau.

cynllunio caffaeliad

Y gangen o gynllunio ieithyddol sy'n ymwneud â dysgu iaith, naill ai drwy'r teulu neu drwy addysg.

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Y corff proffesiynol ar gyfer cyfieithwyr sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n derbyn grant blynyddol gan 'Fwrdd yr Iaith Gymraeg'.

addysg ddwyieithog

Addysg sy'n defnyddio dwy iaith fel cyfrwng dysgu: yn yr achos hwn, y Gymraeg a'r Saesneg.

darparu gwasanaethau dwyieithog

Y broses o ddarparu gwasanaeth neu wasanaethau mewn dwy iaith.

Cymru ddwyieithog

At ddibenion yr adroddiad hwn, cafodd hyn ei ddiffinio fel a ganlyn, ar dudalen 4: "Mewn Cymru wirioneddol ddwyieithog fe fydd y Gymraeg a'r Saesneg yn ffynnu ac yn cael eu trin yn gyfartal. Ystyr Cymru ddwyieithog yw gwlad lle mae pobl yn gallu dewis byw eu bywydau trwy gyfrwng un neu'r ddwy iaith; gwlad lle mae presenoldeb dwy iaith genedlaethol, ac ieithoedd a diwylliannau amrywiol eraill yn ffynhonnell balchder a nerth" "

dwyieithrwydd

Y cysyniad o ddwy iaith yn bodoli mewn cymdeithas, neu o unigolion yn meddu ar sgiliau mewn dwy iaith.

cynllunio corpws

Y gangen o gynllunio ieithyddol sy'n ymwneud â materion megis yr angen i fathu a safoni termau, a'r angen i ddatblygu iaith sy'n boblogaidd, sy'n cael ei defnyddio ac sy'n ddefnyddiol.

CYD

Mudiad gwirfoddol sy'n cefnogi dysgwyr Cymraeg. Mae'n derbyn grant blynyddol gan 'Fwrdd yr Iaith Gymraeg'.

dwyieithrwydd cynnar

Y broses o ddysgu dwy iaith o oedran cynnar, drwy gyfrwng 'Mudiad Ysgolion Meithrin' er enghraifft.

Y Siarter Ewropeaidd dros ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol

Siarter sy'n ceisio hybu ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol ledled Ewrop. Cafodd ei chadarnhau gan Lywodraeth y DU ym mis Mawrth 2001.

cadarnleoedd

Cymunedau lle mae cyfran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

agwedd gyfannol

Agwedd sy'n cydnabod bod gwahanol agweddau rhywbeth yn gysylltiedig ac mai dim ond trwy gyfeirio at yr holl agweddau y gellir ei egluro.

cynllunio ieithyddol cyfannol

'Cynllunio ieithyddol' sy'n dangos agwedd 'gyfannol', e.e. drwy alw ar bob corff a maes gweithgarwch i roi dwyieithrwydd wrth graidd eu gweithgareddau.

iaith Cyf

Asiantaeth 'cynllunio ieithyddol' ar gyfer Cymru gyfan. Yn 2000, lluniodd adolygiad cynhwysfawr ac annibynnol o waith y mentrau iaith ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

addysg drochi

Dull o ddysgu Cymraeg yn yr ysgol i blant o gartrefi Saesneg eu hiaith sy'n defnyddio dulliau dysgu carlam a dwys.

Continwrm iaith/ieithyddol

Graddfa ar gyfer mesur sgiliau ieithyddol, sy'n amrywio o ddysgwyr llwyr i'r rhai sy'n gwbl rhugl.

Fforwm iaith

Fforwm ar gyfer yr holl brif sefydliadau sydd â diddordeb yn yr iaith Gymraeg i alluogi iddynt drafod cyfleoedd neu broblemau penodol. Gweler paragraff 3.28 o'r Adroddiad am ragor o fanylion.

cynnal a chadw iaith

Cynnal a chadw'r defnydd parhaus o'r iaith.

cynllunio ieithyddol

Datblygu polisïau bwriadol a strwythuredig er mwyn ysgogi

pobl i ddefnyddio'r iaith.

Safoni iaith/ieithyddol

Y broses o sefydlu termau safonol unigol yn gyson, at ddibenion swyddogol yn bennaf.

trosglwyddo iaith (yn y teulu / o fewn teuluoedd)

Y broses naturiol o drosglwyddo iaith o un genhedlaeth i'r llall.

Menter a Busnes

Mudiad sy'n hybu siaradwyr Cymraeg i gymryd rhan lawn ym maes busnes.

menter iaith

Mudiad lleol sy'n ceisio hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn ardal benodol. Ar hyn o bryd, mae 23 o'r rhain yng Nghymru. Maent oll yn derbyn grant blynyddol gan 'Fwrdd yr Iaith Gymraeg'.

Mudiad Ysgolion Meithrin

Mudiad gwirfoddol sy'n hybu addysg feithrin 'cyfrwng Cymraeg'. Mae'n derbyn grant blynyddol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

gweinyddiaeth naturiol ddwyieithog

Gweinyddiaeth lle mae pobl ddwyieithog yn cael eu hannog i weithio drwy gyfrwng y ddwy iaith.

S4C

Y gwasanaeth teledu iaith Gymraeg.

cyfieithu ar y pryd

Cyfieithu sy'n digwydd wrth i berson siarad, fel arfer drwy glustffonau.

cynllunio statws

Y gangen o gynllunio ieithyddol sy'n ymwneud â chodi statws iaith yn y gymdeithas.

cynllunio ieithyddol strategol

'Cynllunio ieithyddol' sy'n seiliedig ar strategaeth sydd wedi cael ei datgan neu'i chyhoeddi.

Trawsieithu - sgil ar gyfer datblygu dwyieithrwydd

Ystyr trawsieithu yw (i) derbyn gwybodaeth mewn un iaith (ii) ei defnyddio neu ei chymhwyso yn yr iaith arall. Mae'n sgil sy'n digwydd yn naturiol mewn bywyd bob dydd, e.e. pan fo plentyn yn derbyn neges ffôn ar ran ei fam yn Saesneg ac yna'n ailgyfleu'r neges honno iddi yn

Gymraeg.

Urdd (Gobaith Cymru)

Mudiad gwirfoddol sy'n hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ymhlith pobl ifanc. Mae'n derbyn grant blynyddol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

cynllunio defnyddio

Y gangen o 'gynllunio ieithyddol' sy'n ymwneud â datblygu a chynyddu'r defnydd o'r iaith ymhlith ei siaradwyr.

Pecynnau Croeso

Pecynnau gwybodaeth sydd wedi'u cynllunio ar gyfer pobl sy'n symud i ardal Gymraeg ei hiaith, naill ai o ran arall o Gymru neu o'r tu allan i'r wlad.

Cynlluniau Addysg (Iaith) Gymraeg

Cynlluniau a baratoir gan awdurdodau addysg lleol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'r rhain yn cynnwys targedau ar gyfer datblygu 'addysg ddwyieithog' ac 'addysg cyfrwng Cymraeg' o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddiwedd y cyfnod ysgol.

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Y Ddeddf Seneddol a sefydlodd 'Bwrdd yr Iaith Gymraeg' ac a roddodd rym i'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Y corff statudol, a noddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a sefydlwyd o dan 'Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993' i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

Cynllun Iaith Gymraeg

Y dull statudol sy'n rhoi grym i'r egwyddor o gydraddoldeb a nodwyd yn Neddf yr Iaith Gymraeg

(addysg) cyfrwng Cymraeg

Addysg a ddarperir yn gyfan gwbl, neu gan fwyaf, drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cymunedau Cymraeg eu hiaith

Cymunedau a rhwydweithiau lle caiff y Gymraeg ei siarad i raddau helaeth